

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

43/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

09/07/2020

Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig

Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig

Awduron: Brett Duggan, Sioned Lewis ac Eluned Glyn, Arad Research

Mewn partneriaeth â:

Kathryn Jones a Buddug Hughes, IAITH.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Duggan, B., Lewis, S. a Glyn, E. (2020). *Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 43/2020.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-siarter-iaith>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Catrin Redknap

Yr Isadran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5720

E-bost: catrin.redknap@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr o ffigurau	2
Geirfa.....	3
1. Cyflwyniad	5
2. Methodoleg	10
3. Cefndir: Siarter Iaith ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg	20
4. Canfyddiadau: Siarter Iaith ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg	27
5. Cefndir: Cymraeg Campus mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	58
6. Canfyddiadau: Cymraeg Campus mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	62
7. Cefndir: Siarter Iaith ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg / Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI)	74
8. Canfyddiadau: Siarter Iaith ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg / Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI)	76
9. Cefndir: Cymraeg Bob Dydd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg	81
10. Canfyddiadau: Cymraeg Bob Dydd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg	83
11. Theorïau newid y Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig	90
12. Casgliadau ac argymhellion	109
Atodiad 1: Llyfryddiaeth	120
Atodiad 2: Canllawiau Holi	122
Atodiad 3: Detholiad o dargedau a meini prawf Cymraeg Campus	147

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1.1. Crynodeb o'r meysydd ymchwil allweddol	9
Ffigur 2.1. Trosolwg o'r fethodoleg	11
Ffigur 3.1 Cyflwyno'r Siarter Iaith ar draws Cymru	21
Ffigur 3.2: Enghraifft o ganlyniadau 'Gwe' ysgol.....	25
Ffigur 5.1 Cyflwyno Cymraeg Campus ar draws Cymru	59
Ffigur 11.1: Dehongli theori newid y Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig	93

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Athrawon Bro	Athrawon peripatetig, a gyflogir gan awdurdodau lleol mewn rhai ardaloedd o Gymru, sy'n darparu ystod o wasanaethau yn cynnwys cefnogi addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
Consortiwm / Consortia Rhanbarthol	Corff sy'n darparu gwasanaethau addysg i gefnogi ysgolion mewn rhanbarth. Ceir pedwar consortiwm: GwE (Gogledd Cymru); ERW (Gorllewin a Chanolbarth Cymru); Consortiwm Canolbarth y De; a'r Gwasanaeth Cefnogi Ysgolion, GCA/EAS (De ddwyrain Cymru).
Criw Cymraeg	Grŵp o ddisgyblion sy'n cwrdd i drafod a chefnogi gweithgareddau i hybu defnydd o'r Gymraeg mewn ysgol. Fel arfer mae criwiau Cymraeg yn cynnwys disgyblion o wahanol flynyddoedd ysgol. Ceir criwiau Cymraeg yn y sectorau cynradd ac uwchradd.
Cydlynnydd/ Cydlynwyr Siarter Iaith	Athrawon o fewn ysgolion sydd â chyfrifoldeb am arwain ar gynllunio a gweithredu'r Siarter Iaith.
Cymraeg Bob Dydd	Rhaglen a weithredir mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg yn allgyrsiol.
Cymraeg Campus	Rhaglen a weithredir mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg gyda'r nod o hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac 'ethos Gymreig' o fewn ysgolion a darparu ystod o weithgareddau sy'n galluogi plant i fwynhau dysgu'r Gymraeg.
Dilysu/Proses ddilysu	(Siarter Iaith cynradd a Cymraeg Campus). Ymweliad ag ysgol gan gynrychiolwyr o'r consortiwm er mwyn gwirio a yw'r ysgol wedi cyflawni'r wobwr efydd, arian neu aur y bu'n gweithio tuag ati.
Fframwaith Siarter Iaith/ Fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol	Gan adeiladu ar y Siarter Iaith a'r rhaglenni cysylltiedig presennol, mae Llywodraeth Cymru am greu un fframwaith cyfunol ar gyfer hyrwyddo defnydd anffurfiol y Gymraeg. Bydd pob ysgol, waeth beth yw ei chyd-

	destun ieithyddol, yn gweithio o fewn yr un fframwaith er mwyn cyflawni'r nod o sicrhau bod dysgwyr yn: hyderus i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg; meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith, a chynyddu defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ysgol.
Gwe iaith	Defnyddir y Gwe iaith gan y Siarter iaith cynradd, PCAI/Siarter iaith uwchradd a Cymraeg Campus). Holiadur ar-lein a lenwir gan blant ar wahanol bwyntiau mewn amser i gofnodi'u defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn yr ysgol, ar yr iard ac o fewn y gymuned.
Gwobrau (Siarter iaith a Cymraeg Campus)	Tystysgrifau a roddir i ysgolion i gydnabod eu bod wedi cyflawni deilliannau sy'n gysylltiedig â gwobrau efydd, arian ac aur.
PCAI	Prosiect Cefnogi Arferion iaith. Rhaglen a weithredir mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc.
Siarter iaith	Rhaglen a weithredir mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Yn yr adroddiad hwn defnyddir 'Siarter iaith' i gyfeirio at y rhaglen a weithredir mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Defnyddir 'Fframwaith Siarter iaith / Fframwaith Siarter iaith cenedlaethol' i gyfeirio at y fframwaith cyfunol sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.
Siarter iaith uwchradd	Rhaglen Siarter iaith sydd yn cael ei gweithredu mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'n seiliedig ar y Siarter iaith (cynradd). Yn ystod cyfnod y gwerthusiad roedd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gamau gwahanol yn y broses o gyflwyno'r Siarter iaith uwchradd, gyda rhai yn parhau i ddilyn rhaglen PCAI.
Swyddogion consortia	Swyddogion sy'n gweithio i un o'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol. Yng nghyswllt y gwerthusiad hwn, swyddogion sy'n rheoli neu'n cydlynu rhaglenni i gefnogi'r Gymraeg ac addysg Gymraeg.
Ymarferwyr	Athrawon neu benaethiaid ysgolion.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig. Comisiynwyd Arad, mewn partneriaeth ag ymchwilwyr o gwmni IAITH, i gyflawni'r gwerthusiad. Cafodd y gwaith ymchwil ei gynnal rhwng Ionawr a Thachwedd 2019.
- 1.2 Nod y Siarter Iaith, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yw cynyddu defnydd anffurfiol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. Datblygwyd y Siarter Iaith yn wreiddiol gan Gyngor Gwynedd, cyn cael ei chyflwyno i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws Cymru.
- 1.3 Mae'r Siarter Iaith yn un o gyfres o raglenni sy'n anelu at gynyddu defnydd anffurfiol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Gweithredir rhaglenni eraill sydd wedi eu teilwra ar gyfer:
- disgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg (Cymraeg Campus);
 - disgyblion mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI)); a
 - disgyblion mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg (Cymraeg Bob Dydd).

Ceir rhagor o wybodaeth am y pedair rhaglen ym Mhenodau 3, 5, 7 a 9 yr adroddiad hwn.

Cyd-destun polisi a strategol Llywodraeth Cymru

- 1.4 Nod Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth *Cymraeg 2050* yw sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif hon (Llywodraeth Cymru 2017a). Mae gan y system addysg gyfraniad allweddol i'w wneud i wireddu'r nod hwn. Bydd angen cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a gwneud newidiadau i'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn gallu datblygu'i sgiliau iaith Gymraeg i'w defnyddio'n gymdeithasol ac mewn gwaith yn y dyfodol.
- 1.5 Yn ogystal â chael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae *Cymraeg 2050* yn cynnwys y targed o weld canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, yn cynyddu o

10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050. Un o nodau'r strategaeth yw sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r Gymraeg, ynghyd â darparu cyfleoedd 'ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol' (Llywodraeth Cymru 2017a:48). Noda'r strategaeth bod angen 'cynllunio darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd nid yn unig yn rhoi'r cyfle iddynt ddefnyddio neu ymarfer y Gymraeg, ond sy'n eu trwytho mewn agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith' (Llywodraeth Cymru 2017a:56).

- 1.6 Cyhoeddwyd *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21* (Llywodraeth Cymru 2017b) er mwyn tynnu llinynnau perthnasol *Cymraeg 2050* ac *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (Llywodraeth Cymru 2017c) ynghyd. Mae'r *Cynllun gweithredu 2017-21* yn nodi'r camau sydd angen eu cymryd i ddatblygu'r Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y cyfnod addysg statudol, ac yn benodol fel rhan o'r cwricwlwm newydd a fydd yn cynnwys un continwmm ar gyfer dysgu'r Gymraeg.
- 1.7 Yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd mae ymrwymiad i ddatblygu dulliau trawsnewidiol tuag at ddysgu, addysgu ac asesu'r Gymraeg. Y bwriad yw sicrhau cynnydd yn nifer y siaradwyr Gymraeg hyderus o fewn y system addysg statudol, a sicrhau, yn y dyfodol, bod pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol. Yn ogystal, bydd gwreiddio ac ehangu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r meysydd dysgu a phrofiad o fewn y cwricwlwm newydd.
- 1.8 Yn ystod cyfnod y gwerthusiad hwn, cyhoeddwyd cyfres o ganllawiau a dogfennau i gefnogi datblygiad y cwricwlwm newydd. Yn eu plith roedd *Fframwaith Siarter Iaith: Canllaw cychwynnol i ysgolion* (Llywodraeth Cymru 2019). Bwriad y Llywodraeth yw symud tuag at greu un fframwaith cenedlaethol gyda phob ysgol, 'waeth beth fo'i chyd-destun ieithyddol' (Llywodraeth Cymru 2019:5), yn gweithio i gyflawni'r nod o sicrhau bod dysgwyr yn:
 - hyderus i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg;
 - meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith; ac yn
 - cynyddu defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ysgol.

- 1.9 Bwriad Llywodraeth Cymru yw trosglwyddo o'r trefniadau a welwyd hyd yma, lle mae pedair rhaglen unigol wedi bodoli ar gyfer y sectorau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg (a'r sectorau cynradd ac uwchradd), tuag at un fframwaith cyfunol. Noda'r ddogfen *Fframwaith Siarter Iaith: Canllaw cychwynnol i ysgolion*:

'Bydd y fframwaith hwn yn cynnig arweiniad i ysgolion sydd ddim wedi bod yn rhan o'r daith hyd yma drwy gynnig man cychwyn ac amcanion clir. Ar yr un pryd bydd y fframwaith hwn yn cynnig arweiniad a chyfleoedd i ysgolion sydd eisoes yn rhan o'r rhaglenni i ddatblygu ymhellach drwy gynyddu statws ac adeiladu ar y gwaith da sydd wedi ei wneud, gan barhau â'r brwdfrydedd mae'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiol wedi eu creu.' (Llywodraeth Cymru 2019:5)

- 1.10 Ar yr adeg pan luniwyd y fanyleb ar gyfer y gwerthusiad hwn, roedd yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i dynnu'r rhaglenni hyn ynghyd o dan faner y Siarter Iaith o fis Medi 2019. Mae Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'i phartneriaid gweithredu yn y consortia rhanbarthol ac yn yr awdurdodau lleol, yn parhau i weithio tuag at hyn. Nid yw'r pedair rhaglen wedi eu trosglwyddo eto i system gyfunol newydd. Oherwydd hynny, mae trefniadau ar gyfer gweithredu'r rhaglenni unigol ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol, 2019/20, yn adlewyrchu'r un trefniadau a fu mewn lle yn ystod y blynyddoedd blaenorol.

Nod ac amcanion y gwerthusiad

- 1.11 Nod y gwerthusiad hwn, fel y'i cyflwynwyd yn y fanyleb, oedd cynnig arweiniad i Lywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer y Siarter Iaith. Yn wreiddiol, cynlluniwyd i gyflawni hyn drwy ddau gam, sef:

Cam 1: asesu sut mae'r Siarter Iaith ar ei ffurf bresennol a'r rhaglenni cysylltiedig yn cael eu gweithredu, a

Cam 2: archwilio a yw'r fframwaith arfaethedig ar gyfer y Siarter Iaith wedi ei ddylunio mewn ffordd a fydd yn galluogi nod y rhaglen i gael ei wireddu i'r dyfodol.

- 1.12 Rhestrwyd amcanion y gwerthusiad fel a ganlyn:

- dehongli a datblygu'r theori newid sydd yn sail i'r Siarter Iaith bresennol a'r rhaglenni eraill cysylltiedig;
- asesu i ba raddau mae'r rhaglenni presennol yn cael eu gweithredu yn unol â'r theori newid;

- adnabod pa agweddau o'r rhaglenni sydd yn gweithio'n dda, a pham;
- adnabod pa agweddau o'r rhaglenni sydd heb weithio cystal;
- dehongli a datblygu'r theori newid sydd yn sail i fframwaith arfaethedig y Siarter Iaith;
- dod i gasgliadau ynghylch sut mae'r fframwaith arfaethedig wedi ei ddylunio;
- darparu cyngor ac arweiniad i'r Cleient wrth i'r rhaglen barhau i gael ei datblygu a'i mireinio yn y cyfnod 2018-19 a thu hwnt;
- datblygu cynigion posibl ar gyfer dylunio gwerthusiad o ddeilliannau'r Siarter Iaith yn y dyfodol.

- 1.13 Ni fu'n bosibl cadw at gynllun ymchwil yn seiliedig ar ddau gam penodol, gan na fu cyfnod trosglwyddo taclus i wahaniaethu rhwng un system a system newydd. Yn hytrach, cwblhawyd gwaith maes dros gyfnod hirach, a rhoddwyd ystyriaeth i theoriau newid y pedair rhaglen a'r Fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol fel rhan barhaus ac integredig o'r gwerthusiad.

Meysydd ymchwil

- 1.14 Yn y fanyleb ar gyfer y gwerthusiad amlinellwyd pedwar maes allweddol i'w harchwilio. Mae'r meysydd hyn yn cynnig strwythur ar gyfer adrodd canfyddiadau'r ymchwil.

Ffigur 1.1. Crynodeb o'r meysydd ymchwil allweddol

Cynllunio strategol

Yn cwmpasu:

- dyluniad y rhaglenni;
- yr arweiniad sydd yn cael ei ddarparu mewn perthynas â gweithrediad y rhaglenni;
- archwilio a oes dulliau eraill o gyflwyno a gweithredu'r rhaglenni a fyddai'n annog mwy o berchnogaeth ymhlith rhanddeiliaid;
- archwilio a oes dulliau eraill o gyflwyno a gweithredu'r rhaglen a fyddai'n debygol o annog mwy o berchnogaeth o'r rhaglen ymhlith cymuned yr ysgol a rhanddeiliaid;
- y gydberthynas rhwng y rhaglenni a chynlluniau strategol eraill ar lefel ysgol, awdurdod a chonsortium.

Gweithio mewn partneriaeth

Yn cwmpasu:

- cydweithio presennol rhwng ysgolion a gwahanol rhanddeiliaid;
- cydweithio rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd o ran cefnogi defnydd anffurfiol disgyblion o'r Gymraeg;
- cydweithio presennol rhwng ysgolion a mudiadau/rhanddeiliaid allanol.

Dulliau casglu, cofnodi a dehongli tystiolaeth

Yn cwmpasu:

- y dystiolaeth a'r data sy'n cael eu casglu a'r rhesymeg dros eu casglu;
- y defnydd sy'n cael ei wneud o'r dystiolaeth a'r data a gesglir;
- dyluniad y Gwe laith a'r defnydd a wneir ohoni.

Monitro cynnydd a sicrhau ansawdd

Yn cwmpasu:

- cryfderau a gwendidau'r broses sydd wedi ei gweithredu hyd yma;
- tystiolaeth wahanol neu ychwanegol a fyddai'n cyfoethogi'r broses o fonitro cynnydd;
- y dulliau mwyaf addas o weithredu proses fonitro ac asesu cynnydd a sicrhau ei fod yn gynaliadwy i'r dyfodol.

1.15 Gan ystyried yr uchod, mae'n bwysig nodi'r cymhlethdodau a'r heriau a oedd yn gysylltiedig â gofynion y gwerthusiad. Gofynnwyd i'r gwerthusiad ystyried pedair rhaglen sydd ar wahanol bwyntiau o ran eu datblygiad a'u gweithrediad ar draws Cymru. Ceir amrywiadau yn y dulliau gweithredu rhwng y pedair rhaglen ac fe'u gweithredir mewn gwahanol gyd-destunau ieithyddol. Fel y nodwyd uchod, cwblhawyd y gwerthusiad yn ystod cyfnod o drafod a chynllunio un

fframwaith cenedlaethol, ond heb fod manylder ar gael ynghylch pryd a beth fyddai'n newid yn ymarferol wrth drosglwyddo i'r system newydd.

Nodyn ar strwythur yr adroddiad hwn

- 1.16 Mae'r adroddiad yn trin y pedair rhaglen dan sylw yn unigol yn y lle cyntaf. Ceir amlinelliad o gefndir pob rhaglen, ac yna cyflwynir canfyddiadau'r gwerthusiad mewn perthynas â phob un. Yn dilyn hynny, ceir dehongliad o theori newid sydd yn cwmpasu nodweddion cyffredin y pedair rhaglen, a'r ystyriaethau sydd yn unigryw i bob un. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys trafodaeth ar ddatblygiad theori newid ar gyfer y fframwaith cenedlaethol.

2. Methodoleg

- 2.1 Defnyddiodd y gwerthusiad gyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol er mwyn archwilio'r amcanion ymchwil a'r meysydd allweddol (gweler Ffigur 1.1). Nod y dyluniad dulliau cymysg oedd sicrhau bod y gwerthusiad yn seiliedig ar sylfaen tystiolaeth a oedd yn gyfuniad o ddyfnder ac ehangder. Cwblhawyd yr ymchwil yn ystod y cyfnod Ionawr-Tachwedd 2019. Mae Ffigur 2.1 yn cyflwyno trosolwg o'r ymchwil, ac mae gweddill y bennod hon yn rhoi mwy o fanylion ynghylch pob dull.

Ffigur 2.1. Trosolwg o'r fethodoleg

Rhaglen	Cyfranogwr/wyr	Dull
Pob rhaglen	Swyddogion Llywodraeth Cymru	Cyfweliadau lled-strwythuredig wyneb yn wyneb a dros y ffôn
	Rhanddeiliaid: Swyddogion o'r pedwar consortiwm; swyddogion yr Urdd, swyddogion awdurdodau lleol; ac aelod staff o Estyn ac o Fenter Iaith	Cyfweliadau lled-strwythuredig wyneb yn wyneb a dros y ffôn (18)
Siarter Iaith (ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg)	Ymarferwyr	Arolwg ar-lein (172 ymateb); Cyfweliadau wyneb yn wyneb yn ystod ymweliad â 18 ysgol
	Penaethiaid	Cyfweliadau wyneb yn wyneb yn ystod ymweliadau (12)
	Llywodraethwyr	Cyfweliad dros y ffôn (4)
	Disgyblion	Grŵp trafod disgyblion ym mhob un o'r 18 ysgol
	Rhieni	Pum grŵp ffocws rhieni, a dau sesiwn o gyfweliadau byrion un wrth un (25 rhiant)
Cymraeg Campus (ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg)	Ymarferwyr	Arolwg ar-lein (181 ymateb); Cyfweliadau dros y ffôn (8)
PCAI/Siarter Iaith uwchradd (ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg)	Ymarferwyr	Cyfweliadau dros y ffôn gydag ymarferwyr mewn wyth ysgol
Cymraeg Bob Dydd (ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg)	Ymarferwyr	Cyfuniad o gyfweliadau ffôn a chyfweliadau wyneb yn wyneb mewn wyth ysgol
	Disgyblion	Grŵp trafod gyda disgyblion mewn tair ysgol

Cyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid

- 2.2 Cafwyd cyfarfodydd diweddarau rhwng y tîm gwerthuso a swyddogion Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod gwerthuso. Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda swyddogion y Llywodraeth er mwyn trafod cefndir a datblygiad y Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig. Ochr yn ochr â'r cyfweliadau hyn cynhaliwyd adolygiad o ddogfennau polisi perthnasol a llyfrynau'r rhaglenni. Roedd y ffynonellau a adolygwyd yn cynnwys: llythyrau cytundeb grant; canllawiau a dogfennaeth genedlaethol a rhanbarthol, ac enghreifftiau o adroddiadau ac adnoddau a baratowyd gan y consortia rhanbarthol.

- 2.3 Cynhaliwyd cyfweiliadau â rhanddeiliaid gan gynnwys swyddogion Cyngor Gwynedd (er mwyn deall datblygiad gwreiddiol y Siarter yn y sir honno); swyddogion o'r pedwar consortiwm (i gasglu tystiolaeth ar weithrediad y Siarter); swyddogion o bump o awdurdodau lleol (i ddeall eu rôl o ran cefnogi'r Siarter laith a Cymraeg Campus); rheolwyr a swyddogion yr Urdd (i drafod gweithrediad y rhaglen Cymraeg Bob Dydd); ac aelod o staff o Estyn ac o Fenter laith er mwyn gosod y rhaglenni mewn cyd-destun ehangach.

Gwaith maes ysgolion

- 2.4 Rhoddwyd blaenoriaeth yn y fanyleb ymchwil i'r rhaglen Siarter laith cynradd. Dyluniwyd y rhaglen ymchwil i adlewyrchu hyn, ac oherwydd hynny mae'r dystiolaeth ar weithrediad y Siarter laith cynradd yn fwy datblygedig nag yw ar gyfer y rhaglenni eraill.

Siarter laith: ymweliadau ag ysgolion

- 2.5 Cynhaliwyd 18 o ymweliadau ag ysgolion. Mewn ymgais i adlewyrchu amrywiaeth yr ysgolion dewiswyd hwy ar hap ond o fewn fframwaith samplu oedd yn sicrhau trawstoriad o ran rhanbarth, maint ysgolion, canran y plant sy'n siarad Cymraeg gartref, a'r cyfnod o amser y bu ysgolion yn gweithredu'r Siarter laith.
- *Consortiwm rhanbarthol:* Ymwelwyd ag o leiaf tair ysgol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth, gan felly or-samplu'r ddau ranbarth sydd â nifer llai o ysgolion yn cymryd rhan.
 - *Maint ysgolion:* Er mwyn cael trawstoriad o ran maint ysgolion, tynnwyd sampl o naw ysgol oedd â 150 disgybl neu lai, a naw oedd â mwy na 150 o ddisgyblion. Sicrhawyd bod amrywiaeth o ran maint ysgol ar draws y sampl o ddeunaw.¹
 - *Y ganran o blant sy'n siarad Cymraeg gartref:* Defnyddiwyd y wybodaeth am ganran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref sydd ar gael ar StatsCymru. Defnyddiwyd y data hwn fel canllaw i sicrhau bod

¹ 151 disgybl ar gyfartaledd mewn ysgolion cynradd sydd ag adran babanod ac adran iau. Ffynhonnell [Disgyblion yn ôl ysgol a math o ysgol, 2019](#)

trawstoriad o gyd-destunau yn cael eu cynnwys, gan dderbyn fod rhai cyfyngiadau i'r data hwn.

- *Y cyfnod o amser y bu ysgolion yn defnyddio'r Siarter laith:* Gan nad oedd gwybodaeth ar gael am y cyfnod amser roedd ysgolion unigol wedi bod yn rhan o'r rhaglen, tynnwyd sampl a oedd yn cynnwys amrywiaeth o ran pa wobr (efydd, arian, aur) roedd ysgolion wedi ei chyrraedd. Mae ysgolion Siarter laith yn gweithio tuag at wobrau gan ddechrau ar yr efydd. Fel canllaw bras, mae'r ysgolion sydd wedi cyrraedd y wobr aur wedi bod yn ymwneud â'r rhaglen ers cyfnod hwy.

- 2.6 Man cychwyn yr ymweliadau oedd cyfweiliad â chydlynnydd y Siarter laith yn yr ysgol a chyda'r pennaeth. Yn wreiddiol roedd bwriad i gyfweild ag athrawon eraill nad oeddynt yn gydlynwyr, ond daeth yn amlwg wrth gynnal y gwaith maes na fyddai cyfweild â staff eraill yn ymarferol yn ystod un ymweliad.
- 2.7 Fel rhan o'r ymweliadau cynhaliwyd trafodaethau grŵp gyda disgyblion blynyddoedd 3-6 er mwyn trafod eu profiadau o fod yn rhan o'r Siarter laith. Holwyd y disgyblion am ba weithgareddau yr oeddent wedi eu cwblhau fel rhan o'r Siarter laith, eu barn ar y gweithgareddau a'r rhaglen, ac unrhyw syniadau a oedd ganddynt ar sut i wella'r rhaglen yn y dyfodol.
- 2.8 Gofynnwyd i ysgolion rannu manylion cyswllt y tîm gwerthuso gyda'r llywodraethwyr a oedd yn brif gyswllt ar gyfer materion yn ymwneud â'r Siarter ym mhob ysgol, er mwyn trefnu cyfweiliad â hwy. Arweiniodd hyn at bedwar o gyfweiliadau yn unig, felly ychydig iawn o'r canfyddiadau sy'n tynnu ar brofiadau'r llywodraethwyr.
- 2.9 Bu dau ddull gwahanol o gasglu tystiolaeth gan rieni er mwyn deall eu safbwynt a'u dealltwriaeth hwy o'r Siarter laith, a chafwyd ymgysylltiad gyda 25 o rieni. Trefnwyd pum grŵp trafod – dau mewn un rhanbarth ac un yr un yn y tri rhanbarth arall. Gofynnwyd i ysgolion am gymorth i rannu gwahoddiadau i gymryd rhan mewn grwpiau trafod, a chynhaliwyd pum grŵp gyda'r hwyr, gyda rhwng dau a phump o rieni yn mynychu pob un. Cynigiwyd taliad diolch iddynt fel cydnabyddiaeth am amser a chostau mynychu, yn unol â gweithdrefnau a gytunwyd gydag Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR). Y bwriad gwreiddiol oedd casglu barn rhieni mewn grwpiau trafod gyda'r hwyr yn unig,

ond cafwyd cyngor gan rai penaethiaid na fyddai gwahodd rhieni i gymryd rhan mewn grwpiau trafod strwythuredig yn addas yn eu hardaloedd hwy. Yn wyneb hyn parhawyd â'r syniad gwreiddiol o gynnal grwpiau ffocws gyda rhieni pum ysgol, ond cynhaliwyd cyfres o sgysiau byrrach un wrth un gyda rheini mewn dwy ysgol, wedi eu cynnal yn ystod oriau ysgol pan oedd rhieni yn yr ysgol beth bynnag, e.e. ar gyfer ffair neu brynhawn agored.

Siarter Iaith: arolwg ymarferwyr

- 2.10 Er mwyn rhoi cyfle i'r holl ysgolion perthnasol gyfrannu i'r gwerthusiad, cynlluniwyd holiadur ar-lein i'w ddosbarthu i'r holl ysgolion oedd yn rhan o'r rhaglenni Siarter Iaith. Paratowyd holiadur ar gyfer y cydlynwyr mewn ysgolion Siarter Iaith (sef ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg). Diben yr holiadur oedd casglu arsylwadau a safbwyntiau'r ymarferwyr ar y materion canlynol: eu profiad o weithredu'r Siarter; eu profiad o lenwi holiaduron Gwe Iaith a'r broses dilysu; rôl rhieni, a'u barn ynghylch a yw'r rhaglen wedi arwain at agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion. Mae copi o'r holiadur yn Atodiad 2.
- 2.11 Dosbarthwyd yr holiadur ym mis Mehefin 2019 trwy negeseuon e-bost er sylw penaethiaid yr holl ysgolion a oedd yn rhan o'r rhaglen Siarter Iaith (399 o ysgolion). Gofynnwyd i'r penaethiaid anfon yr holiadur ymlaen at gydlynnydd y rhaglen yn yr ysgol. Cwblhaodd 172 o ymarferwyr yr holiadur. Nid oedd pob cwestiwn yn yr holiadur yn ofynnol, ac ni chyflwynwyd ymatebion i bob un cwestiwn gan bob ymatebydd.
- 2.12 Nid yw'n bosibl cyfrifo cyfradd ymateb i'r arolwg yn gywir. Ar sail nifer y gwahoddiadau a anfonwyd, cafwyd cyfradd ymateb o 43 y cant. Gan bod yr holiaduron wedi eu hanfon at gyfeiriadau e-bost cyffredinol ysgolion er sylw'r pennaeth, gyda chais iddynt eu hanfon ymlaen at yr unigolyn a oedd yn gyfrifol am y rhaglen yn yr ysgol, nid yw'n hysbys faint o'r negeseuon e-bost hynny a gyrhaeddodd eu cyrchfan.

Cymraeg Campus: cyfweiliadau ffôn gydag ymarferwyr

- 2.13 Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn gydag wyth o gydlynwyr y rhaglen mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a oedd wedi eu dewis ar hap o fewn cwtâu i sicrhau trawstoriad o ran lleoliad a maint ysgol.

Cymraeg Campus: arolwg ymarferwyr

- 2.14 Fel gyda'r holiadur i ymarferwyr ysgolion Siarter Iaith, lluniwyd holiadur electroneg i'w ddosbarthu i'r holl ysgolion a oedd yn rhan o'r rhaglen Cymraeg Campus. Diben yr holiadur oedd casglu arsylwadau a safbwyntiau'r ymarferwyr ar y materion canlynol: eu profiad o weithredu Cymraeg Campus; eu profiad o lenwi holiaduron Gwe Iaith a'r broses dilysu; rôl rhieni, a'u barn ynghylch a yw'r rhaglen wedi arwain at agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion. Mae copi o'r holiadur yn Atodiad 2.
- 2.15 Anfonwyd gwahoddiad ar e-bost i benaethiaid pob un o'r 496 o ysgolion a oedd yn gweithredu Cymraeg Campus ym mis Mehefin 2019 a gofynnwyd i'r penaeithiaid anfon yr holiadur ymlaen at gydlynnydd y rhaglen yn yr ysgol. Cwblhaodd 184 o ymarferwyr yr holiadur hwn. Fel yn achos yr holiadur Siarter Iaith nid oedd pob cwestiwn yn yr holiadur hwn ar Cymraeg Campus yn ofynnol, ac ni chyflwynwyd ymatebion i bob un cwestiwn gan bob ymatebydd. Ar sail nifer y gwahoddiadau a anfonwyd, cafwyd cyfradd ymateb o 37 y cant. Fodd bynnag, mae angen nodi nad yw'n hysbys faint o'r negeseuon e-bost a anfonwyd i ysgolion a gyrhaeddodd y person cywir o fewn yr ysgol.

PCAI: cyfweiliadau ffôn gydag ymarferwyr

- 2.16 Cynhaliwyd cyfweiliadau gydag aelodau staff mewn wyth ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a ddewiswyd ar hap, ond o fewn fframwaith samplu a oedd yn sicrhau trawstoriad o ran rhanbarth. Roedd y drafodaeth yn cwmpasu'r gofyn gwreiddiol i drafod PCAI a hefyd i drafod y rhaglen Siarter Iaith uwchradd roedd rhai o'r ysgolion y cysylltwyd â hwy wedi dechrau ei gweithredu.

Cymraeg Bob Dydd: ymweliadau ysgol a chyfweiliadau ffôn

- 2.17 Cyfwelwyd wyth o ymarferwyr a oedd yn bwynt cyswllt yr ysgol ar gyfer Cymraeg Bob Dydd. Cynhaliwyd pedwar cyfweiliad yn ystod ymweliadau â'r ysgol, a phedwar dros y ffôn, yn unol â dewis yr ymarferwr. Yn ystod tri o'r ymweliadau ysgol cynhaliwyd grŵp trafod gyda disgyblion.

Dadansoddi

- 2.18 Ffocws y dadansoddi oedd y cwestiynau ymchwil a amlinellwyd yn Ffigur 1.1 a dadansoddwyd cofnodion y gwaith maes dan benawdau dadansoddi oedd yn deillio o'r cwestiynau gwerthuso hyn a'r canllawiau pwnc. Yn ogystal â'r dadansoddiad thematig hwn, edrychodd yr ymchwil am unrhyw wahaniaethau yn ôl grŵp rhanddeiliaid, rhanbarth neu raglen, o fewn cyfyngiadau'r dulliau samplo a dethol.

Dehongli a datblygu theori newid

- 2.19 Un o amcanion y gwerthusiad hwn oedd datblygu a dehongli theori newid y rhaglenni. Diben theori newid yw esbonio sut y bwriedir i raglen gyflawni ei nod a'i hamcanion, trwy amlygu'r cysylltiadau tybiedig rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau tymor hir. Mae theori newid hefyd yn ceisio adnabod a disgrifio'r tybiaethau sy'n gysylltiedig â'r camau hyn, ac yn eu gosod yng nghyd-destun polisi a/neu strategol ehangach y rhaglen. Mae datblygu theori newid, felly, yn ffordd o ddeall ac egluro'r newidiadau cynnar a thymor canolig y mae angen iddynt ddigwydd er mwyn cyrraedd canlyniad tymor hwy.
- 2.20 Ochr yn ochr â'r ymchwil desg a gwaith maes yn nyddiau cynnar y gwerthusiad, cynhaliwyd gweithdy theori newid (gweithdy rhif 1) yn Chwefror 2019. Diben y gweithdy oedd darparu cyfle i drafod elfennau o theori newid y Siarter Iaith ac i gyfrannu at ei datblygiad. Daeth swyddogion Siarter Iaith o dri o'r pedwar consortiwm rhanbarthol i'r gweithdy, er mwyn trafod eu dealltwriaeth hwy o'r rhaglen (y Siarter Iaith i ysgolion cynradd yn benodol) a lluniwyd drafft bras o theori newid ar sail y trafodaethau. Defnyddiwyd trafodaethau'r gweithdy cychwynnol fel sail ar gyfer llunio'r offerynnau gwaith maes.
- 2.21 Parhawyd i ddatblygu'r theori newid ar gyfnodau penodol yn ystod y gwerthusiad. Wedi i'r gwaith maes gael ei gwblhau defnyddiodd y gwerthuswyr y dystiolaeth a gasglwyd i fireinio a datblygu ymhellach ddrafft gwreiddiol y theori newid. Trafodwyd y drafft hwn mewn gweithdy gyda swyddogion polisi ac ymchwil Llywodraeth Cymru (gweithdy rhif 2) ym mis Tachwedd 2019. Diben y gweithdy hwn oedd i brofi a oedd y theori newid yn adlewyrchu eu dealltwriaeth hwy o nod, amcanion a chyd-destun ehangach y rhaglen. Ar sail y cyfraniadau

hyn aethpwyd ati i ddatblygu a mireinio ymhellach. Caiff y theori newid a ddatblygwyd yn sgil y broses honno ei thrafod ym Mhennod 11 yr adroddiad.

- 2.22 Mae'n bwysig nodi nad oedd theorïau newid yn bodoli eisoes ar gyfer y rhaglenni. Datblygwyd y theorïau drwy broses a oedd yn rhedeg yn gyfochrog ag elfennau eraill y gwerthusiad, gyda pheth o'r gwaith mireinio yn digwydd wedi i'r gwaith maes ddod i ben. O ran y pedair rhaglen unigol mae'r theorïau newid, i raddau, yn ôl-syllol, ac yn achos y fframwaith cenedlaethol sydd heb ei ddatblygu'n llawn eto, mae'r theori yn gyfyngedig i'r wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd ynghylch nod ac amcanion y fframwaith. Disgwylir y bydd y theori newid yn cael ei haddasu a'i datblygu ymhellach wrth i waith barhau ar ddatblygu fframwaith cenedlaethol y Siarter laith.

Moeseg a diogelu data

- 2.23 Cwblhawyd y gwerthusiad yn unol ag egwyddorion Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR). Cwblhawyd rhestr wirio moeseg ar gychwyn y gwerthusiad, ac adolygwyd y rhestr yn ystod yr astudiaeth.
- 2.24 Derbyniodd cyfranogwyr ddatganiadau preifatrwydd a gwybodaeth ategol am y gwerthusiad, yn esbonio nod ac amcanion yr ymchwil, a'u cyfraniad hwy i'r gwerthusiad; nodwyd wrthynt eu bod yn cyfrannu i'r astudiaeth o'u gwirfodd. Ar gyfer y trafodaethau gyda disgyblion ysgol lluniwyd dogfennau wedi eu teilwra ar gyfer plant, a gwybodaeth i'r ysgol ei rhannu gyda rhieni. Rhoddwyd sicrwydd i gyfranogwyr bod pob cyfraniad i'r ymchwil yn gyfrinachol ac ni fyddai'r adroddiad gwerthuso yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw gyfranogwr unigol.

Cyfyngiadau a heriau

- 2.25 Mae rhai cyfyngiadau yn gysylltiedig â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad. Mae angen eu cadw mewn cof wrth ymdrin â chanfyddiadau'r gwerthusiad.

Dibynadwyedd y wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd

- 2.26 Mae'r gwerthusiad yn tynnu ar dystiolaeth a gynigiwyd gan ystod eang o gyfranwyr (swyddogion, athrawon, dysgwyr a rhieni), ac mewn dogfennaeth

ysgrifenedig. Mae'n bosibl fod profiadau a lefelau ymwneud ysgolion neu randdeiliaid unigol gyda'r rhaglenni wedi dylanwadu ar eu dealltwriaeth o sut mae'r rhaglenni yn cael eu gweithredu. Mae'n bosibl fod hyn, yn ei dro, wedi lliwio'r dystiolaeth a gynigiwyd ganddynt. Mae'r gwerthusiad wedi ceisio pwysu a mesur y dystiolaeth drwy archwilio a chymharu canfyddiadau o wahanol ffynonellau, gan ddod i gasgliadau lle mae hynny'n bosibl ynghylch yr amrywiaeth a geir mewn dehongliadau. Fodd bynnag, mae angen cadw mewn cof y gallai'r dystiolaeth fod wedi ei heffeithio gan wahanol ddehongliadau o amcanion a dulliau gweithredu'r rhaglenni dan sylw.

Tuedd sampl yn yr arolygon

- 2.27 Anfonwyd y gwahoddiad i gwblhau'r arolwg i bob ysgol berthnasol, ac roedd yr ymatebion yn ddibynnol ar ddewis ysgolion i gwblhau'r holiadur ai peidio. Gallai hyn fod wedi dylanwadu ar natur sampl yr ymarferwyr a gyfrannodd, ac nid yw'r rheiny a ddewisodd gymryd rhan o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r holl ymarferwyr. Rhannwyd yr arolwg gyda'r ymarferwyr trwy gysylltu â phenaethiaid, ond nid oes modd gwybod faint o unigolion a oedd yn gydlynwyr Siarter laith yn eu hysgolion a dderbyniodd y gwahoddiad i gyfrannu.

Tuedd sampl yn ystod gwaith maes ysgolion

- 2.28 Er fod ymgais wedi bod i sicrhau trawstoriad, nifer cymharol fechan o ysgolion a ymwelwyd â hwy, felly nid oes sicrwydd eu bod yn gynrychioliadol. Yn ystod yr ymweliadau cynhaliwyd grwpiau trafod gyda disgyblion. Yr athrawon oedd yn gyfrifol am ddewis disgyblion i gymryd rhan, ac mae'n bosibl nad yw'r adborth a gasglwyd gan y disgyblion hyn yn cynrychioli barn yr holl ddisgyblion.

Priodoliad

- 2.29 Nid oedd yn fwriad i'r gwerthusiad hwn werthuso traweffaith y rhaglenni mewn modd systematig. Fodd bynnag, roedd yr offerynnau ymchwil a ddatblygwyd, a'r trafodaethau a gynhaliwyd, yn gwahodd unigolion i adfyfrio ar y cyswllt rhwng y rhaglenni ac unrhyw newidiadau a welwyd. Mae angen cydnabod nad yw bob amser yn bosibl priodoli'r effeithiau a'r canlyniadau tybiedig a adroddwyd gan gyfranwyr i weithrediad y Siarter laith neu'r rhaglenni cysylltiedig.

Gwaith maes yn cwmpasu dwy flwyddyn ysgol

- 2.30 Cynhaliwyd y gwaith maes gydag ysgolion Siarter Iaith a Cymraeg Campus yn ystod dwy flwyddyn ysgol (tymor yr haf 2018/19 a thymor yr hydref 2019/20). Nid oedd newid i weithrediad y rhaglenni rhwng y cyfnodau hyn, ond mae angen cadw mewn cof y gallai ffactorau megis y gefnogaeth gan y rhanbarth, baich gwaith neu argaeledd adnoddau, fod wedi bod yn wahanol rhwng y ddwy flynedd ysgol.

Datblygiad y fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol

- 2.31 Wrth i'r gwerthusiad hwn cael ei gynnal, ac wrth i theori newid gael ei ddatblygu ar gyfer y fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol, canllaw cychwynnol yn unig oedd ar gael i ysgolion a rhanddeiliaid ar gyfer y fframwaith cenedlaethol. Nid yw'r fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol yn weithredol, ac felly mae sylwadau'r cyfweleion yn seiliedig ar eu profiad o gyflwyno'r pedair rhaglen unigol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, roedd y cyfweleion wedi gweld y fframwaith cenedlaethol newydd (neu yn wir wedi bod yn rhan o'i ddyluniad), felly nid oedd rhaniad pendant rhwng y dystiolaeth am yr hyn sydd wedi bod yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r rhaglenni unigol ers rhai blynyddoedd, a thybiaethau'r cyfweleion ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd.

Tystiolaeth ynghylch y pedair rhaglen

- 2.32 Rhoddwyd mwy o sylw yn y gwaith maes i'r rhaglen Siarter Iaith mewn ysgolion cynradd, nag i'r rhaglenni eraill. Oherwydd hynny cafwyd llai o dystiolaeth ar gyfer y tair rhaglen arall.

3. Cefndir: Siarter laith ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg

- 3.1 Mae'r bennod hon yn cynnig trosolwg o weithrediad y rhaglen. Mae'n seiliedig ar ddogfennaeth gefndirol a adolygwyd yn ystod y gwerthusiad, ynghyd â gwybodaeth a rannwyd ar lafar gan swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion consortia a gyfwelwyd.

Nod

- 3.2 Rhaglen a weithredir mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yw'r Siarter laith. Mae'r canllaw a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, *Siarter laith Gymraeg, Ysgolion Cynradd* yn esbonio nod y Siarter laith fel a ganlyn: 'Nod syml y Siarter laith yw arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mewn gair, ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau' (Llywodraeth Cymru 2016a:2).

Cefndir

- 3.3 Sefydlwyd y Siarter laith yng Ngwynedd yn 2011/12 yn dilyn ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd i ddefnydd iaith disgyblion yn ysgolion y sir (Roberts a Thomas 2010). Roedd argymhelliad yn yr adroddiad ymchwil i 'osod disgwyliad ar holl ysgolion cynradd y sir i fod yn rhagweithiol yn annog a hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg'. Nododd yr adroddiad yr angen am strategaethau pwrpasol i gefnogi defnydd o'r Gymraeg, a'r angen i ddatblygu templed safonol i alluogi pob ysgol i adrodd ar weithrediad eu cynlluniau. Cyflogwyd cydlynnydd yng Ngwynedd i ddatblygu system fonitro'r 'Gwe laith' i gefnogi gweithrediad y Siarter laith.
- 3.4 Ar ôl gweithredu mewn nifer fechan o ysgolion, erbyn 2013 roedd y Siarter wedi ei chyflwyno ymhob ysgol yng Ngwynedd. Cafodd y rhaglen ei hestyn ar draws rhanbarth Gogledd Cymru ac yna i'r rhanbarthau eraill ar draws Cymru (gweler Ffigur 3.1). Diffiniwyd nod y Siarter laith yn y canllaw gwreiddiol a luniwyd gan Gyngor Gwynedd a Hunaniaith fel a ganlyn: 'arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg [...] cael y plant i siarad Cymraeg' (Cyngor Gwynedd a Hunaniaith 2014:1).²

² Hunaniaith yw'r Fenter laith sydd yn gweithredu, ers 2009, fel rhan o Uned laith Cyngor Gwynedd.

3.5 Addaswyd y nod rhywfaint yn y canllaw cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac ychwanegwyd cyfeiriad at 'ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau' (Lywodraeth Cymru (2016a:2). Mae'r Siarter yn anelu tuag at gyfoethogi profiadau disgyblion o'r iaith Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, oddi fewn i'r ysgol a thu allan. Y bwriad yw y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion mewn ystod o sefyllfaoedd cymdeithasol. Yn ystod blynyddoedd cyntaf gweithredu'r Siarter iaith roedd y ffocws ar y defnydd cymdeithasol o'r iaith y tu allan i wersi. Erbyn i'r rhaglen gael ei chyflwyno ledled Cymru roedd y Siarter iaith wedi esblygu rhywfaint, ac elfennau ychwanegol wedi eu cyflwyno. Yn benodol, cyflwynwyd llais y disgybl yn fwy amlwg fel rhan o'i gweithrediad, gyda rôl bendant i 'Griwiau Cymraeg' a/neu gynghorau ysgol wrth flaenoriaethu a phenderfynu ar weithgareddau.³

Ffigur 3.1 Cyflwyno'r Siarter iaith ar draws Cymru

2008-2010	Ymchwil yng Ngwynedd. Cyhoeddi <i>Adroddiad Arolwg Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant Sector Cynradd Gwynedd</i> .
2011/12	Sefydlu'r Siarter iaith yng Ngwynedd a lansio gyda chynhadledd ym Mehefin 2011. Nifer fechan o ysgolion yng Ngwynedd yn dechrau gweithredu'r Siarter.
2013	Y Siarter iaith yn cael ei gweithredu yn holl ysgolion Gwynedd.
2015/16	Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth i Wynedd er mwyn ehangu'r Siarter iaith i Gonwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam.
Hydref 2016	Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru (GCA/EAS) yn cyflwyno'r Siarter iaith i ysgolion cyfrwng Cymraeg rhanbarth y de ddwyrain.
Mawrth 2017	Consortïwm Canolbarth y De yn dod yn rhan o'r Siarter iaith ac yn gweithredu'r rhaglen yng nghymoedd canolbarth de Cymru, Caerdydd a Bro Morgannwg.
Mai 2017	ERW yn gweithredu'r Siarter ar draws rhanbarth y de orllewin a'r canolbarth.
Ebrill 2019	Cyhoeddi <i>Fframwaith Siarter iaith: Canllaw cychwynnol i ysgolion</i> .

³ Grŵp o ddisgyblion yw'r Criw Cymraeg sy'n cwrdd i drafod a chefnogi gweithgareddau i hybu defnydd o'r Gymraeg. Maent yn cynrychioli ystod o flynyddoedd ysgol, gydag aelodaeth yn newid o flwyddyn i flwyddyn.

- 3.6 Yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniodd y gwerthuswyr gan swyddogion consortia rhanbarthol ym mis Ebrill 2019, roedd 399 o ysgolion yn cymryd rhan yn y Siarter Iaith ym mlwyddyn academiaidd 2018/19.⁴

Trosolwg o drefniadau cyllido'r Siarter Iaith

- 3.7 Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 cafodd cyllid grant o £500,000 ei ddosbarthu i'r consortia ar gyfer gweithredu'r Siarter Iaith.⁵ Roedd y cyllid grant a dderbyniwyd gan bob consortiwm unigol yn amrywio, gyda rhan ohono yn seiliedig ar fformiwla sy'n cyfateb i oddeutu £500 am bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a £1,000 am bob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y rhanbarth. Defnyddir y grant i gefnogi gweithrediad y Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig gan gynnwys talu cyflogau swyddogion rhanbarthol a chostau gweinyddu.
- 3.8 Mae trefniadau grant ar gyfer y Siarter Iaith wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Hyd at 2017/18 roedd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno llythyr grant i gonsortia a oedd yn amlinellu amodau neu ddisgwyliadau o ran defnydd y grant i weithredu'r Siarter Iaith:

- 'Cefnogi awdurdodau lleol y rhanbarth i gefnogi eu hysgolion i weithredu egwyddorion a monitro effaith y Siarter Iaith.
- Annog cysylltiadau rhwng ysgolion yn lleol a rhanbarthol fydd yn hyrwyddo cydweithio effeithiol a strategol.
- Hwyluso'r broses o rannu arferion da rhwng ysgolion o fewn y rhanbarth ac yn genedlaethol drwy gyfarfodydd y rhwydwaith a drwy'r adran Siarter Iaith ar wefan Hwb.⁶
- Gweithredu'r broses o ddilysu ysgolion o fewn y rhanbarth yn flynyddol.
- Casglu data sirol a rhanbarthol o'r Gwe Iaith i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Casglu astudiaethau achos o'r rhanbarth i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.'

(Ffynhonnell: *Llythyr Grant Llywodraeth Cymru i gonsortia rhanbarthol 2017/18; Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â'r rhaglen genedlaethol i gefnogi defnydd iaith anffurfiol plant a phobl ifanc*, Gorffennaf 2017).

⁴ Yn ystod y broses o ddrafftio'r adroddiad hwn, darparodd Llywodraeth Cymru nifer yr ysgolion a oedd yn rhan o'r rhaglen yn 2019/20, sef 423.

⁵ Yn seiliedig ar wybodaeth a rannwyd gan Lywodraeth Cymru, mae consortia hefyd yn medru defnyddio'r cyllid ar gyfer rhaglenni eraill sy'n cefnogi defnydd iaith anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni Cymraeg Campus a PCAI.

⁶ [Hwb](#) yw'r platfform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru.

- 3.9 Disgrifiwyd y pwyntiau uchod fel ‘targedau’ yn y llythyrau a gyflwynwyd i gonsortia rhanbarthol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dargedau meintiol yr oedd disgwyl i gonsortia eu cyrraedd wrth weithredu’r grant. Ers 2018/19, mae’r cyllid ar gyfer cefnogi’r Siarter Iaith wedi’i ymgorffori o fewn y prif grant addysg, sef y Grant Gwella Addysg.⁷
- 3.10 Mae trefniadau gweithredu’r Siarter yn adlewyrchu model tair haen system addysg Cymru a gyflwynir yn strategaeth *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl* (Llywodraeth Cymru 2017c). Yn gyson gyda’r hyn a ddisgrifir fel rôl yr haen ganol yn y model hwn, mae’r consortia yn gyfrifol am weithredu’r rhaglen ar lefel ranbarthol ac yn arwain ar y gwaith cynllunio. Y drydedd haen yw’r ysgolion sydd yn gweithredu’r rhaglen ac yn cynnig y profiadau i blant er mwyn gwella eu dysgu a’u lles (Llywodraeth Cymru 2017c:10).
- Gweithredu’r Siarter Iaith*
- 3.11 Mae cydlynwyr y Siarter Iaith o fewn ysgolion, gyda chefnogaeth gan ddisgyblion, yn arwain ar y broses o gynllunio gweithgareddau’r Siarter. Amlinellodd y canllaw a luniwyd gan Gyngor Gwynedd i gefnogi gweithrediad y Siarter Iaith (ac a rannwyd gyda’r consortia eraill) bwysigrwydd cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol ‘er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni’ (Cyngor Gwynedd a Hunaniaith 2014:1). Ategwyd hyn yn y canllaw a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 i gefnogi gweithrediad y Siarter Iaith yn genedlaethol, lle nodwyd bod y Siarter Iaith yn gofyn am gyfranogiad ar lefel ysgol-gyfan gan ‘y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr a’r gymuned ehangach’ (Llywodraeth Cymru 2016a:2).
- 3.12 Mae gweithrediad y rhaglen yn amrywio o ysgol i ysgol, yn dibynnu ar ei chyddestun a’i blaenoriaethau ei hun (gweler Pennod 4 am ragor o wybodaeth). Fodd bynnag, ceir nodweddion cyffredin ar draws pob ysgol.
- 3.13 Cefnogir gweithgareddau Siarter Iaith gan ymgyrch frandio genedlaethol, gyda dau gymeriad, Seren a Sbarc, yn gweithredu fel masgotiaid (‘archarwyr’) y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y brandio, ac yn rhannu

⁷ Diben y Grant Gwella Addysg (GGA) yw gwella deilliannau addysgol ar gyfer pob dysgwr a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau dysgwyr.

adnoddau gan ddefnyddio delweddau'r archarwyr er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r rhaglen ymysg athrawon, plant a rhieni.


- 3.14 Mae'r canllaw ar y Siarter Iaith mewn ysgolion cynradd a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn esbonio bod 'dull addas o osod gwaelodlin ac o fesur llwyddiant wedi'i ddatblygu i wireddu'r nod o gynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg' (Llywodraeth Cymru 2016a:2). Hwn yw'r Gwe Iaith, sef holiadur ar-lein sy'n cael ei lenwi gan ddisgyblion i gofnodi'u defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth, ar yr iard ac o fewn y gymuned. Mae'r ddogfen *Siarter Iaith Gymraeg, Ysgolion Cynradd* a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyflwyno diben data'r Gwe Iaith:

'Rhydd y data yma dystiolaeth bendant o'r sefyllfa ieithyddol ymhob ysgol. O'r wybodaeth a fydd yn ymddangos ar ffurf graffiau neu lun gwe, sefydlir y waelodlin ac o'r fan yna bydd modd i bob ysgol osod ei gweledigaeth unigol ei hun. Fe ddengys ymatebion i'r holiaduron y cryfderau ynghyd â'r agweddau ieithyddol fydd angen canolbwyntio arnynt. Ail ymwelir â'r holiadur efo'r un cwestiynau ar ôl cyfnod o amser. O'r atebion a'r data a geir ohono, gwelir pa effaith fydd unrhyw sylw wedi'i gael [...]' (Llywodraeth Cymru 2016a:4).

- 3.15 Caiff yr holiadur Gwe Iaith ei gydlynw gan y swyddogion consortia sy'n anfon dolen at yr ysgolion yn eu rhanbarth. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn gofyn i ddisgyblion gwblhau'r holiadur Gwe Iaith ddwywaith y flwyddyn, sef ym mis Medi ac yna yn nhymor yr haf, er mwyn asesu a fu cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg o'i gymharu â'r 'gwaelodlin'. Mae'r holiadur yn gofyn cwestiynau am ddefnydd y disgyblion o'r Gymraeg – yn y dosbarth, ar yr iard, ac o fewn y gymuned. Caiff y data ei fwydo yn ôl i'r consortia sy'n cadw data lefel ysgol ac yn rhannu'r wybodaeth yn ôl gydag ysgolion unigol.
- 3.16 Mae'r wybodaeth ar-lein yn arddangos y canlyniadau ar ffurf gwe lefel ysgol (ceir enghraifft yn Ffigur 3.2) gyda chanlyniadau holiaduron yr haf wedi'u gosod dros ganlyniadau cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn dangos newid yn yr ymatebion. Dim ond eu canlyniadau eu hunain y gall ysgolion eu gweld a'u dadansoddi, tra gall swyddogion consortiwm weld canlyniadau'r holl ysgolion yn eu rhanbarth.
- 3.17 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn ystod y gwerthusiad, disgrifiwyd cyfres o weithgareddau sy'n cael eu rhestru o fewn cynlluniau gweithredu'r Siarter Iaith. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd hi bob amser yn glir pa

weithgareddau oedd yn 'weithgareddau Siarter laith' penodol a pha ddigwyddiadau oedd yn rhan o galendr rheolaidd yr ysgol ond yn cefnogi nod y Siarter. Cyfeiriodd rhai ysgolion at y ffaith bod elfennau o weithrediad y Siarter yn cael eu plethu trwy amserlen a gweithgareddau rheolaidd yr ysgol neu o fewn y cwricwlwm (er enghraifft siaradwyr gwadd; gwaith thema yn y dosbarth; alldeithiau ac ymweliadau). Yn seiliedig ar ganlyniadau'r holiadur sydd yn cael ei weinyddu ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, mae ysgolion yn pennu blaenoriaethau neu agweddau o ddefnydd iaith y mae angen canolbwyntio arnynt. Mae'r Criw Cymraeg yn aml yn rhan o'r penderfyniadau hyn, dan arweiniad y cydlynwyr Siarter laith.

Ffigur 3.2: Enghraifft o ganlyniadau 'Gwe laith' ysgol



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2016a:24

3.18 Mae'r system wobrwyo yn elfen amlwg o'r Siarter Iaith. Mae'r cysyniad o wobrwyo ysgolion 'ar sail eu hymdrechion' (Llywodraeth Cymru 2016a:4) yn ganolog i ddyluniad y rhaglen, ac mae ysgolion yn gweithio tuag at wobrau efydd, arian ac aur wrth gwblhau eu cynlluniau gweithredu. Mae disgwyl i ysgolion ddatblygu cynlluniau gweithredu sydd yn cynnwys targedau sy'n gynyddol heriol wrth iddynt weithio tuag at y gwahanol wobrau. Mae'r canllaw *Siarter Iaith Cymraeg, Ysgolion Cynradd* (Llywodraeth Cymru 2016a) yn darparu enghreifftiau o dargedau a champau gweithredu y gallai ysgolion eu hystyried fel ffordd o wireddu eu gweledigaeth ar gyfer hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Noda'r canllaw:

Rydym yn annog cyngor ysgol, disgyblion, gweithlu, rhieni a llywodraethwyr i arloesi a chynnig targedau a champau gwreiddiol heriol a chyraeddadwy y gellir gweithredu arnynt. (Llywodraeth Cymru 2016a:4)

3.19 Mae canllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y Siarter Iaith yn nodi y dylai ysgolion '[anelu] am y wobr aur dros gyfnod o dair blynedd' (Llywodraeth Cymru 2016a:4). Serch hynny, yn ymarferol nid yw swyddogion cenedlaethol na swyddogion o fewn y consortia rhanbarthol yn annog ysgolion i gyrraedd y wobr aur o fewn yr amserlen hon. Adrodda swyddogion consortia bod pwyslais ar annog ysgolion i symud tuag at wobrau ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw.

3.20 Mae cam o'r rhaglen y cyfeirir ato fel y 'broses ddilysu' ar gyfer y Siarter Iaith yn cael ei gydlyn gan swyddogion consortia. Mae ysgolion yn rhoi gwybod i'w consortiwm pan fyddant wedi cyflawni eu cynllun gweithredu efydd, arian neu aur ac yn barod i dderbyn ymweliad gan swyddog y consortiwm neu ei gynrychiolwyr. Mewn rhai rhanbarthau, swyddogion y consortiwm sy'n ymweld, tra bod consortia eraill yn trefnu bod athrawon o ysgolion gwahanol yn y rhanbarth yn cynnal yr ymweliad dilysu. Mae'r ymweliad 'dilysu' hwn yn gyfle i'r consortiwm wirio ac adolygu'r dystiolaeth bod yr ysgol wedi cwrdd â'r targedau neu ddeilliannau a bennwyd ganddynt yn y cynllun gweithredu. Yn ystod yr ymweliad, mae'r dilyswyr yn cyfweld athrawon, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni i drafod gweithrediad y cynllun. Rhoddir pwyslais ar sicrhau bod llais y disgybl yn rhan amlwg o'r ymweliadau hyn. Yn dilyn yr ymweliad, mae'r consortiwm yn rhoi gwybod i'r ysgol a ydynt wedi dangos dystiolaeth ddigonol o fod wedi cyflawni eu cynllun gwaith a derbyn y 'wobr' berthnasol.

4. Canfyddiadau: Siarter laith ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg

- 4.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad sy'n ymwneud â'r Siarter laith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Yn y fanyleb ar gyfer y gwerthusiad nodwyd pedwar maes allweddol i'w harchwilio, sef: cynllunio strategol; gweithio mewn partneriaeth; dulliau casglu, cofnodi a dehongli tystiolaeth; a monitro cynnydd a sicrhau ansawdd. Mae strwythur y bennod yn cyfateb i'r meysydd allweddol hyn. Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy drafodaethau gydag ymarferwyr, dysgwyr, rhieni, llywodraethwyr a rhanddeiliaid, drwy arolwg o ymarferwyr ac ymchwil pen desg.

Cynllunio strategol

- 4.2 Mae'r isadran hon yn trafod swyddogaethau, cyfrifoldebau a chyfraniad y gwahanol randdeiliaid wrth iddynt weithredu a chefnogi'r rhaglen. Mae'n ystyried hefyd addasrwydd ac ansawdd yr arweiniad a gynigir gan wahanol randdeiliaid, a'r cysylltiadau rhwng y rhaglen a blaenoriaethau strategol ehangach.

Rôl Llywodraeth Cymru

- 4.3 Trafodwyd dyluniad y rhaglen a rôl Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r Siarter laith gyda swyddogion polisi Is-adran y Gymraeg a chyda swyddogion consortia. Adroddodd y cyfweleion hyn fod swyddogion y Llywodraeth wedi hwyluso cydweithio rhwng swyddogion o fewn y consortia sy'n arwain ar y Gymraeg wrth i'r Siarter gael ei chyflwyno yn y gwahanol ranbarthau yn ystod y cyfnod 2016-18. Esboniodd swyddogion Llywodraeth Cymru y bu llai o bwyslais ar gynllunio strategol ar y lefel genedlaethol wedi i'r rhaglen ddod yn weithredol yn y pedwar ranbarth. Nodwyd bod swyddogaethau Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gyllido, gweinyddu'r grant a ddyfernir i'r consortia, a chefnogi brandio sy'n gysylltiedig â'r Siarter laith.
- 4.4 Sgîl-effaith 'anfwriadol' hyn, ym marn swyddogion consortia, yw nad oes arweiniad cenedlaethol digonol mewn perthynas â gweithredu a monitro'r rhaglen. Yn benodol, cododd swyddogion consortia gwestiynau am y disgwyliadau sydd ar ysgolion o ran gweithredu a chynnal y rhaglen yn yr hirdymor: mynegwyd ansicrwydd ganddynt ynghylch trefniadau o ran cefnogi a

dilysu ysgolion wedi iddynt gyflawni'r wobr aur. Cododd y swyddogion hyn gwestiynau hefyd ynglŷn â'r ffordd orau o sicrhau bod dilyniant i'r Siarter a bod y rhaglen yn addas ac yn gweithio yn y sector uwchradd (dychwelir at y pwyntiau hyn mewn adrannau dilynol yn yr adroddiad). Roedd croeso ymysg consortia i'r syniad o ddatblygu fframwaith Siarter iaith cenedlaethol a fyddai'n cadarnhau statws y rhaglen o fewn y trefniadau cwricwlwm newydd, ond nododd swyddogion bod angen canllawiau mwy cadarn mewn perthynas â'r gofynion o ran gweithredu'r rhaglen o dan y fframwaith newydd.

Rôl consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol

- 4.5 Canfu'r gwerthusiad bod ymrwymiad a chefnogaeth i'r rhaglen ymysg swyddogion consortia ac awdurdodau lleol. Tra bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyllid ar gyfer y Siarter iaith, consortia rhanbarthol sy'n gyfrifol am reoli a chefnogi'r rhaglen yn eu hardaloedd. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, mae'r trefniant hwn yn annog consortia i deimlo perchnogaeth dros y rhaglen. Maent wedi pennu unigolion i arwain a chydlynu'r Siarter iaith, naill ai ar lefel ranbarthol neu mewn cydweithrediad â swyddogion awdurdodau lleol ac athrawon bro.
- 4.6 Adroddodd cynrychiolwyr consortia eu bod yn gweld y cyswllt rhwng y Siarter iaith a blaenoriaethau ehangach ym maes y Gymraeg. Roedd cytundeb clir ymysg swyddogion consortia bod y rhaglen yn cefnogi amcanion *Cymraeg 2050*, yn benodol y nod o sefydlu 'arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol' (Llywodraeth Cymru 2017a). Disgrifiwyd y Siarter gan un swyddog consortiwm rhanbarthol fel 'cerbyd i wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050'.
- 4.7 Yn ystod cyfweiliadau gyda swyddogion consortia ac awdurdodau lleol, esboniwyd bod y Siarter iaith wedi'i gwreiddio o fewn trefniadau cynllunio ar lefel rhanbarthol a sirol. Ceir cyfeiriadau penodol at y Siarter iaith yng Nghynlluniau Busnes cyfredol dau allan o'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Mae Cynllun Busnes un o'r consortia eraill yn cynnwys cyfeiriad at gynlluniau lefel ysgol i gefnogi defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ond heb enwi'r rhaglen. Nododd swyddogion consortia ac awdurdodau lleol bod y Siarter wedi derbyn

sylw cynyddol o fewn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gynhyrchir gan awdurdodau lleol.

- 4.8 Mae gwahanol ddulliau o ddefnyddio a dyrannu'r cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru i gonsortia. Mae rhai consortia yn cadw'r cyllid yn ei gyfanrwydd ac yn cydlynu'r holl weithgareddau i gefnogi'r rhaglen. Ceir modelau cyllido eraill lle mae'r consortiwm yn dyrannu cyfran o'r cyllid i awdurdodau lleol, sydd yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant i ysgolion. Adroddodd swyddog un o'r consortia eu bod yn dyrannu swm o £200 i bob ysgol yn y rhanbarth i gefnogi gweithgareddau'r Siarter Iaith, ond nid oes cyllid yn cael ei ddyrannu yn uniongyrchol i ysgolion ym mhob rhanbarth. Yn sgil y gwahaniaethau hyn, mae natur a lefel y gefnogaeth sy'n cael ei darparu i ysgolion yn amrywio o ranbarth i ranbarth.
- 4.9 Roedd yr holl ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn gwerthfawrogi'r arweiniad a geir gan swyddogion Siarter Iaith yn y consortia. Roedd ysgolion yn cydnabod bod consortia yn hanfodol i weithrediad y rhaglen: adroddodd ysgolion bod swyddogion consortia yn darparu cefnogaeth ymarferol wedi'i theilwra at anghenion ysgolion. Mae'r trefniadau a roddir mewn lle i gefnogi'r Siarter yn amrywio ar draws y rhanbarthau, gydag awdurdodau lleol yn chwarae rôl allweddol mewn rhai ardaloedd. Mae'r isod yn crynhoi'r strwythurau sydd yn eu lle yn y pedwar consortiwm.
- Consortiwm 1: un cydlynnydd rhanbarthol ar gyfer nifer fawr o ysgolion, ac felly swyddogion y Gymraeg yn yr awdurdodau lleol yn cynorthwyo cydlynnydd yn y consortiwm drwy gefnogi ysgolion a threfnu'r broses ddilysu ar gyfer gwobrwy ysgolion.
 - Consortiwm 2: y consortiwm wedi ei rannu'n dair ardal, a chydlynnydd i bob ardal. Oddi fewn i'r rhanbarth ceir trefniadau gwahanol, yn cynnwys a) y cydlynnydd yn cefnogi ac yn ymweld â phob ysgol yn eu hardal, a b) athrawon penodedig yn arwain ar y Siarter o fewn eu clystyrau.
 - Consortiwm 3: tri o athrawon yn cael eu rhyddhau am un diwrnod bob pythefnos i gefnogi'r ysgolion yn y rhanbarth. Ymgynghorydd Her yn cynghori'r athrawon, ac yn dilysu.

- Consortiwm 4: tîm bychan, yn cynnwys athrawon ar secondiad i'r consortiwm, yn darparu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth ar gyfer yr holl ysgolion.
- 4.10 Dengys y dystiolaeth a gasglwyd gan benaethiaid a chydlynwyr Siarter laith ysgolion bod swyddogion consortia a'u partneriaid yn yr awdurdodau lleol yn darparu nifer o swyddogaethau allweddol:
- Darparu hyfforddiant a gweithdai i ysgolion yn flynyddol i hyrwyddo'r Siarter laith ac esbonio'r gofynion wrth weithio tuag at y gwahanol wobrau;
 - Arwain ar brosesau dilysu;
 - Cynnal ymweliadau i ysgolion i gynnig syniadau a chefnogaeth ar gyfer eu cynlluniau gweithredu Siarter laith;
 - Datblygu deunyddiau a chyngor ar ddulliau posibl o ymgorffori'r Siarter laith o fewn fframwaith y cwricwlwm newydd.
- 4.11 Roedd cytundeb ymysg yr ysgolion hyn bod swyddogion consortia yn darparu cyngor a hyfforddiant priodol er mwyn cefnogi gweithrediad y rhaglen a pharatoi ar gyfer prosesau dilysu. Nododd ysgolion bod swyddogion consortia yn cynnig cefnogaeth ymarferol trwy ddarparu deunyddiau i'w cynorthwyo i ymgorffori gweithgareddau i gefnogi'r Siarter laith ar draws y cwricwlwm.
- 4.12 Yn sgil y gefnogaeth a'r syniadau a gafwyd gan y consortiwm, defnyddiodd un ysgol y £500 a gawsant i weithredu'r Siarter laith i brynu gorsaf dywydd fach a ddefnyddiwyd gan y plant fel rhan o wersi gwyddoniaeth. Arweiniodd hyn at blant yn cysylltu â ffermwyr drwy negeseuon testun i rannu'r wybodaeth a rhannu geirfa tywydd gydag ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn dangos bod modd defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gryfhau cysylltiadau gyda'r gymuned a chefnogi nod y Siarter o gynyddu defnydd o'r Gymraeg.
- 4.13 Mae canfyddiadau'r arolwg o ysgolion Siarter laith yn ategu'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd ac yn dangos bodlonrwydd ymysg ysgolion gyda'r cyngor a'r gefnogaeth a geir gan gonsortia. Gofynnwyd i ymarferwyr i feddwl am y gefnogaeth a geir gan swyddogion Siarter laith rhanbarthol/lleol a nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau: 'Rydym yn derbyn digon o gyngor i gefnogi'r Siarter laith' a 'Mae'r cyngor yn cwrdd â'n gofynion'. O'r 165 o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau hyn, nododd ychydig yn llai na dau draean (64 y cant) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno'n eu bod yn

derbyn digon o gyngor gan swyddogion rhanbarthol neu leol i gefnogi'r Siarter laith. Atebodd dros dri chwarter (68 y cant) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y cyngor sydd ar gael iddynt yn cwrdd â'u gofynion. Nododd ymatebwyr i'r arolwg bod ysgolion yn cefnogi ei gilydd trwy drafod gweithgareddau Siarter laith a rhannu syniadau o fewn eu clystyrau neu rwydweithiau ysgol.

- 4.14 Yn ystod haf 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw cychwynnol ar gyfer y fframwaith Siarter laith cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd pryderon ymysg swyddogion y pedwar consortiwm rhanbarthol nad oes i'r Siarter statws ddigon blaenllaw o fewn trefniadau'r cwricwlwm newydd. Nododd y swyddogion y gallai hyn effeithio ar broffil y rhaglen. Pwysleisiodd swyddogion consortia yr angen am arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod ysgolion yn deall perthnasedd y Siarter laith i'r cwricwlwm newydd. Codwyd y pwynt hwn mewn gweithdy lle'r oedd cynrychiolwyr tri allan o'r pedwar consortiwm yn bresennol:

'Rydym yn bryderus iawn na fydd y Siarter laith yn cael ei gydnabod fel rhan greiddiol o'r cwricwlwm newydd. Bydd angen cyfnod o ryw dair blynedd i barhau gyda chefnogaeth cydlynwyr Siarter laith wrth sefydlu gweithredu'r Cwricwlwm newydd. Ar hyn o bryd, nid oes digon o benaethiaid nac athrawon yn deall potensial y Siarter laith a byddai'r bwriadau hynny'n mynd ar goll heb yr arweiniad arbenigol sydd gan y cydlynwyr rhanbarthol.'

(Cydlynnydd Siarter laith rhanbarthol)

- 4.15 Mewn ymateb i bryderon mewn perthynas â statws y Siarter laith o fewn datblygiad y cwricwlwm newydd, mae un consortiwm wedi mynd ati i arddangos sut y mae'r Siarter yn cynnig ffordd o gyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn fframwaith y cwricwlwm. Mae cydlynwyr Siarter laith rhanbarthol wedi paratoi canllaw yn mapio fframwaith cenedlaethol y Siarter laith i'r datganiadau sy'n cefnogi pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys siart llif sy'n amlinellu sut mae gweithredu'r Siarter laith yn galluogi cyflawni egwyddorion cyffredinol 'Cyfoethogi a Phrofiadau' y cwricwlwm. Dengys hyn enghraifft o gonsortia rhanbarthol yn cymryd yr awenau wrth hyrwyddo perthnasedd a gwerth y Siarter laith yng nghyd-destun datblygiadau cwricwlaidd a pholisi.

Rôl ysgolion wrth weithredu'r Siarter laith

- 4.16 Un nodwedd o ddyluniad y rhaglen yw bod gofyn i bob ysgol benderfynu sut i gynllunio a gweithredu'r Siarter mewn ffordd sy'n berthnasol i'w sefyllfa. Mae ysgolion yn llunio cynlluniau gweithredu, gosod 'targedau' eu hunain, a chasglu tystiolaeth o'r gwahanol weithgareddau. Roedd croeso i hyn gan yr holl benaethiaid a'r cydlynwyr Siarter laith a gyfwelwyd. Nododd yr ymarferwyr a gyfwelwyd bod ganddynt hyblygrwydd i weithio tuag at y gwobrau ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw. Adroddodd ysgolion a chonsortia bod hyn yn golygu bod 'pob ysgol yn dilyn ei llwybr ei hun'.
- 4.17 Adroddodd penaeithiaid yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy eu bod wedi ymrwymo i gefnogi nod y rhaglen i gynyddu defnydd o'r Gymraeg y tu fewn a thu allan i'r ysgol, a bod y Siarter laith yn gyson gyda'u blaenoriaethau a'u cenhadaeth fel ysgolion cyfrwng Cymraeg. Adroddodd cydlynwyr Siarter laith eu bod 'yn aml' yn defnyddio cyfnodau wedi'u hamserlennu ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) i baratoi neu weithredu gweithgareddau Siarter laith. Nododd rhai cydlynwyr eu bod yn cwblhau tasgau ar y Siarter y tu allan i oriau ysgol (yn cynnwys gwaith cynllunio a threfnu gweithgareddau, a thynnu tystiolaeth at ei gilydd i gefnogi prosesau dilysu).
- 4.18 Gofynnodd yr arolwg o ysgolion Siarter laith i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad: 'Mae'r Siarter laith yn cael ei chefnogi gan uwch dîm rheoli'r ysgol'. O'r 161 a atebodd y cwestiwn hwn, nododd mwyafrif clir yr ymatebwyr (88 y cant) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod cefnogaeth i'r rhaglen gan yr uwch dim rheoli. Gwahoddodd yr arolwg sylwadau ar ffactorau eraill a oedd wedi hwyluso neu wedi cyflwyno heriau wrth weithredu'r Siarter laith. Yn y sylwadau pellach a gyflwynwyd, esboniodd cydlynwyr bod y ffaith bod uwch dimau yn sicrhau eu bod yn cael eu rhyddhau i gynllunio gweithgareddau ac i fynychu digwyddiadau rhanbarthol neu gyfarfodydd gydag ysgolion clwstwr yn hwyluso gweithrediad y rhaglen.
- 4.19 Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai penaeithiaid yn ystod cyfweiliadau fod heriau yn gysylltiedig â gweithredu rhaglen nad yw'n rhan statudol o'r cwricwlwm. Cyfeiriodd y penaeithiaid hyn at y ffaith nad oes cefnogaeth ariannol uniongyrchol i ysgolion ar gyfer gweithgareddau sy'n rhan o'r Siarter laith:

‘Mae angen arian i ryddhau staff er mwyn cynllunio ar gyfer datblygu a gweithredu'r Siarter a chreu partneriaethau cymunedol - mae'n amhosib wneud hyn gydag amserlen addysgu llawn.’ (Pennaeth, ysgol gynradd)

‘Roedd yr arian a gafwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun yn ffocysu meddwl pawb tuag at sut oedd cyflawni'r Siarter. Heb gyllid mae statws y cynllun wedi cael cnoc. Mae'r brwdfrydedd tuag at y nod o gynyddu'r defnydd cymdeithasol o Gymraeg yn parhau, ond mae statws y cynllun yn wannach eleni.’ (Athro dosbarth, ysgol gynradd)

- 4.20 Cyfeiriodd rhai cyfweleion at y ffaith bod yr hyblygrwydd sydd gan ysgolion wrth weithredu'r Siarter laith hefyd yn cario risgiau: awgrymodd rhai athrawon a swyddogion consortia bod natur y rhaglen yn golygu bod ysgolion hefyd yn rhydd i beidio â gweithredu'r Siarter laith ‘gydag argyhoeddiad’. Teimlai rhai ysgolion bod angen arweiniad mwy pendant gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo'r rhaglen a sicrhau ansawdd a chysondeb yn y ffordd y mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu:

‘Mae angen mwy o arweinyddiaeth genedlaethol er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb.’ (Cydlinydd Siarter laith, ysgol gynradd)

‘Mae'n [ymddangos] bod e lan i bob ysgol i wneud fel y mynnent.’ (Cydlinydd Siarter laith, ysgol gynradd)

- 4.21 Adroddodd swyddogion consortia eu bod yn ymwybodol o uwch dimau rheoli mewn rhai ysgolion nad ydynt yn rhoi gymaint o sylw i'r Siarter laith wrth iddynt ymateb i'r blaenoriaethau eraill sy'n pwysu arnynt yn ystod cyfnod o drawsnewid (yn enwedig y diwygiadau i'r cwricwlwm). Mewn ymateb i hyn, mae swyddogion consortia a swyddogion awdurdodau lleol yn annog ysgolion i weithredu'r Siarter laith mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn plethu sawl agwedd ar waith y cwricwlwm, yn cynnwys cymhwysedd digidol, llythrennedd, mathemateg, daearyddiaeth a gwyddoniaeth.

- 4.22 Darparodd yr ysgolion a adroddodd eu bod wedi bod yn gweithio tuag at wreiddio'r Siarter laith fel rhan o'u cynllunio lefel ysgol enghreifftiau o'r dulliau a fabwysiadwyd i gefnogi hyn:

- Ymgorffori'r Siarter mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol. Roedd hyn yn cynnwys cyfeirio at weithgareddau'r Siarter fel rhan o gynlluniau i gefnogi llythrennedd, llfaredde a chyfathrebu (h.y. gwneud y cyswllt rhwng y Siarter laith a safonau/sgiliau llafar). Nododd ysgolion eu bod yn gweld hyn fel ffordd o annog perchnogaeth ar lefel ysgol gyfan i'r Siarter. Mae rhai consortia yn

gosod disgwyliad bod ysgolion yn cyfeirio at weithredu'r Siarter fel rhan o'u Cynllun Datblygu Ysgol.

- Trefnu bod y Criw Cymraeg yn gwneud cyflwyniad i'r corff llywodraethu ar weithgareddau'r Siarter laith. Yn ôl yr ysgolion lle roedd hyn yn digwydd roedd hyn wedi arwain at gynnydd yn yr ymwybyddiaeth o'r rhaglen ymysg llywodraethwyr.
- Sicrhau bod y Siarter laith yn derbyn sylw wrth gyfathrebu gyda rhieni (e.e. drwy greu cyfrifon Trydar Siarter laith/Criw Cymraeg er mwyn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r Siarter yn gyson).

4.23 Cafwyd tystiolaeth yn dangos bod gweithredu a gwreiddio'r Siarter laith yn ddibynnol ar arweinyddiaeth ar lefel ysgol. Adroddodd swyddogion consortia mai'r ffactor mwyaf dylanwadol ar weithrediad y Siarter laith yw'r graddau y mae penaeithiaid ac athrawon yn cefnogi a pherchnogi nodau'r rhaglen.

4.24 Gofynnodd yr arolwg ysgolion Siarter laith i ymatebwyr nodi a oedd person penodedig yn gyfrifol am gydlynw'r Siarter laith yn yr ysgol. O'r 171 a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 96 y cant o ymatebwyr fod person penodedig yn gyfrifol am gydlynw'r Siarter laith yn eu hysgolion. Nododd ysgolion yn ystod cyfweiliadau ac mewn sylwadau ysgrifenedig yn yr arolwg fod gofynion amser ychwanegol sylweddol ar gydlynwyr Siarter wrth iddynt gynllunio rhaglen o weithgareddau a gweithio tuag at y targedau sy'n gysylltiedig â chyrraedd y gwobrau.

4.25 Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr nodi: 'Pwy sy'n rhan o'r broses o gynllunio gweithgareddau'r Siarter laith yn eich ysgol chi?' Dengys atebion i'r cwestiwn hwn bod y cydlynwdd Siarter laith yn rhan o gynllunio gweithgareddau Siarter ym mron pob achos, a bod y Criw Cymraeg neu grŵp o ddisgyblion gyda swyddogaeth debyg yn cyfrannu at y broses gynllunio mewn oddeutu tri chwarter o ysgolion. Mae'r uwch-dîm rheoli yn cyfrannu at gynllunio gweithgareddau mewn llai na hanner yr ysgolion.

Rôl disgyblion wrth weithredu'r Siarter laith

4.26 Mae cyfranogiad disgyblion yn rhan ganolog o ddyluniad a gweithrediad y rhaglen. Maent yn cyfrannu at brosesau cynllunio gweithgareddau, yn 'gynulleidfa darged' ar gyfer y gweithgareddau hyn, ac yn darparu'r dystiolaeth

sydd yn cael ei chasglu yn yr holiaduron Gwe Iaith. Mae'r Siarter Iaith, felly, yn rhaglen sy'n cylchdroi o amgylch disgyblion, a gyda llais y disgybl yn elfen gref ohoni.

- 4.27 Roedd brwdfrydedd clir am y Siarter ymysg y disgyblion hynny a gymerodd ran mewn grwpiau trafod yn ystod ymweliadau ysgolion. Roedd nifer o'r disgyblion hyn yn aelodau'r Criw Cymraeg (neu gyffelyb) yn eu hysgolion, ac yn ymfalchïo yn y rôl yr oeddent yn ei chwarae wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau'r Siarter bob blwyddyn. Ymysg y disgyblion hyn roedd dealltwriaeth glir o nodau'r Siarter ac ymrwymiad i gefnogi ymdrechion yr ysgol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.
- 4.28 Darparwyd enghreifftiau gan gydlynwyr a disgyblion ar draws ystod o ysgolion o'r cyfraniadau gan aelodau Criwiau Cymraeg neu 'lysgenhadon y Gymraeg' (fel y'u henwir mewn rhai ysgolion) i'r rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyflwyniadau i gyd-ddisgyblion mewn gwasanaethau ar flaenoriaethau'r Siarter am y flwyddyn i ddod; cyflwyniadau ar y Siarter i rieni, llywodraethwyr a rhanddeiliaid allanol (cynghorwyr sir, mudiadau cymunedol lleol); llysgenhadon hŷn ym Mlwyddyn 5 a 6 yn cefnogi defnydd o'r iaith y tu allan i'r dosbarth ymysg plant iau'r ysgol drwy arwain gemau buarth a gweithgareddau eraill; plant hŷn hefyd yn cynorthwyo plant iau i gwblhau'r holiadur Gwe Iaith. Dengys hyn fod disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am agweddau ar weithredu'r rhaglen ac am hyrwyddo'i gwerth i gyd-ddisgyblion a chynulleidfaoedd ehangach. Fodd bynnag, dylid nodi bod y dystiolaeth hon yn seiliedig ar sylwadau grwpiau dethol o ddisgyblion brwd ac nid yw, o anghenraid, yn adlewyrchu profiadau'r holl ddisgyblion.
- 4.29 Adroddodd penaethiaid a chydlynwyr y Siarter fod gweithio tuag at wobrau yn agwedd ar y rhaglen sy'n cynnal brwdfrydedd disgyblion. Nodwyd hefyd, bod y broses hon yn cyfleu neges bod yr ysgol gyfan yn ymdrechu ar y cyd i gyflawni cynllun gweithredu.
- 4.30 Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ysgolion nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad: 'Mae disgyblion yr ysgol yn frwdfrydig dros y Siarter Iaith'. O'r 161 a atebodd y cwestiwn hwn, roedd dros dri chwarter o ymatebwyr (78 y cant) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad. Atebodd

lleiafrif bach (6 y cant) eu bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gyda'r datganiad.

4.31 Yn y sylwadau a gyflwynwyd gan ysgolion yn yr arolwg mewn perthynas ag agweddau disgyblion tuag at y rhaglen, nodwyd y canlynol:

- Bod aelodaeth o Griwiau Cymraeg yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion arwain ar, neu gyfrannu tuag at, gynllunio gweithgareddau drwy holi barn cyfoedion; cyflwyno i lywodraethwyr ac athrawon eraill; bod yn rhan o gynnal gweithgareddau; a gwneud cyflwyniadau fel rhan o brosesau dilysu.
- Nid yw cymeriadau Seren a Sbarc yn berthnasol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2, a bod angen ail-ystyried y brandio a delweddau sy'n cyd-fynd â'r rhaglen, yn enwedig wrth ystyried y weledigaeth ar gyfer un fframwaith cenedlaethol sy'n cwmpasu ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Bod cwestiynau Gwe Iaith yn 'dyddio dros amser', yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae'r Siarter Iaith wedi'i gweithredu am gyfnod hirach: mae plant yn 'syrrffedu ar [gwblhau] yr un holiadur' (gweler isadran *Dulliau casglu, cofnodi a dehongli tystiolaeth*).
- Bod y Gymraeg, mewn rhai ysgolion, yn iaith gymunedol neu'n iaith y cartref i fwyafrif y disgyblion yr ysgol ac y rhoddwyd 'sylw i ddiwylliant a thechnoleg drwy'r Gymraeg ers blynyddoedd lawer' (Cyflynydd Siarter Iaith). O ganlyniad mae rhai yn cwestiynu faint o ddylanwad y mae'r rhaglen yn ei chael ar ddisgyblion yn yr ardaloedd hynny ac o'r farn bod y rhaglen yn ychwanegu 'gwaith papur [b]eichus am rywbeth sydd eisoes yn digwydd yma'.

Rôl rhieni

4.32 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn cyfleu darlun cymysg o ran ymgysylltiad rhieni â'r Siarter Iaith a'u dealltwriaeth o'r rhaglen. Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ysgolion ateb y cwestiwn: 'A yw gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau i gefnogi'r Siarter Iaith yn cael ei rhannu â rhieni yn eich ysgol chi?' O'r 168 a atebodd y cwestiwn hwn, adroddodd bron pob ymarferydd eu bod yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau i gefnogi'r Siarter Iaith gyda rhieni (93 y cant o ymatebwyr). Nododd dros dri chwarter o ymatebwyr

hefyd (78 y cant) bod 'rhieni wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau i gefnogi'r Siarter Iaith' yn eu hysgol hwy.

- 4.33 Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth gref – yn seiliedig ar y sampl o grwpiau trafod a chyfweliadau un wrth un a gwblhawyd – bod rhieni yn ymwybodol o'r rhaglen nac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau neu ddigwyddiadau Siarter Iaith. Awgryma hyn nad yw rhieni o anghenraid yn gwneud y cyswllt rhwng y gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol a'r rhaglen. Roedd rhai o'r rhieni a gyfrannodd at drafodaethau grŵp yn cofio ambell weithgaredd neu dasg ond heb sylweddoli eu bod yn rhan o ymgyrch ysgol gyfan – er i dystiolaeth o'r ysgolion hynny ddangos bod cyfeiriadau aml at y Siarter mewn cylch-lythyron, y cyfryngau cymdeithasol ac ati. Roedd y rhieni hynny a gymerodd ran mewn trafodaethau grŵp yn cefnogi'r nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac yn cydnabod eu dylanwad nhw ar arferion iaith eu plant:

'It is both the school and the parents' responsibility to promote Welsh speaking'. (Rhiant plentyn ysgol gynradd)

- 4.34 Adroddodd mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy bod annog cyfranogiad gan rieni yn medru bod yn heriol; nododd sawl cydlynnydd Siarter Iaith bod ymgysylltu â rhieni fel rhan o weithrediad y Siarter Iaith yn 'dalcen caled'. Nododd ysgolion bod cael mewnbwn gan rieni yn anodd yn gyffredinol, a bod y Siarter yn cystadlu am sylw gyda llawer o eitemau newyddion a gwybodaeth eraill. Adroddodd rhai ysgolion bod agweddau rhieni (gan gynnwys rhieni sy'n medru ond ddim yn defnyddio'r Gymraeg) yn rhwystr wrth i ysgolion geisio annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg:

'Anodd yw cael brwdfrydedd y plant i ddefnyddio'r Gymraeg os nad oes cefnogaeth gan y rhieni.' (Cydlynnydd Siarter Iaith, ysgol gynradd)

- 4.35 Cafwyd tystiolaeth gan sawl ffynhonnell (cyfweliadau gyda phenaethiaid a chydlynwyr, ac mewn atebion i'r arolwg) bod ysgolion yn cydnabod dylanwad agweddau ac arferion iaith rhieni ar ddefnydd disgyblion o'r Gymraeg. Nodwyd bod cyfyngiadau i'r hyn y mae modd i'r Siarter Iaith ei newid, heb gefnogaeth gan rieni i atgyfnerthu'r negeseuon y mae'r rhaglen yn eu hyrwyddo.

Cyfranogiad partneriaid eraill wrth gefnogi'r Siarter Iaith

- 4.36 Adroddodd yr holl ysgolion yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad bod cyrff llywodraethu yn derbyn adroddiadau ar waith y Siarter Iaith fel rhan o'u

dyletswyddau craffu. Cafwyd tystiolaeth bod gwybodaeth am y rhaglen yn cael ei rhannu gyda chyrff llywodraethu. Fodd bynnag, sampl fechan o lywodraethwyr a gyfrannodd at y gwerthusiad ac ni lwyddwyd i archwilio i ba raddau y mae llywodraethwyr yn 'gyrru' neu'n 'arwain' ar agweddau ar y rhaglen.

- 4.37 Adroddodd rhai ysgolion a swyddogion consortia bod rhanddeiliaid eraill (Mentrau Iaith, yr Urdd, mudiadau cymunedol a gwirfoddol) yn cefnogi gweithrediad y Siarter Iaith drwy fod yn ddolen gyswllt i'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, mae'r cysylltiadau hyn yn cael eu pennu gan gynlluniau lefel ysgol ac felly rôl gefnogol ac atodol sydd gan y mudiadau hyn (gweler is-adran *Gweithio mewn partneriaeth* am sylwadau pellach).

Casgliadau mewn perthynas â chynllunio strategol

- Ceir ymrwymiad cryf i'r rhaglen ymysg swyddogion rhanbarthol, awdurdodau lleol, ac ysgolion. Adroddodd yr ymarferwyr a rhanddeiliaid a gyfrannodd i'r gwerthusiad eu bod o'r farn bod y Siarter Iaith yn cefnogi amcanion *Cymraeg 2050*.
- Codwyd cwestiynau gan swyddogion consortia am eglurder yr arweiniad a geir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sut mae disgwyl i ysgolion weithredu'r rhaglen yn yr hirdymor, yn cynnwys yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd.
- Casglwyd tystiolaeth bod ysgolion yn cael eu hannog i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer y Siarter Iaith sy'n adlewyrchu eu cyd-destun a'u blaenoriaethau unigol. Canfu'r gwerthusiad bod ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithredu rhaglen mewn ffordd hyblyg a phwrpasol.
- Mae arweiniad, cefnogaeth a pherchnogaeth ar lefel ysgol yn hollbwysig i weithrediad y Siarter Iaith.
- Adroddodd ysgolion bod y rhaglen yn gofyn am fuddsoddiad amser ychwanegol sylweddol ar gyfer cynllunio a gweithredu. Nododd mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad nad ydynt yn derbyn unrhyw gefnogaeth ariannol ychwanegol i weithredu'r Siarter Iaith.

- Mae disgyblion yn rhan ganolog o'r broses o bennu blaenoriaethau a gweithgareddau'r Siarter Iaith. Mae aelodau Criwiau Cymraeg yn mwynhau ac yn elwa o'r cyfrifoldebau sy'n cyd-fynd â hynny.
- Mae ysgolion yn rhannu gwybodaeth am y Siarter Iaith gyda rhieni. Serch hynny, nid yw'n amlwg bod gan rieni ddealltwriaeth gref o'r rhaglen. Nododd ymarferwyr eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd dylanwad rhieni ar arferion iaith disgyblion a'r angen i rieni atgyfnerthu'r negeseuon y mae'r Siarter Iaith yn eu hyrwyddo.

Gweithio mewn partneriaeth

- 4.38 Mae'r is-adran hon yn ystyried y partneriaethau a'r cydweithio a welir wrth weithredu'r Siarter Iaith. Mae hyn yn cwmpasu'r cydweithio o fewn ysgolion, rhwng ysgolion (boed drwy glystyrau neu rhwng ysgolion unigol), rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn olaf, y cydweithio rhwng ysgolion a mudiadau allanol.

Cydweithio o fewn ysgolion

- 4.39 Mae'r canllaw *Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd* (Llywodraeth Cymru 2016a) yn gofyn am gyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae'r fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol yn parhau â'r thema hon gyda'r disgwyliad bod 'arweinyddiaeth [...] ar lefel ysgol gyfan', a'r amcan bod 'holl weithlu'r ysgol yn deall nod ac amcanion y Siarter Iaith a'u rôl i gefnogi'r gweithredu' (Llywodraeth Cymru 2019:8). Mae'r ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn wedi dangos bod cydweithio o fewn ysgolion i'w weld.
- 4.40 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy roedd cydlynwyr Siarter Iaith yn sicrhau mewnbwn gan gydweithwyr drwy amrywiaeth o ddulliau. Mewn rhai ysgolion roedd penaethiaid a chydlynwyr Siarter Iaith yn ceisio sicrhau bod cyfrifoldeb am weithredu neu gefnogi'r Siarter Iaith wedi'i rannu ar draws yr ysgol. Nid oedd hyn i'w weld ymhob ysgol, fodd bynnag. Mewn rhai ysgolion adroddwyd bod y cyfrifoldeb yn gorwedd yn bennaf, neu'n gyfan gwbl, ar ysgwyddau un neu ddau o unigolion. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy ni ymddengys fod cydberthynas rhwng y ffordd yr oedd cyfrifoldeb am weithredu'r rhaglen wedi'i

bennu a maint yr ysgol na lefel y wobr roedd yr ysgol wedi ei chyrraedd. Yn yr ysgolion hynny lle'r adroddwyd bod cydweithio yn digwydd o fewn ysgolion, cafwyd tystiolaeth bod un neu fwy o'r nodweddion canlynol:

- Cynlluniau gweithredu lle mae cyfrifoldeb am arwain ar wahanol weithgareddau i gefnogi'r Siarter laith wedi'u clustnodi i wahanol aelodau staff ar draws yr ysgol;
- Penaethiaid a Chydlynwyr Siarter laith yn adrodd eu bod wedi gweithio gydag athrawon i wau gweithgareddau Siarter laith (neu weithgareddau sy'n cefnogi nodau'r Siarter) i mewn i'r cwricwlwm ar draws y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Drwy hynny, nid oedd athrawon eraill yn ystyried y gweithgareddau fel baich ychwanegol ond yn hytrach yn ffordd o gyfoethogi'r cwricwlwm tra'n cefnogi blaenoriaethau'r Siarter laith. Mewn rhai enghreifftiau, roedd canllaw a chynghor wedi ei ddarparu gan swyddogion consortia ar gyfer gwneud hynny.
- Amser yn cael ei neilltuo i drafod y Siarter laith o fewn cyfarfodydd staff, er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o nod a thargedau'r Siarter ymysg holl aelodau staff;
- Ymdrechion i sicrhau bod staff ategol (e.e. staff y gegin, gofalmwyr) hefyd yn ymwybodol o, ac yn cyfrannu tuag at, dargedau'r Siarter;
- Aelodau Criw Cymraeg a'r Cydlynnydd Siarter laith yn gwneud cyflwyniadau i'r corff llywodraethu ar weithgareddau Siarter laith.

Cydweithio rhwng ysgolion

- 4.41 Gofynnodd yr arolwg Siarter laith i ymarferwyr ateb cwestiwn ar y cydweithio rhwng ysgolion wrth weithredu'r Siarter laith. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oedd y rhaglen 'wedi arwain at gysylltiadau rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill – cynradd neu uwchradd – wrth weithredu'r rhaglen', gyda'r opsiynau canlynol: 'ydy, cysylltiadau newydd'; 'ydy, wedi cryfhau cysylltiadau'; a 'nac ydyn, dim newid'. O'r 163 a atebodd y cwestiwn hwn, adroddodd tua thraean o'r ysgolion (32 y cant) bod y Siarter laith wedi arwain at gysylltiadau newydd gydag ysgolion eraill. Nododd ychydig yn llai na hanner yr ysgolion (48 y cant) bod y Siarter laith wedi cryfhau cysylltiadau oedd eisoes mewn lle. Nododd dros 20 y

cant o ysgolion nad oedd gweithredu'r Siarter wedi arwain at gysylltiadau gydag ysgolion eraill.

- 4.42 Yn ystod cyfweiliadau rhoddodd athrawon enghreifftiau o gydweithio rhwng ysgolion. Yn aml roedd y cydweithio rhwng ysgolion o fewn yr un clwstwr lle roedd cysylltiadau a phartneriaethau eisoes yn bodoli. Rhannodd ymarferwyr hefyd enghreifftiau o gydweithio a oedd wedi deillio o gysylltiadau gyda chyn-gydweithwyr ar draws gwahanol ysgolion.
- 4.43 Cafwyd tystiolaeth bod cydweithio yn digwydd mewn sawl ffordd, a bod cydweithio rhwng ysgolion ar draws gwahanol ranbarthau ac o fewn clystyrau o ysgolion ar lefel leol. Clywyd am ymweliadau a oedd wedi'u trefnu gan ysgolion i ysgolion mewn rhanbarthau eraill o Gymru a oedd wedi bod 'ar eu siwrne' Siarter Iaith am sawl blwyddyn. Nod yr ymweliadau oedd clywed am y mathau o weithgareddau a gynhaliwyd ac argraffiadau athrawon o'r hyn a oedd wedi gweithio'n effeithiol gyda gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Esboniodd un swyddog o gonsortium eu bod yn defnyddio Cymunedau Dysgu Proffesiynol i rannu arferion da wrth ehangu a datblygu gwaith y Siarter Iaith.
- 4.44 Roedd sawl enghraifft o gydlynwyr Siarter Iaith yn cwrdd fel clwstwr o ysgolion i drafod gweithgarwch a chynllunio digwyddiadau ar y cyd. Roedd cysylltiadau eisoes yn bodoli ond nododd ysgolion bod dimensiwn newydd i'r cydweithio ar draws y clwstwr ers i'r Siarter Iaith gael ei rhoi ar waith. Nododd ysgolion eu bod wedi cydweithio gydag ysgolion eraill ar amrywiaeth o weithgareddau neu ddathliadau yn cwmpasu chwaraeon, drama, sgiliau llafaredd, gwyddoniaeth. Roedd y gweithgareddau hyn yn aml yn cefnogi blaenoriaethau pontio, iechyd a lles, a themâu'r cwricwlwm. Esboniodd ysgolion eu bod wedi rhannu adnoddau drwy Hwb i gefnogi'r Siarter iaith.
- 4.45 Er i'r gwerthusiad ganfod nifer o enghreifftiau o gydweithio rhwng ysgolion, clywyd hefyd fod dyblygu yn digwydd o ran creu adnoddau, trefnu gweithgareddau, a chysylltu â phartneriaid. Lleisiwyd barn gan ymarferwyr bod sgôp i ffurfioli'r cydweithio a sicrhau bod mwy o ysgolion yn cael mynediad at adnoddau neu syniadau am weithgareddau sy'n addas ar gyfer gwahanol grwpiau oedran, sy'n awgrymu nad yw'r mecanweithiau presennol (e.e. Hwb) yn cael eu defnyddio i'w llawn potensial.

Cydweithio rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd

- 4.46 Pwysleisiodd nifer o swyddogion consortia ac athrawon bod angen sicrhau bod cynlluniau i hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn parhau o'r sector cynradd i ysgolion uwchradd. Nododd un swyddog rhanbarthol ei bod yn bwysig 'cynnal y bwrlwm' wrth i ddisgyblion drosglwyddo i addysg uwchradd. Gwelwyd rhai enghreifftiau o gydweithio rhwng y sectorau, ond roedd y rhain ar y cyfan yn rhan o weithgareddau pontio a oedd yn rhagddyddio'r Siarter Iaith. Unwaith eto, mae hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch beth yw 'gweithgaredd Siarter' a'r her o adnabod y ffin weithiau rhwng gweithgareddau'r rhaglen a gweithgareddau craidd ysgolion. Mae'r fframwaith newydd yn cyfeirio at y dyhead o 'ddilyniant a llwybr di-dor o gefnogaeth i ddysgwyr', cysyniad a groesawyd gan swyddogion ac ymarferwyr, a oedd yn gweld yr angen i gynnal y gwaith a wneir yn yr ysgolion cynradd. Awgrymodd rhai ymarferwyr y gallent fod yn gwneud mwy o'r cyfleoedd sy'n bodoli i rannu arferion da rhwng y sectorau ac adnabod nodweddion llwyddiannus y Siarter cynradd a'u trosglwyddo i'r uwchradd, lle'n berthnasol. Awgrymwyd ganddynt y gallai hyn fod ar ffurf cydlynwyr Siarter cynradd yn mentora neu'n rhannu profiadau gydag arweinwyr yn y sector uwchradd, neu gynnal rôl Criwiau Cymraeg wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

- 4.47 Mae cefnogaeth ar gael i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddatblygu gweithgareddau i annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, ac mae hynny wedi derbyn mwy o sylw yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf (gweler Pennod 9). Gyda'r bwriad o newid i weithredu o dan un fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol, nododd athrawon y posibilrwydd y byddai mwy o alw a chyfle i rannu syniadau rhwng y sectorau.

Cydweithio rhwng ysgolion a rhanddeiliaid allanol

- 4.48 Wrth weithredu'r rhaglen disgwylir i ysgolion weithio mewn partneriaeth â chymuned ehangach yr ysgol i gefnogi defnydd disgyblion o'r Gymraeg. Dengys y dystiolaeth a gasglwyd drwy ymweliadau a thrwy'r arolwg bod gweithgareddau o'r fath yn dameidiog, yn rhannol yn sgil yr amrywiaethau yn nifer y partneriaid a mudiadau Cymraeg sydd yn weithredol mewn gwahanol ardaloedd. Adroddodd rhai ysgolion mewn ardaloedd lle mae nifer uwch o'r boblogaeth yn siarad

Cymraeg eu bod yn cydweithio gyda mudiadau lleol lle roedd cysylltiadau hir sefydlog yn bodoli:

‘Mae’r ysgol yn rhan ganolog o holl weithgareddau’r ardal bach wledig hon [...]. Rydym yn derbyn gwahoddiadau i fod yn rhan o Merched y Wawr, y WI, eglwys, capel, clwb blodau, clwb 60+, Cyngor Cymuned, pwyllgor gŵyl [...] ac ati. Ry’n ni mewn sefyllfa gref i fwrw ymlaen am y [wobr] aur gan gryfhau’r Gymraeg o fewn y cymdeithasau hyn.’ (Pennaeth, ysgol gynradd)

- 4.49 Ar y llaw arall roedd nifer o’r ysgolion yr ymwelwyd â hwy mewn ardaloedd mwy trefol, a/neu mewn ardaloedd lle roedd llai o Gymraeg yn y cymunedau lleol. Yn yr ysgolion hyn cyfeiriodd ymarferwyr at anawsterau wrth ddod o hyd i syniadau ar gyfer creu cysylltiadau gyda phartneriaid cymunedol: clywyd enghreifftiau o gydlynwyr Siarter yn pori cyfryngau cymdeithasol ysgolion eraill i gasglu syniadau am unigolion neu fudiadau y gallent gydweithio â hwy. Roedd rhai yn adrodd bod heriau ymarferol wrth sefydlu a chynnal y cydweithio gyda mudiadau allanol, gan gynnwys amser trefnu, anallu rhieni i deithio a thalu, a’r canfyddiad bod rhai o’r mudiadau eu hunain wedi’u hymestyn tu hwnt i’w capasiti i allu gweithio gydag ysgolion.
- 4.50 Ymddengys o’r cyfweiliadau a gynhaliwyd yn ystod ymweliadau mai’r ysgolion sy’n cychwyn ac yn arwain y cydweithio bron bob tro, gydag athrawon unigol yn llunio rhestrau o unigolion a mudiadau er mwyn trefnu arlwy o ddigwyddiadau o dan faner y Siarter laith. Nododd ysgolion a phartneriaid allanol bod potensial i gydweithio’n agosach wrth gynllunio a gweithredu’r rhaglen. Mynegodd cynrychiolydd un fenter gymunedol farn bod ysgolion weithiau yn llunio cynlluniau gweithredu ar gyfer y Siarter laith mewn ‘ffordd ynysig’ heb fod digon o gysylltiad gyda chynlluniau strategol mudiadau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Cynigiodd y cynrychiolydd hwn bod sgôp i sicrhau gwell aliniad a chysylltiadau rhwng, er enghraifft, cynlluniau strategol Mentrau laith a chynlluniau gweithredu Siarter laith. Gallai hyn gynnwys ysgolion yn gwahodd partneriaid lleol i gyfrannu at ddatblygiad eu cynlluniau gweithredu gan adnabod gweithgareddau y gellid eu cynnal ar y cyd.
- 4.51 Nododd y disgyblion a gymerodd ran mewn grwpiau trafod eu bod yn awyddus i gydweithio gydag ysgolion eraill neu gyda mudiadau allanol. Pan ofynnwyd i’r disgyblion am uchafbwyntiau wrth weithredu’r Siarter laith, yr oedd y rhan fwyaf o’r grwpiau yn enwi gweithgareddau lle’r oedd elfen o fewnbwn mudiad allanol,

boed yn ymwelydd i'r ysgol neu'n weithgaredd y tu allan i'r ysgol. Yn yr un modd, roedd eu rhestr o ddymuniadau am y pethau yr oeddent am eu gwneud yn cynnwys 'mwy o bobl i ddod mewn i'r ysgol' a 'gwneud mwy gydag ysgolion eraill'.

Casgliadau mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth

- *Cydweithio o fewn ysgolion:* Un athro neu athrawes sydd fel arfer yn cydlynu'r Siarter Iaith ac mae'r lefel o fewnbwn gan athrawon eraill yn amrywio, er ar y cyfan gwelwyd bod nifer o staff yr ysgol yn cyfrannu at drefnu a chynnal gweithgareddau.
- *Cydweithio rhwng ysgolion:* Gwelwyd enghreifftiau o gydweithio rhwng ysgolion ond nid oedd tystiolaeth bod hon yn agwedd greiddiol ar ddylunio na gweithredu'r rhaglen.
- *Cydweithio rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd:* ychydig o gydweithio a welwyd y tu hwnt i weithgareddau pontio, ond yng nghyd-destun gweithredu'r fframwaith newydd mae cyfleoedd ac awydd i gydweithio ymhellach ym marn ymarferwyr a gyfrannodd i'r gwerthusiad.
- *Cydweithio rhwng ysgolion a mudiadau eraill.* Mewn rhai ardaloedd roedd ysgolion yn cydweithio gyda mudiadau allanol ac yn adeiladu ar gysylltiadau gyda mudiadau a oedd yn bodoli eisoes. Adroddodd ysgolion eraill eu bod yn gorfod treulio mwy o amser yn ymchwilio a gwneud cysylltiadau gyda phartneriaid i gefnogi gweithrediad y Siarter.
- Mae'r cydweithio rhwng ysgolion a mudiadau eraill yn dameidiog ac, er yn derbyn ymateb da gan ddisgyblion, nid yw i'w weld wedi'i gynllunio'n fwriadus. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, cesglir bod potensial am gydweithio a chyd-gynllunio mwy strwythuredig rhwng ysgolion a phartneriaid allanol.

Dulliau Casglu, Cofnodi a Dehongli Tystiolaeth

- 4.52 Mae casglu tystiolaeth am ddefnydd iaith disgyblion drwy'r Gwe Iaith yn elfen ganolog o weithrediad y rhaglen. Mae canlyniadau'r holiaduron, sy'n cael eu llenwi gan y disgyblion, yn cael eu defnyddio i osod 'gwaelodlin' defnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg tua dechrau'r flwyddyn academiaidd. Gofynnir i ddisgyblion lenwi'r holiadur eto yn nhymor yr haf (Llywodraeth Cymru 2016a:2).

Holiaduron Gwe Iaith

- 4.53 Mae defnyddio holiaduron Gwe Iaith yn rhan o weithrediad y Siarter Iaith ym mhob ysgol. Gofynnodd yr arolwg i ysgolion ateb cwestiwn ar sut y mae disgyblion yn cwblhau holiaduron Gwe Iaith, gyda'r opsiynau canlynol: 'Ar bapur'; 'Ar-lein/ar gyfrifiadur'; neu 'Mae'n amrywio: rhai dosbarthiadau ar bapur a rhai ar-lein'. O blith y 154 o ymarferwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd y mwyafrif bod y disgyblion yn cwblhau'r holiaduron ar gyfrifiadur (84 y cant); nododd 14 y cant bod y broses yn amrywio yn eu hysgol hwy, gyda rhai dosbarthiadau yn cwblhau'r holiaduron ar bapur a rhai ar-lein. Nododd 2 y cant yn unig o ymatebwyr bod disgyblion yn cwblhau'r holiadur ar bapur.
- 4.54 Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ymarferwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda chyfres o ddatganiadau mewn perthynas â'r Gwe Iaith. Ar y cyfan roedd ymatebion cadarnhaol ganddynt. Fodd bynnag, nid oedd yr ymarferwyr yn unfrydol yn eu barn. Atebodd 160 o ymarferwyr y cwestiynau hyn.
- Roedd 56 y cant o'r rhai a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod 'trefniadau casglu a mewnbynnu data Gwe Iaith yn gweithio'n effeithiol'; roedd 27 y cant ddim yn cytuno nac yn anghytuno, a 16 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.
 - Roedd 50 y cant yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod 'ieithwedd a therminoleg yr holiadur yn addas'; 20 y cant ddim yn cytuno nac yn anghytuno, a 28 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.
 - Roedd 64 y cant yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod 'canlyniadau'r Gwe Iaith yn sail gadarn ar gyfer cynllunio gweithgareddau' yn eu hysgolion; nododd 21

y cant eu bod ddim yn cytuno nac yn anghytuno, a 12 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

- 4.55 Ymddengys o ymatebion yr arolwg ac o'r ymweliadau ag ysgolion bod mwyafrif yr ymarferwyr yn defnyddio canlyniadau'r Gwe Iaith fel 'man cychwyn' ac fel erfyn i gynllunio a blaenoriaethu gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn hytrach nag fel dull i fesur effaith a newid. Nododd ymarferwyr eu bod yn defnyddio'r data 'er mwyn rhoi pwyslais ar agweddau o'r Siarter rydym angen gwella' a 'thargedu'r meysydd gwannaf':

'Criw'r Siarter wedi edrych ar y data ac wedi adnabod y gwendidau. [Maent yn] ceisio wedyn meddwl am weithgareddau a fyddai yn gymorth i ddelio â'r gwendidau hyn.' (Athro, ysgol gynradd)

- 4.56 Nododd ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn defnyddio data'r Gwe Iaith fel modd o adnabod 'gwendidau' a blaenoriaethu'r meysydd sydd angen sylw. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth bod rhai ymarferwyr yn teimlo bod cyfyngiadau i'r data fel ffynhonnell ar gyfer mesur effaith neu gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg dros amser:

'Mae'n anodd cymharu data'r Gwe Iaith o flwyddyn i flwyddyn gan fod y cohort yn wahanol, ond mae'n ddefnyddiol ar gyfer cynllunio am y flwyddyn ym mis Hydref.' (Athro, ysgol gynradd)

- 4.57 Rhannodd rhai ymarferwyr eu gofidiau am ddefnyddioldeb a chadernid data'r Gwe Iaith, gan nodi bod risg wrth i ddisgyblion hunan-lenwi'r holiadur eu bod yn cam-ddeall neu yn ateb mewn ffordd fwy cadarnhaol am eu bod eisiau plesio athrawon. Mae risg hefyd y gallai athrawon ddylanwadu ar atebion:

'Teimlaf nad yw'r disgyblion ieuengaf yn deall ystyr y cwestiynau a bod hynny yn effeithio ar y data. Ac oherwydd bod newid disgyblion o fewn blwyddyn efallai hwyrddyfodiaid, blwyddyn 6 yn gadael nid oes posibil cymharu'n gywir.' (Athro, ysgol gynradd)

- 4.58 Nododd athrawon yn ystod cyfweiliadau ac yn eu hatebion i'r arolwg nad yw'r cwestiynau yn addas ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Cyfeiriodd athrawon hefyd at broblemau gyda'r ieithwedd, a theimlad nad oedd yr holiadur yn berthnasol i'w cyd-destun neu eu cymuned ysgol.
- 4.59 Mynegodd athrawon amrywiaeth o safbwyntiau ar yr holiaduron Gwe Iaith yn ystod ymweliadau ag ysgolion. Roedd tuedd i athrawon yn yr ysgolion hynny a

oedd wedi bod yn gweithredu'r Siarter laith dros gyfnod hirach i fod ag agwedd mwy negyddol mewn perthynas â defnyddioldeb y data. Teimlent eu bod yn medru 'rhagweld y canlyniadau', gan y bydd yna sgôr gymharol isel bob mis Medi, sgôr uwch tuag at ddiwedd tymor yr haf, cyn cwmpo eto ar ôl gwyliau'r ysgol:

'Gan bod canlyniadau ein Gwe laith ni yn iach iawn nid ydyw yn addas at ein cyfer gan nad ydyw yn rhoi llawer o arweiniad o ran creu cynllun gweithredu.' (Athro, ysgol gynradd)

'Ni ellir dibynnu ar ganlyniadau'r holiadur i fesur cynnydd ac effaith y Siarter laith yn ein hysgol ni. Mae sawl rheswm am hyn – mae newid agwedd plant a'u teuluoedd a newid eu harferion yn broses sy'n cymryd blynyddoedd – nid yw'n realistig disgwyl gweld effaith gwirioneddol o un tymor i'r llall.' (Athro, ysgol gynradd)

'Nid yw plant yr oed yma yn ddigon aeddfed i fesur y gwahaniaeth rhwng 'ddim yn aml iawn', 'weithiau', 'yn aml', 'bob amser' ayyb ac felly'n dewis unrhyw beth fel ateb i ambell gwestiwn.' (Athro, ysgol gynradd)

- 4.60 Roedd rhai ysgolion lle mae cyfran uchel o'r plant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn cwestiynu defnyddioldeb cynnal yr holiaduron a'i berthnasedd iddynt, gan y byddai'r disgyblion bob amser yn ateb pob cwestiwn â sgoriau uchel.
- 4.61 Roedd ysgolion eraill yn gadarnhaol ynghylch defnyddioldeb data Gwe laith, gan gynnig enghreifftiau o'r Criw Cymraeg yn defnyddio'r canlyniadau i lunio cynllun ar gyfer y flwyddyn. Cafwyd enghreifftiau hefyd o ddisgyblion yn defnyddio'r canlyniadau o fewn gwersi mathemateg, gan greu graffiau ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol; nododd ysgolion eraill eu bod yn rhannu data Gwe laith â rhieni, llywodraethwyr ac eraill. Awgrymodd nifer fechan o'r ysgolion y byddai'n fuddiol pe bai holiadur ar gael ar gyfer rhieni er mwyn archwilio i ba raddau yr oedd rhieni yn annog neu'n cefnogi defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol. Roedd y disgyblion a gyfwelwyd yn ystod grwpiau trafod yn ymddiddori yn y broses o graffu a dadansoddi newid dros amser yn y data a gasglwyd drwy'r holiaduron. Cafwyd enghreifftiau gan athrawon eraill o ddisgyblion hyn yn helpu'r disgyblion iau i lenwi'r holiadur.

Defnyddio a dehongli'r data

- 4.62 Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd ymddengys bod gan athrawon fwy nag un dehongliad o ddiben y Gwe laith. Mewn rhai achosion, roedd ysgolion yn glir bod y Gwe laith yn erfyn i ddeall arferion defnydd iaith un garfan neu flwyddyn

ysgol ar un pwynt mewn amser. Defnyddir y data fel ffordd o benderfynu ar flaenoriaethau cynlluniau gweithredu Siarter Iaith. Yn yr achosion hynny, defnydd eithaf cyfyng sydd i'r data, ac nid yw'r ysgolion hyn yn ei ystyried fel modd o ddadansoddi neu fesur newid yn y defnydd o'r iaith dros y flwyddyn.

- 4.63 Amlyga'r dystiolaeth bod rhai ysgolion yn gweld diben y Gwe Iaith fel ffordd o fesur 'cynnydd ac effaith' y Siarter. Mae hyn, o bosibl, yn deillio o'r ieithwedd a therminoleg a ddefnyddir o fewn dogfennau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn y ffordd y mae consortia yn trafod cysyniadau (e.e. y defnydd o dermau megis 'gwaelodlin', 'mesur cynnydd' a 'deall effaith'). Ceir ysgolion sydd hefyd yn dehongli diben y Gwe Iaith yn y modd hwn, ond sydd yn cwestiynu dibynadwyedd ac ansawdd y data a gesglir fel sail ar gyfer mesur cynnydd ac effaith, gan gyfeirio at gyfyngiadau'r data. Dengys hyn bod anghysondeb a dryswch mewn perthynas â diben a defnyddioldeb y data sy'n cael ei gasglu drwy holiaduron y Gwe Iaith.

Casgliadau mewn perthynas â dulliau casglu, cofnodi a dehongli dystiolaeth

- Roedd mwyafrif yr ymarferwyr o'r farn bod y data a gesglir drwy'r holiaduron Gwe Iaith yn rhoi darlun defnyddiol o ddefnydd cymdeithasol o'r iaith. Roedd croeso i'r holiaduron Gwe Iaith ymysg nifer o ymarferwyr a disgyblion fel erfyn i gefnogi cynllunio.
- Nododd rhai bod cwblhau'r holiaduron Gwe Iaith yn medru bod yn ailadroddus i ddisgyblion mewn ysgolion sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen ers rhai blynyddoedd.
- Mae amrywiaethau yn y dehongliad o ddiben y data a gesglir drwy'r Gwe Iaith. Mae rhai ysgolion yn defnyddio data'r Gwe Iaith fel erfyn cynllunio, i ddeall arferion defnydd iaith mewn carfan neu flwyddyn ysgol ar ddechrau blwyddyn academiaidd ac i bennu blaenoriaethau ac adnabod ymyraethau pwrpasol. Mae ysgolion eraill yn ystyried mai diben y Gwe Iaith yw mesur cynnydd neu draweffaith y Siarter Iaith fel rhaglen. Mae'n bosibl bod yr ieithwedd a ddefnyddir wedi cyfrannu at hyn ac wedi llywio athrawon i ddehongli'r Gwe Iaith yn y ffordd hon. Mae'r Gwe Iaith yn gallu cyfrannu at ddeall sut mae arferion defnydd iaith yn newid (neu beidio) o fewn un garfan

o ddisgyblion yn ystod blwyddyn academiaidd. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i'r Gwe Iaith fel dull o fesur effaith, yn cynnwys y ffaith fod y data a gesglir yn seiliedig ar hunan-adrodd. Cesglir nad yw'n ffynhonnell gadarn ar gyfer mesur cynnydd a dangos traweffeithiau'r rhaglen ar ddefnydd iaith dros amser.

- Wrth feddwl am ddatblygiad fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol, mae angen cyrraedd dealltwriaeth gyffredin o ddiben(ion) y Gwe Iaith a sut y disgwylir i ysgolion a chonsortia ddefnyddio'r data. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o'r data i gefnogi cynllunio; defnydd o'r data i ddeall newid i arferion iaith o fewn grwpiau dosbarth neu flwyddyn; a'r cyfyngiadau ar y data.

Monitro cynnydd a sicrhau ansawdd

- 4.64 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ar ddulliau asesu cynnydd a sicrhau ansawdd sy'n rhan o'r Siarter Iaith. Mae defnydd y term 'monitro cynnydd' yn y pennawd ac mewn adrannau cyfatebol ar gyfer y rhaglenni eraill yn deillio o'r fanyleb ar gyfer y gwerthusiad. Mae'r cysyniad o fonitro yng nghyd-destun y rhaglen Siarter Iaith yn broblematig gan na fu cyfeiriad at brosesau dilysu a dyfarnu gwobrau fel swyddogaethau 'monitro' yn ystod trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru na swyddogion consortia. Fodd bynnag, mae'r ymweliadau dilysu yn cynnwys elfen o fonitro wrth i gonsortia wirio bod ysgolion yn gweithredu'u cynlluniau. Mae'r adran hon yn cwmpasu tystiolaeth mewn perthynas â'r gwobrau efydd, arian ac aur sy'n cael eu dyfarnu i ysgolion wrth iddynt weithredu'r rhaglen, a'r prosesau dilysu cysylltiedig y mae consortia rhanbarthol yn eu gweithredu. Mae'n ystyried rolau cydlynwyr a swyddogion consortia wrth gefnogi dulliau asesu cynnydd, yn ogystal â chryfderau a gwendidau'r prosesau a weithredir.

Gwobrau'r Siarter Iaith

- 4.65 Yn ystod cyfweiliadau, gofynnwyd i swyddogion Llywodraeth Cymru a chonsortia am eu barn ar y model gwobrwyo, yn seiliedig ar eu hymgysylltiad ag ysgolion a'r adborth a gawsant mewn perthynas â'r gwobrau. Adroddodd swyddogion

Llywodraeth Cymru a swyddogion consortia bod y gwobrau yn darparu strwythur a chymau cynnydd clir i ysgolion. Nododd swyddogion hefyd bod y gwobrau yn cynnig model sy'n cydnabod ymdrechion ysgolion wrth weithredu'r rhaglen, yn ennyn diddordeb athrawon a disgyblion, ac yn sbardun i ysgolion i weithio tuag at ddeilliannau fwyfwy heriol mewn perthynas â defnydd o'r Gymraeg dros amser. Gan gydnabod eu bod yn cyffredinol, nododd rhai swyddogion consortia bod y system wobrwyo wedi derbyn ymateb cadarnhaol iawn gan ysgolion yn ystod blynyddoedd cyntaf gweithredu'r Siarter. Esboniodd swyddogion consortia bod ysgolion yn hoffi'r cysyniad o daith tuag at y wobr aur wrth i'w cynlluniau ddatblygu a chael eu gweithredu dros amser.

- 4.66 Fodd bynnag, tanlinellodd swyddogion Llywodraeth Cymru a chonsortia na ddylai ysgolion ystyried y Siarter iaith fel rhaglen ag iddi bwynt terfyn: mae consortia yn awyddus bod ysgolion sydd wedi cyrraedd y wobr aur yn parhau i weithredu gweithgareddau i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Ar yr un pryd, cafwyd tystiolaeth bod ysgolion yn teimlo'n ansicr ynghylch y disgwyliadau sydd arnynt wedi iddynt gyflawni'r wobr aur. Ar hyn o bryd, nid oes canllaw na system i fonitro cynnydd mewn lle ar gyfer ysgolion yn y cyfnod 'ôl-aur' sy'n sicrhau bod gweithgareddau i hybu defnydd o'r iaith yn cael eu cynnal a'u bod wedi'u gwreiddio o fewn gweithdrefnau'r ysgol yn barhaus.
- 4.67 Cafwyd tystiolaeth yn ystod ymweliadau ag ysgolion bod y mwyafrif o benaethiaid a chydlynwyr yn gefnogol iawn i'r cysyniad o ddarparu gwobrau i gydnabod cynnydd ysgolion wrth weithredu'r Siarter. Nododd penaeithiaid bod y gwobrau yn gydnabyddiaeth o waith cydlynwyr Siarter – sy'n buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol i'r rhaglen – ac aelodau Criwiau Cymraeg, sy'n chwarae rôl allweddol wrth gefnogi gweithrediad y rhaglen. Esboniodd staff ysgolion bod y gwobrau yn gweithio fel cymhelliant a'u bod yn pwysleisio'r angen am ymdrech ysgol-gyfan er mwyn cyrraedd y wobr nesaf. Drwy esbonio bod gan bawb ran i chwarae wrth weithio tuag at wobrau, mae ysgolion yn annog y cysyniad o gyfranogiad gan bawb a pherchnogaeth o'r rhaglen. Adroddodd ysgolion hefyd fod y gwobrau yn meithrin balchder a brwdfrydedd mewn perthynas â defnydd o'r Gymraeg:

'Mae gweithio tuag at wobr fel ysgol gyfan yn ein profiad ni yn medru newid agweddau disgyblion – mae'n golygu bod plant yn cysylltu defnyddio'r iaith

gyda theimlad o falchder o fod wedi cyflawni rhywbeth.' (Pennaeth ysgol gynradd)

- 4.68 Cyfeiriodd penaethiaid eraill at y ffaith fod y Siarter yn cefnogi amcanion a gweledigaeth ysgol-gyfan, a bod gweithio tuag at wobrau yn ffordd o ategu hyn. Yn benodol, cyfeiriwyd at 'werth' gwobrau fel elfen o'r rhaglen sy'n cydnabod cyfraniad disgyblion. Pwysleisiodd penaethiaid bod llais y disgybl yn rhan gref o'r rhaglen, a nodwyd bod cysylltu gwobr â rhaglen sy'n cael ei gyrru a'i harwain i raddau gan y plant eu hunain yn bwysig:

'Ry'n ni'n pwysleisio mai y plant sydd wedi ennill y wobr. Mae hyn yn atgyfnerthu'r hyn rydym yn ceisio'i wreiddio fel ysgol ym mhob agwedd o'r cwricwlwm y syniad o gymryd cyfrifoldeb.' (Pennaeth ysgol gynradd)

- 4.69 Nid oedd pob ysgol a gyfrannodd i'r gwerthusiad yn rhannu barn gadarnhaol mewn perthynas â'r gwobrau. Mynegodd rhai penaethiaid a chydlynwyr feirniadaeth o'r system wobrwyo. Roedd y pwyntiau a godwyd fwyaf aml gan gyfweleion a chan unigolion yn gyfuniad o wrthwynebiad i system wobrwyo fel egwyddor, ac anfodlonrwydd gyda rhai agweddau ar y broses. Mynegodd rhai amheuaeth ynghylch a yw gwobrau yn ffordd effeithiol o gefnogi nod sylfaenol y rhaglen: roedd rhai ymarferwyr yn cwestiynu gwerth y cysyniad o wobrwyo, gan awgrymu nad yw gwobrwyo ysgolion yn sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r iaith y tu allan i'r ysgol yn yr hirdymor.
- 4.70 Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, nododd eraill nad yw gwobrau aur, arian ac efydd yn arwydd o ansawdd na thraweffaith y cynlluniau a weithredir o fewn ysgolion, nac yn adlewyrchu ethos a naws ysgolion. Nododd eraill eu barn bod gwobrwyo yn ddiangen: mynegodd lleiafrif o ysgolion y farn na ddylid bod yn gwobrwyo ysgolion cyfrwng Cymraeg am gynnal gweithgareddau y dylai ysgolion fod yn eu cynnal beth bynnag. Yn olaf, cyflwynodd rhai athrawon farn nad oedd dyfarnu gwobrau o anghenraid yn adlewyrchu ymdrechion a chynnydd ysgol, nac yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau mewn defnydd iaith wrth i blant gyrraedd ac ymadael ag ysgol:

'Er ein bod yn ymdrechu 100% bob blwyddyn mae'n gallu bod yn anodd iawn gan fod plant a'u cefndiroedd yn newid bob blwyddyn.' (Cydlunydd Siarter Iaith, ysgol gynradd)

- 4.71 Cafwyd tystiolaeth hefyd gan rai ymarferwyr yn nodi anfodlonrwydd gyda rhai agweddau ar y trefniadau gwobrwyo presennol. Nododd athrawon bod yr ieithwedd sy'n gysylltiedig â'r gwobrau yn anodd i'w ddeall neu yn amherthnasol i blant oed cynradd. Dywedodd ysgolion eraill eu bod yn teimlo bod y deilliannau a'r disgwyliadau yn rhy debyg ar draws y gwahanol wobrau, sy'n ei gwneud yn anodd i gynllunio gweithgareddau newydd.
- 4.72 Fel rhan o'r arolwg i ysgolion Siarter Iaith gofynnwyd i gynrychiolwyr ysgolion nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r gosodiad canlynol: 'Mae'r system wobrwyo yn ychwanegu gwerth at y Siarter yn ein hysgol ni'. Amlygodd yr atebion i'r cwestiwn hwn wahaniaeth barn ar y mater. O'r 160 o ymarferwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd ychydig dros hanner (51 y cant) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod gwobrau yn ychwanegu gwerth at weithrediad y rhaglen. Roedd mwy nag un allan o bump o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Mae'r data hwn yn gyson gyda'r amrywiaeth barn a leisiwyd yn ystod cyfweiliadau gyda staff ysgolion.

Proses ddilysu'r Siarter Iaith

- 4.73 Adroddodd swyddogion consortia rhanbarthol bod y broses ddilysu yn gofyn am ymrwymiad amser sylweddol, yn enwedig wrth i nifer yr ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen gynyddu. Mewn ymateb i hyn mae consortia wedi cyflwyno gwahanol fodelau dilysu, e.e. yn hytrach na defnyddio staff y consortiwm i gwblhau'r dilysu, mae un consortiwm wedi hyfforddi tîm o athrawon (cydlynwyr Siarter Iaith yn bennaf) i fod yn ddilyswyr.
- 4.74 Cyfeiriodd lleiafrif o ysgolion at y ffaith bod y broses ddilysu yn feichus – yn enwedig yn sgil y gofyniad i gasglu a chyflwyno 'tystiolaeth o gynnydd' (Llywodraeth Cymru 2016a:5) wrth weithredu'r Siarter. Mae consortia wedi tueddu i gynnal prosesau dilysu yn ystod tymor yr haf. Adroddodd ysgolion bod hyn yn creu anawsterau yn ystod cyfnod sydd eisoes yn brysur gyda digwyddiadau allgyrsiol eraill yn 'brwydro am sylw ac amser':

'Mae ymweliad dilysu yn nhymor yr haf yn digwydd yn ystod amser prysur iawn (ysgrifennu adroddiadau/mabolgampau/cyngerdd yr haf). Byddai'n well i'r ysgol gael dewis pan mae'n nhw'n barod i fynd am wobrau yn lle consortiwm yn disgwyl hyn.' (Dirprwy bennaeth, ysgol gynradd)

- 4.75 Ymysg yr ysgolion hynny a adroddodd eu bod yn fodlon gyda threfniadau dilysu, esboniodd sawl un eu bod yn cynllunio i gasglu a chofnodi tystiolaeth o weithrediad y Siarter yn gyson drwy gydol y flwyddyn, sy'n ysgafnhau'r baich erbyn i'r cyfnod dilysu gyrraedd. Pwysleisiodd yr ysgolion hyn hefyd bod cyfrifoldeb am arwain ar gamau gweithredu ac am gasglu tystiolaeth i fwydo i'r broses ddilysu hefyd wedi'i rannu ar draws staff yr ysgol, er mwyn osgoi sefyllfa lle mae'r baich ar ysgwyddau un person yn unig.
- 4.76 Yn ystod un ymweliad ag ysgol a oedd wedi cyrraedd y wobr aur esboniodd y pennaeth fod yr ysgol 'mewn sefyllfa aeddfed o ran gweithredu'r Siarter laith'. Nododd y pennaeth fod yr ysgol wedi derbyn un ymweliad dilysu yn ddiweddar, flwyddyn ar ôl cael y wobr aur, er mwyn i'r ysgol allu dangos ei bod yn 'cynnal y safon'. Teimlai'r pennaeth bod yr un ymweliad i fonitro cynnal y safon yn ddigonol. Serch hynny, nid oes trefniadau ffurfiol wedi'u cytuno ar draws yr holl ranbarthau ar gyfer y cyfnod 'ôl-aur'.
- 4.77 Esboniodd rhai ysgolion bod cyswllt parhaus gyda swyddogion consortia sydd yn cynorthwyo gweithrediad y rhaglen, ac sy'n eu helpu i baratoi ar gyfer cyfnodau dilysu. Nododd yr ysgolion hynny eu bod yn monitro cynlluniau gweithredu yn rheolaidd:
- 'Rydym yn ailymweld â'r cynllun gweithredu yn gyson – gan uwchleuo cyflawniadau cynllun y flwyddyn gynt, ac yn adnabod y camau pellach i'w datblygu neu sydd angen sylw pellach. Mae'r cynllun (Siarter laith) yn ddogfen fyw.' (Cydlunydd Siarter laith, ysgol gynradd)
- 4.78 Adroddodd ysgolion bod prosesau dilysu yn cynnig profiadau gwerthfawr i aelodau Criwiau Cymraeg wrth iddynt ymuno â dilyswyr ar deithiau o gwmpas yr ysgol. Nododd cydlynwyr Siarter laith bod aelodau Criwiau Cymraeg yn cyflwyno enghreifftiau o weithgareddau i ddilyswyr ac yn trafod eu gwaith yn ystod y flwyddyn, sydd yn gyfle iddynt ymarfer eu sgiliau cyflwyno.
- 4.79 Fel rhan o'r broses ddilysu mae gofyn i ysgolion sicrhau bod tystiolaeth o'r gwahanol weithgareddau i hyrwyddo'r Siarter laith 'ar gof a chadw' (Llywodraeth Cymru 2016a:5). Er bod cyfeiriadau yng nghanllaw Llywodraeth Cymru at 'arfarnu cynnydd' ac 'effaith' gweithgareddau'r Siarter laith fel rhan o'r broses ddilysu (Llywodraeth Cymru 2016a:5), nid yw'r gwerthusiad wedi canfod bod y

broes yn gosod pwyslais ar ddeall traweffeithiau gweithredu'r rhaglen ar ddefnydd iaith. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, gellid dweud bod y broes ddilysu a'r gwobrau cysylltiedig yn gwobrwyo gweithgarwch yn bennaf, gyda'r rhagdybiaeth bod y gweithgarwch hwnnw yn cefnogi defnydd cymdeithasol ac yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg.

Sicrhau ansawdd a deall traweffaith

- 4.80 Un cwestiwn allweddol sy'n dilyn y sylwadau ar drefniadau gwobrwyo a dilysu yw beth yw cyfraniad gweithredu'r rhaglen tuag ag y nod o hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Beth yw ansawdd y dystiolaeth mewn perthynas â thraweffaith? Rydym eisoes wedi cyfeirio at gyfyngiadau'r Gwe iaith fel dull a ffynhonnell ar gyfer mesur effaith (gweler adran 4.54 ymlaen).
- 4.81 Adroddodd ysgolion bod gweithredu'r Siarter iaith yn gwneud gwahaniaeth gan 'greu bwrlwm', a chan ennyn balchder mewn perthynas â'r Gymraeg ymysg disgyblion. Nodwyd bod cystadlaethau, gemau buarth a systemau gwobrwyo (e.e. tocynnau iaith) wedi bod yn llwyddiannus fel dulliau o annog defnydd.⁸ Ar y llaw arall nododd sawl ysgol bod cyfyngiadau ar yr hyn y gellid disgwyl i'r Siarter ei gyflawni:
- 'Mae mwyafrif ein disgyblion yn Gymraeg iaith gyntaf felly mae'r defnydd o Gymraeg yn dod yn naturiol yn y dosbarth, ar y buarth, yn y cartrefi ac yn gymdeithasol.' (Cydlynnydd Siarter iaith, ysgol gynradd)
- 'Mae tocynnau iaith wedi helpu gyda cynnydd o'r defnydd ar y iard – eto, Saesneg yw'r iaith sydd yn cael ei siarad y tu allan i ffiniau'r ysgol.' (Pennaeth, ysgol gynradd)
- 4.82 Gofynnodd yr arolwg o ysgolion i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad: 'Mae'r Siarter iaith wedi arwain at agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion yn ein hysgol ni'. O'r 159 a atebodd y cwestiwn hwn, nododd bron i 70 y cant eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno. Mewn ymateb i ddatganiad arall, nododd canran is, 57 y cant, eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y 'Siarter iaith wedi cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg disgyblion yn ein hysgol ni'. Dengys data'r arolwg bod ychydig dros chwarter, 26 y cant, yn cytuno'n gryf neu'n cytuno

⁸ Mae rhai ysgolion yn dosbarthu tocynnau iaith fel ffordd o annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac ar iard yr ysgol. Rhoddir gwobrau i blant neu ddosbarthiadau ar ddiwedd tymor neu flwyddyn ysgol am gasglu tocynnau iaith.

gyda'r datganiad canlynol: 'Nid oes mwy o Gymraeg i'w chlywed ar y buarth ers i'r ysgol fod yn rhan o'r Siarter Iaith'.

- 4.83 Mae angen gofal wrth ymdrin â'r data uchod. Mae'n adlewyrchu canfyddiadau penaethiaid ac athrawon o'r newidiadau a brofwyd o fewn eu hysgolion. Cafwyd sylwadau gan rai cyfweleion yn awgrymu bod bylchau yn y dystiolaeth am ddefnydd iaith eu disgyblion, a'u bod yn gweld na ellir mesur traweffaith y rhaglen ar sail y data a gesglir ar hyn o bryd. Er bod y system wobrwyo yn cynnig ffordd o dracio cynnydd neu 'daith' ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen awgrymwyd bod cwestiynau ynghylch traweffaith y rhaglen nad oes modd eu hateb yn llawn:

'Mae pwyslais ar gynnal gweithgareddau. Er mwyn cyflawni gwobrau, mae'n rhaid i ni ddangos ein bod wedi cwblhau ymweliadau a gweithgareddau. Ry'n ni'n gweld y brwdfrydedd a'r defnydd yn ystod y gweithgareddau hynny. Ydy hyn yn gwneud gwahaniaeth i'r defnydd o'r iaith dros amser? Ry'n ni'n gobeithio ei fod e – ond dydyn ni ddim yn hollol sicr.' (Pennaeth ysgol gynradd)

- 4.84 Cyflwynwyd enghreifftiau o'r heriau wrth geisio asesu traweffaith y rhaglen gan staff ysgolion yn ystod cyfweiliadau ac mewn ymatebion ysgrifenedig i arolwg y gwerthusiad:

- Wrth gyflwyno tystiolaeth o effaith fel rhan o brosesau dilysu, nodwyd mai'r hyn y mae ysgolion yn tueddu i'w gasglu yw tystiolaeth o fod wedi cynnal gweithgareddau, digwyddiadau neu ymweliadau. Awgrymwyd bod trefniadau gwobrwyo a dilysu yn gosod pwyslais ar fonitro gweithrediad, ac nad oes trafodaeth ddigonol ar ansawdd y profiadau a gynigir drwy'r Siarter nac ar addasrwydd y gweithgareddau a gynhelir.
- Mae ynysu traweffaith neu werth ychwanegol y Siarter yn broblematig gan fod cydberthynas sylfaenol rhwng y rhaglen a datblygiad sgiliau Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm. Mae'r Siarter yn anelu i gyfoethogi profiadau dysgwyr o'r iaith ond mae gallu disgyblion i elwa ar gyfleoedd ehangach yn dibynnu ar y sgiliau y maent yn meddu arnynt a hefyd felly ar ansawdd y dysgu ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth wrth ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg.
- Mae cyd-destun ysgolion, cyd-destun ieithyddol teuluoedd, cyd-destun cymunedol a daearyddol i gyd yn ffactorau sy'n debygol o ddylanwadu ar

ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Gan gyfeirio at yr ffactorau allanol hyn, nododd rhai penaethiaid a chydlynwyr Siarter Iaith nad yw'n briodol cymharu traweffeithiau rhwng gwahanol ysgolion. Awgrymodd rhai ysgolion y dylid symud tuag at gytuno gwahanol nodau ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion, yn dibynnu ar eu cyd-destun.

- 4.85 Mynegodd nifer o ysgolion farn na ddylid gosod gormod o bwyslais ar geisio dangos a phrofi traweffaith y rhaglen. Roedd penaethiaid a chydlynwyr yn yr ysgolion hyn yn teimlo mai'r broses o fod yn rhan o'r rhaglen oedd yn bwysig ac y dylid derbyn bod sefydlu a gwreiddio rhaglen o weithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'r cwricwlwm newydd yn llwyddiant ynddo'i hun:

'Mae angen bod yn ofalus nad oes gormod o ffocws ar fonitro a cheisio mesur – mae gormod o fesur a chasglu tystiolaeth yn gallu gweithio yn erbyn y bwrlwm a'r hwyl sy'n greiddiol i Siarter Iaith.' (Pennaeth, ysgol gynradd)

Casgliadau mewn perthynas â monitro cynnydd a sicrhau ansawdd

- Mae'r system wobrwyo yn sbarduno ysgolion i barhau i weithio tuag at ddeilliannau fwyfwy heriol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwobrau yn meithrin balchder a brwdfrydedd ymysg nifer o ddisgyblion mewn perthynas â defnydd o'r Gymraeg.
- Mae disgyblion yn cyfrannu tuag at gyrraedd gwobrau, ac mae ysgolion a chonsortia yn ystyried bod dathlu ymdrechion yn elfen bwysig o'r Siarter Iaith.
- Mae amheuan gan rai penaethiaid ac athrawon ynghylch a yw gwobrwyo ysgolion yn cefnogi nod sylfaenol y rhaglen.
- Mae diffyg eglurder ar hyn o bryd ynghylch y disgwyliadau sydd ar ysgolion wedi iddynt gyflawni'r wobwr aur. Mae angen canllaw ar lefel genedlaethol i sicrhau bod ysgolion yn cynnal y cynnydd ar ôl i'r ysgol gyflawni'r wobwr aur.
- Mae'r wybodaeth y mae ysgolion yn ei chasglu a chyflwyno i gonsortia fel rhan o weithdrefnau monitro y Siarter Iaith yn tueddu i ganolbwyntio ar dystiolaeth o fod wedi cynnal gweithgareddau neu ddigwyddiadau. Nid oes pwyslais ar fonitro ansawdd y profiadau a gynigir, ac nid yw'r data a gesglir yn galluogi dadansoddiad o draweffaith y Siarter Iaith ar ddefnydd y Gymraeg

yn yr hirdymor. O ganlyniad mae bylchau yn ein dealltwriaeth o gyfraniad y Siarter Iaith tuag at y nod o hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

- Dylid ystyried symud tuag at system wahanol o adrodd ar gynnydd ar gyfer ysgolion sydd wedi cyrraedd y wobr aur. Gallai'r trefniadau hyn osod mwy o bwyslais ar hunan-werthuso a dysgu adfyfyriol.

5. Cefndir: Cymraeg Campus mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg

- 5.1 Mae'r bennod hon yn cynnig trosolwg o weithrediad y rhaglen. Mae'n seiliedig ar ddogfennaeth gefndirol a adolygwyd yn ystod y gwerthusiad, ynghyd â gwybodaeth a rannwyd ar lafar gan swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion consortia a gyfwelwyd.

Nod

- 5.2 Rhaglen a weithredir mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yw Cymraeg Campus. Yn ôl y llawlyfr a baratowyd i ysgolion yn wreiddiol gan ERW, nod y rhaglen yw:

darparu fframwaith clir y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant o fewn cyd-destun ysgol gyfan. Yn gwyno, prif nod y Siarter yw hyrwyddo ethos Cymreig cadarn yn yr ysgolion ac i ddarparu ystod o weithgareddau cyfoethog sy'n galluogi'r plant i fwynhau dysgu'r Gymraeg. (ERW 2016:3).

Cefndir

- 5.3 Yn dilyn gweithredu'r Siarter Iaith yng Ngwynedd roedd swyddogion yn ERW yn gweld y potensial ar gyfer rhaglen debyg ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg. Gan ddefnyddio'r un egwyddorion, aethant ati i greu rhaglen a fyddai'n targedu'r sector.
- 5.4 Treialwyd y rhaglen mewn un ysgol ym mhob un o bum sir y rhanbarth cyn gwahodd, ac yna annog, yr ysgolion cynradd eraill yn y rhanbarth i gymryd rhan yn 2016. Paratowyd llawlyfr (ERW 2016) i esbonio'r nod a sut mae gweithredu'r rhaglen.
- 5.5 Daeth swyddogion Llywodraeth Cymru i gyswllt gydag ERW a gofyn am ganiatâd i fabwysiadu dull Cymraeg Campus o weithio ledled Cymru. Erbyn 2018/19, yn dilyn trafodaethau pellach rhwng uwch swyddogion y pedwar consortiwm, roedd y rhaglen wedi ei mabwysiadu ar draws y pedwar rhanbarth (gweler Ffigur 5.1).

Ffigur 5.1 Cyflwyno Cymraeg Campus ar draws Cymru

2015/16	Datblygu Cymraeg Campus. Gorffennaf 2016: Lansiad ffurfiol mewn digwyddiad gan gonsortïwm rhanbarthol ERW.
2017/18	Cyflwyno Cymraeg Campus mewn rhanbarthau eraill. 2017/18: Cyflwyno i rai ysgolion yn rhanbarth GwE. 2017/18: Cyflwyno yn rhanbarth GCA. Haf 2018: Lansio Cymraeg Campus ar draws consortïwm Canolbarth y De, gyda'r rhaglen yn dod yn weithredol yn ystod 2018/19.
2018/19 ymlaen	Gweithredu Cymraeg Campus yn rhanbarth GCA gyda chefnogaeth yn cael ei chynnig i 80 o ysgolion ar draws y pum sir.
2018 ymlaen	Ymestyn a chryfhau'r rhaglen yn y pedwar rhanbarth.
2019	Erbyn Chwefror 2019 roedd tua hanner ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg Cymru (496 ysgol) wedi dewis cymryd rhan yn y rhaglen, ac adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd y nifer yn cynyddu o hyd.

Trosolwg o drefniadau cyllido Cymraeg Campus

- 5.6 Nid oes cyllid penodol wedi'i glustnodi ar gyfer rhaglen Cymraeg Campus. Adroddodd swyddogion Llywodraeth Cymru bod consortia yn defnyddio'r cyllid a ddyrennir i'r rhaglen Siarter Iaith i gefnogi Cymraeg Campus. Yn seiliedig ar drafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion consortia rhanbarthol, nid oes modd adnabod pa gyfran o'r cyllid sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi Cymraeg Campus.

Gweithredu Cymraeg Campus

5.7 Cynhyrchwyd llawlyfr gan ERW sy'n cyflwyno strwythur a gofynion Cymraeg Campus (a elwir yn y llawlyfr ei hun yn 'Siarter Iaith'). Y llawlyfr hwn sy'n cael ei rannu gyda chonsortia ac ysgolion fel canllaw ar gyfer gweithredu'r rhaglen, law yn llaw ag adnoddau a syniadau pellach ar y rhwydwaith Hwb. Mae'r llawlyfr yn cyflwyno gwybodaeth am y gwahanol gamau y mae gofyn i ysgolion ymgymryd â nhw wedi iddynt gychwyn y rhaglen. Yn ogystal â diffinio nod Cymraeg Campus (gweler paragraff 5.3) mae'r llawlyfr yn cynnig disgrifiad o brif elfennau'r rhaglen:

- **Gwobrau Efydd, Arian ac Aur.** Gan ddilyn model y Siarter Iaith, ceir tair gwobr o fewn Cymraeg Campus, sef gwobrau efydd, arian ac aur. Mae gan bob gwobr ddeg targed yr un, sy'n mynd yn gynyddol heriol. Mae cyfres o 9-10 maen prawf i bob targed, ac esbonia'r llawlyfr bod rhaid cwrdd â'r meini prawf llwyddiant i gyd er mwyn cwblhau targed. Mae'r camau sydd yn gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant a'r targedau yn cael eu cofnodi mewn ffeil tystiolaeth. Ceir crynodeb o'r targedau a'r meini prawf yn Atodiad 3.
- **Rôl y Criw Cymraeg.** Noda'r llawlyfr ei bod yn hanfodol bod gan ysgolion Griw Cymraeg i arwain ar weithgareddau i hybu defnydd o'r Gymraeg. Fel arfer mae hyn yn golygu dau ddisgybl o bob blwyddyn ysgol. Mae disgwyl i'r Criw Cymraeg gwrdd yn wythnosol gyda chydlynnydd y Gymraeg er mwyn trafod a diweddarau gwybodaeth ynglŷn â'r rhaglen.
- **Holiadur Ar-lein** Mae holiadur ar-lein yn rhan o'r rhaglen, ac fe'i cyflwynir yn y llawlyfr fel 'dull addas o osod gwaelodlin ac o fesur llwyddiant'. Mae'r holiadur yn gofyn deg cwestiwn ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y dosbarth, ar yr iard a thu allan i'r ysgol. Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 3-6 yn cofnodi eu hatebion 'ar ddechrau'r broses a thua'r diwedd' yn ôl y llawlyfr. Mae'r defnydd o holiadur ar ffurf Gwe Iaith yn efelychu'r Siarter Iaith, er bod y cwestiynau wedi eu haddasu er mwyn clymu'n dynn gyda thargedau penodol Cymraeg Campus. Y targed cyntaf yw 'Sefydlu ethos Gymreig gweledol' ac mae

cwestiwn cyntaf yr holiadur yn cyfateb i hynny, gan ofyn i'r disgyblion roi sgôr am y datganiad 'Gallaf weld arwyddion ac arddangosfeydd Cymraeg o amgylch fy ysgol'.

Cytundeb ysgol-gyfan: Mae'r llawlyfr yn gofyn am gytundeb ysgol-gyfan wedi'i lofnodi gan y pennaeth, cydlynnydd y Gymraeg, y Criw Cymraeg a llywodraethwr.

- 5.8 Pan fydd ysgol wedi cwblhau'r deg targed ar gyfer gwobr, mae angen cysylltu gyda swyddog Cymraeg mewn Addysg ei awdurdod lleol sydd yn gwerthuso eu cynnydd. Esbonia'r llawlyfr: 'bydd y swyddog yn ystyried ystod o dystiolaeth gan gynnwys gwrandio ar ddysgwyr a chwrdd ag aelodau penodol o'r staff er mwyn dyfarnu'r wobwr'.
- 5.9 Er i'r rhanbarthau eraill efelychu egwyddorion Cymraeg Campus ERW, ceir peth amrywiaeth yn y model a weithredir ar draws Cymru: er enghraifft mae dau awdurdod lleol yn rhanbarth GwE wedi ei addasu i gynnwys disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn yr holiaduron. Yn ôl y data a dderbyniwyd gan y pedwar consortiwm yn Chwefror 2019 roedd 496 ysgol yn cymryd rhan yn y rhaglen.⁹

⁹ Mae'r nifer yn debygol o fod yn uwch erbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (gwanwyn 2020) gan fod rhai wedi ymuno â'r rhaglen ers y pwynt casglu data ar gyfer y gwerthusiad (Chwefror 2019). Yn ôl y wybodaeth a gyrchwyd yr un pryd roedd 989 ysgol cyfrwng Saesneg yng Nghymru, a hefyd nifer fechan o ysgolion dwyieithog a rhai dwy ffrwd. Gweler: [StatsCymru, Data ysgolion](#)

6. Canfyddiadau: Cymraeg Campus mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg

- 6.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau ar raglen Cymraeg Campus gan ddilyn yr un strwythur â Phennod 4: cynllunio strategol; gweithio mewn partneriaeth; dulliau casglu, cofnodi a dehongli tystiolaeth; a monitro cynnydd a sicrhau ansawdd. Nid yw'r bennod hon yn mynd i'r un manylder â'r bennod ar y Siarter Iaith am fod llai o waith maes wedi'i wneud ar y rhaglen (esbonnir y rheswm am hyn yn 2.4). Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy drafodaethau ffôn gyda sampl o ymarferwyr, arolwg o ymarferwyr, cyfweiliadau gyda'r swyddogion consortia ac ymchwil pen desg.

Cynllunio strategol

Rôl Llywodraeth Cymru; y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol

- 6.2 Y consortia sydd yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer gweithredu Cymraeg Campus, ac yn sicrhau bod cefnogaeth yn ei lle gan swyddogion consortia neu swyddogion awdurdodau lleol. Mae union swyddogaethau a mewnbwn y consortia ac awdurdodau lleol yn amrywio o ranbarth i ranbarth, yn dibynnu ar drefniadau gweithio'r rhanbarth. Ac eithrio derbyn gwybodaeth fonitro lefel uchel nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl wrth gefnogi gweithrediad y rhaglen.
- 6.3 Mae swyddogion o'r awdurdodau lleol yn cefnogi'r ysgolion gyda gweithredu Cymraeg Campus, ond mae lefel y gefnogaeth yn amrywio ac yn dibynnu ar faint o ysgolion mae un swyddog yn eu cefnogi. Codwyd y pwynt hwn gan swyddogion rhanbarthol a oedd o'r farn bod y capasiti o fewn timau consortia ac awdurdodau lleol yn dylanwadu ar lefel y gefnogaeth, ac felly ar brofiad yr ysgolion o'r rhaglen. Mewn un awdurdod lleol, er enghraifft, lle mae nifer cymharol fach o ysgolion yn rhan o'r rhaglen, nodwyd bod swyddogion Cymraeg Campus lleol yn medru ymweld â chydlynwyr y Gymraeg o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg bob mis i drafod a chefnogi. Dywedodd ymarferwyr mewn ardal arall bod eu hathro bro/athrawes fro yn cefnogi dros chwe deg o ysgolion, felly roeddent yn gwybod na allent ddisgwyl cyswllt aml.
- 6.4 Roedd ymarferwyr o'r farn bod yr arweiniad a roddir gan swyddogion rhanbarthol ac awdurdodau lleol (athrawon bro gan amlaf) i ysgolion i gefnogi

Cymraeg Campus yn hanfodol i weithrediad y rhaglen. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi rôl y swyddogion hyn wrth hyrwyddo'r rhaglen a darparu cefnogaeth ymarferol mewn ffordd sydd wedi'i theilwra at anghenion ysgolion. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ganddynt fod llwyth gwaith y swyddogion sy'n eu cefnogi yn drwm.

- 6.5 Fel rhan o'r arolwg gofynnwyd i'r ymarferwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol: 'Rydym yn derbyn digon o gyngor i gefnogi Cymraeg Campus'; 'Rydym yn derbyn cyngor ar adegau priodol' a 'Mae'r cyngor yn cwrdd â'n gofynion'. O'r 177 o ymarferwyr a atebodd y cwestiynau hyn, nododd tua thri chwarter (rhwng 72 a 75 y cant) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiadau, a lleiafrif bach (rhwng 4 a 10 y cant o ymatebwyr) atebodd eu bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiadau. Holwyd hefyd: 'A oes unrhyw gefnogaeth ychwanegol yr hoffech ei derbyn i gefnogi gweithrediad Cymraeg Campus?' Atebodd dros hanner yr ymatebwyr (58 y cant) 'oes'.
- 6.6 Cyflwynwyd enghreifftiau yn ystod cyfweiliadau ac mewn ymatebion ysgrifenedig i'r arolwg o'r gefnogaeth ychwanegol y byddai ysgolion yn ei dymuno. Y pwyntiau a godwyd fwyaf rheolaidd gan ysgolion oedd:
- Cais am ragor o adnoddau, syniadau ac enghreifftiau o arferion da.
 - Rhagor o gyswllt a chefnogaeth bellach gan swyddogion consortia a lleol er mwyn gwirio eu bod ar y trywydd cywir.
 - Mwy o gefnogaeth gan eu consortia i hwyluso cydweithio a rhannu arferion da rhwng ysgolion.
 - Mwy o hyfforddiant ar gyfer staff (athrawon a chynorthwywyr dysgu) i'w rhoi mewn sefyllfa gryfach i weithredu'r rhaglen.

Rôl ysgolion wrth weithredu Cymraeg Campus

- 6.7 Mae dyluniad y rhaglen yn efelychu model y Siarter iaith, ond yn wahanol i'r rhaglen Siarter iaith mae llwybr mwy pendant wedi ei osod o ran targedau a meini prawf. Mae gofyn i ysgolion gasglu a chyflwyno tystiolaeth ar gyfer pob maen prawf yn ystod y broses ddilysu. Mae'r dull gweithredu yn hynny o beth yn fwy strwythuredig na'r broses gyfatebol i ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n

gweithredu'r Siarter Iaith, lle mae mwy o ryddid i ysgolion benderfynu ar eu blaenoriaethau a'u cynlluniau gweithredu eu hunain.

- 6.8 Gofynnodd yr arolwg o ysgolion Cymraeg Campus i ymarferwyr nodi a oes 'person penodedig yn gyfrifol am gydlyn Cymraeg Campus yn yr ysgol'. O'r 174 o ymarferwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd bob un bod yna berson penodedig yn cydlynu'r rhaglen. Fel yn achos y Siarter Iaith, adroddodd ysgolion fod gofynion amser ychwanegol sylweddol ar gydlynwyr Cymraeg Campus wrth iddynt gynllunio rhaglen o weithgareddau a gweithio tuag at y targedau sy'n gysylltiedig â'r gwobrau.
- 6.9 Nododd cydlynwyr y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn y cyfweiliadau ac mewn ymatebion i'r arolwg, y byddai rhagor o amser digyswllt er mwyn paratoi adnoddau a gweithgareddau yn hwyluso'r broses o weithredu'r rhaglen. Roedd diffyg amser i weithredu'r rhaglen yn gŵyn gyffredin, ac yn gysylltiedig â hyn, roedd awydd am gyllid penodol i ysgolion fedru rhyddhau staff i gynllunio ar ei chyfer. Esboniodd cydlynwyr, mewn atebion i gwestiynau'r arolwg, bod dod o hyd i'r amser i drefnu gweithgareddau, ac i fodloni'r meini prawf ar gyfer pob targed, yn gallu bod yn her:
- 'Yn ein hachos ni, mae Cymraeg Campus wedi cymryd gormod o amser a hoffem arweiniad ar sut y gallwn leihau'r baich gwaith wrth barhau i ymgymryd â'r rhaglen.' (Cydlynnydd y Gymraeg, ysgol gynradd)
- 6.10 Mynegodd cyfweleion bryderon bod y diffyg amser ac arian i gefnogi'r rhaglen yn cyfyngu ar y tebygolrwydd o gyflawni'r effaith a ddymunir drwy Cymraeg Campus. Nododd ymatebwyr y byddai rhagor o gefnogaeth ariannol – er mwyn talu costau cyflenwi – yn galluogi ysgolion i weithredu'r rhaglen yn fwy strategol ac yn rhyddhau cydlynwyr i neilltuo amser i weithio tuag at dargedau yn fwy pwrpasol. Yn eu barn hwy byddai hyn hefyd yn galluogi cydlynwyr i gynllunio a threfnu gweithgareddau a chynnal cyfarfodydd gyda'r Criw Cymraeg yn fwy aml.
- 6.11 Amlygodd y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r arolwg bryderon tebyg ynghylch yr amser sydd ar gael i gefnogi'r rhaglen. Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad: 'Mae'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yn rhy feichus'. O'r 176 a atebodd y cwestiwn hwn, nododd dros hanner y cydlynwyr (55 y cant) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n

cytuno â'r datganiad yma. Gofynnwyd hefyd i ba raddau yr oedd ymarferwyr yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad: 'Mae digon o amser o fewn amserlen yr ysgol i weithredu Cymraeg Campus'. Roedd llai na thraean yr ymatebwyr (29 y cant) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r gosodiad hwn.

- 6.12 Mae llunio cytundeb ysgol gyfan yn un o'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y llawlyfr Cymraeg Campus. Mae'r llawlyfr yn nodi'r angen bod 'pob rhanddeiliad yn deall gofynion y Siarter ac wedi ymrwymo'n llawn i weithio'n frwdfrydig i sicrhau llwyddiant er mwyn ennill y wobwr'. Fel rhan o'r arolwg gofynnwyd i gydlynwyr y rhaglen nodi pwy sy'n rhan o'r broses o gynllunio gweithgareddau Cymraeg Campus yn eu hysgol. O'r 182 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, nododd bron yr holl ymatebwyr bod cydlynwyr Cymraeg Campus (96 y cant) ac aelodau criwiau Cymraeg (95 y cant) yn ymwneud â'r broses cynllunio gweithgareddau. Nododd llai na hanner yr ymatebwyr (40 y cant) bod disgyblion eraill yr ysgol yn ymwneud â'r broses gynllunio, a nododd tua thraean (32 y cant) o ymatebwyr bod aelod/au o'r uwch dîm rheoli yn cyfrannu at gynllunio gweithgareddau.
- 6.13 Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r gosodiad: 'Mae Cymraeg Campus yn cael ei gefnogi gan uwch dîm rheoli'r ysgol'. O'r 176 a atebodd y cwestiwn hwn, nododd mwyafrif yr ymatebwyr (85 y cant) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad. Atebodd bron i draean yr ymatebwyr (32 y cant) eu bod yn cytuno gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad: 'Nid yw holl staff yr ysgol yn cefnogi Cymraeg Campus'. Atebodd dros hanner yr ymatebwyr (51 y cant) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod 'diffyg sgiliau Cymraeg ymhlith staff yn rhwystr i weithredu'r rhaglen'. Roedd swyddogion consortia o'r farn bod y rhaglen yn gweithio orau lle roedd ymrwymiad clir a blaenoriaethu gan yr uwch dîm rheoli. Fodd bynnag, lleiafrif bach (11 y cant) o'r unigolion a atebodd yr holiadur oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad bod 'cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth i'r ysgol ar hyn o bryd'.
- 6.14 Dengys y dystiolaeth uchod nad yw gweithredu rhaglen Cymraeg Campus heb ei heriau mewn rhai ysgolion. Serch hynny, adroddodd swyddogion a oedd yn gweithio gyda'r ysgolion ar draws Cymru eu bod o'r farn bod y rhaglen yn arwain at newid o ran meddylfryd a statws y Gymraeg yn yr ysgolion sydd yn

gweithredu Cymraeg Campus. Gwnaethant egluro eu bod wedi arsylwi bod y Gymraeg wedi cael ei thrin fel pwnc unigol yn unig ar hyd y blynyddoedd, a bod rhaglen Cymraeg Campus i'w gweld yn annog ysgolion i feddwl am yr iaith mewn ffordd fwy trawsbynciol a strategol:

'Mae'r rhaglen wedi llwyddo i strwythuro syniadau a chyfleon ar gyfer pob ysgol ac wedi cefnogi athrawon cwbl ddi-Gymraeg i ddefnyddio methodoleg bwrpasol a phenodol wrth gyflwyno'r iaith a'r holl gyfleoedd a phrofiad Cymreig.' (Swyddog consortiwm rhanbarthol)

Cyfranogiad disgyblion wrth weithredu Cymraeg Campus

- 6.15 Mae cyfranogiad disgyblion yn rhan ganolog o ddyluniad a gweithrediad y rhaglen Cymraeg Campus. Roedd cydlynwyr y Gymraeg yn yr ysgolion a fu'n rhan o'r gwerthusiad o'r farn bod defnydd disgyblion o'r Gymraeg wedi cynyddu a bod agweddau mwy cadarnhaol tuag at yr iaith yn cael eu meithrin drwy'r rhaglen:

'Mae'r grŵp craidd o ddisgyblion sydd ar y Criw Cymraeg yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Gymraeg bob wythnos. Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb iddyn nhw ac yn datblygu eu sgiliau iaith. Hefyd mae'r holl ddisgyblion yn clywed mwy o Gymraeg - rwy'n gweithio gyda holl staff yr ysgol i ymgorffori'r Gymraeg o fewn themâu ar gyfer bob dosbarth, gan ddatblygu brawddegau a geirfa allweddol i annog mwy o Gymraeg achlysurol.' (Cydlynnydd y Gymraeg, ysgol gynradd)

- 6.16 Dengys data'r arolwg bod Criwiau Cymraeg yn rhan o'r broses o gynllunio gweithgareddau ym mron pob ysgol a gymerodd ran yn yr arolwg. Gofynnodd yr arolwg i ymarferwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad: 'Mae disgyblion yr ysgol yn frwdfrydig dros Cymraeg Campus'. O'r 175 a atebodd y cwestiwn hyn, nododd 79 y cant eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r gosodiad.

Cyfranogiad rhieni

- 6.17 Ni chasglwyd barn rhieni fel rhan o'r gwaith maes ar gyfer Cymraeg Campus. Gofynnodd yr arolwg: 'A yw gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau Cymraeg Campus yn cael ei rhannu â rhieni yn eich ysgol chi?' Nododd 85 y cant o ymatebwyr eu bod yn rhannu gwybodaeth â rhieni. Mae'r darlun a rannwyd gan ymarferwyr yn ystod cyfweiliadau o ran lefel diddordeb a brwdfrydedd rhieni yn

un cymysg. Cafwyd enghreifftiau o ymateb cadarnhaol gan rieni ond hefyd enghreifftiau o ddiffyg cefnogaeth a difaterwch.

- 6.18 Yn ystod cyfweiliadau ffôn gyda chynrychiolwyr ysgolion darparwyd enghreifftiau o weithgareddau sydd wedi'u cynnal er mwyn ymgysylltu â rhieni. Clywyd enghraifft o fore coffi mewn un ysgol, a drefnwyd gan y Criw Cymraeg, lle roedd disgwyl i rieni archebu eu diodydd yn y Gymraeg. Paratowyd taflenni ar gyfer rhieni gyda geirfa a themau allweddol. Cafwyd enghreifftiau o weithgareddau eraill lle roedd gweithgareddau Cymraeg yn ffordd o hybu cysylltiadau rhwng yr ysgol a rhieni.
- 6.19 Nododd rhai eu bod yn rhannu gwybodaeth – gair yr wythnos, gwybodaeth am dasgau Cymraeg a gwblhawyd – ond nad oes llawer o ymateb neu adborth gan rieni. Adroddodd nifer fechan o ysgolion bod gwrthwynebiad ymysg rhai rhieni i weithgareddau i gefnogi'r Gymraeg: teimlai rhai rhieni yn yr ysgolion hyn y dylai ysgolion cyfrwng Saesneg fod yn 'canolbwyntio ar Saesneg'.

Gweithio mewn partneriaeth

- 6.20 Mae'r is-adran hon yn ystyried y partneriaethau a'r cydweithio a welir wrth weithredu Cymraeg Campus. Mae hyn yn cwmpasu'r cydweithio o fewn ysgolion, rhwng ysgolion, a chydweithio gyda rhanddeiliaid allanol.

Cydweithio o fewn ysgolion

- 6.21 Rhoddir pwyslais ar gyfranogiad gan y gymuned ysgol gyfan er mwyn cyflawni'r gwobrau yn y llawlyfr. Yn wahanol i ddyluniad y Siarter Iaith, lle mae pwyslais ar adnabod blaenoriaethau a chynllunio gweithgareddau sydd wedi'u teilwra at anghenion yr ysgol, mae ysgolion Cymraeg Campus yn gweithio tuag at gyfres o feini prawf cyffredin. Mae gofyniad ar ysgolion i sicrhau bod staff yr ysgol yn cyfrannu ar y cyd tuag at dargedau sydd yn gynyddol heriol wrth weithio drwy'r gwobrau.
- 6.22 Adroddodd ymarferwyr a gyfwelwyd eu bod yn gweithio i ddatblygu hyder a gwybodaeth cydweithwyr er mwyn iddynt fedru cefnogi Cymraeg Campus. Gwnânt hyn drwy gynnal sesiynau ar Cymraeg Campus yn ystod hyfforddiant mewn swydd i'r staff, neu drwy weithio gydag athrawon i addasu cynlluniau gwersi er mwyn adnabod cyfleoedd i ymgorffori'r Gymraeg o fewn themâu neu

dasgau yn y dosbarth. Cyfeiriodd ymarferwyr, yn y cyfweiliadau ac yn yr arolwg, at yr angen am hyfforddiant pellach er mwyn sicrhau bod athrawon yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn 'hyderus a chyson mewn ystod o sefyllfaoedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth', sef un o'r meini prawf ar gyfer cyrraedd y wobr aur.

6.23 Mae'r sylwadau a gyflwynwyd mewn atebion i'r arolwg yn amlygu rhai o'r rhwystrau rhag cydweithio o fewn ysgolion:

- Diffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg fel ymarferwyr a diffyg hyder i fentro defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth;
- Agweddau negyddol staff tuag at yr iaith Gymraeg mewn rhai achosion; nododd oddeutu traean o ymatebwyr eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno'n gyda'r datganiad nad yw holl aelodau staff yn eu hysgolion yn cefnogi'r rhaglen;
- Diffyg adnoddau ar gael i staff i'w cefnogi;
- Y gofynion beichus sy'n gysylltiedig â rhai targedau yn arwain at staff yn colli brwdfrydedd;
- Athrawon yn ei chael yn anodd i ymwneud â'r rhaglen yn sgil dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill.

6.24 Roedd tystiolaeth o gefnogaeth i'r rhaglen ymysg uwch dimau rheoli, a'r mwyafrif o'r ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno gryf neu'n cytuno'n gyda'r datganiad bod cefnogaeth i'r rhaglen gan yr uwch dîm.

6.25 Yn ôl swyddogion Llywodraeth Cymru, un ffactor allanol a fydd, dros amser, yn cefnogi capasiti ysgolion i weithredu'r rhaglen yw'r gofyniad o fewn Safonau Proffesiynol i Athrawon iddynt ddangos a phrofi 'ymrwymiad personol i ddatblygu sgiliau gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg'.¹⁰ Nododd y swyddogion hyn y gallai'r Safonau Proffesiynol helpu i greu'r amodau i gefnogi cydweithio o fewn ysgolion mewn perthynas â'r Gymraeg drwy godi ymwybyddiaeth a sgiliau.

¹⁰ [Llywodraeth Cymru, Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth](#)

Cydweithio rhwng ysgolion

- 6.26 Mae sefydlu cyswllt ag ysgol cyfrwng Gymraeg/ffrwd Gymraeg ymhlith y meini prawf ar gyfer cyrraedd y targedau ar bob lefel. Gofynnwyd i ysgolion nodi a oedd y datganiad: 'Mae Cymraeg Campus wedi arwain at gysylltiadau rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill' yn gywir ar gyfer eu hysgol. O'r 182 a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 46 y cant bod y rhaglen wedi arwain at gysylltiadau newydd, atebodd 24 y cant ei bod wedi cryfhau cysylltiadau oedd yn bodoli eisoes, ac adroddodd y gweddill nad oedd y rhaglen wedi arwain at newid. Dywedodd rhai o'r cyfweleion bod eu hysgolion wedi sefydlu perthynas newydd a bod hyn wedi bod yn fuddiol. Mynegodd y cyfweleion hyn farn gadarnhaol ar yr elfen hon o'r rhaglen, er i nifer fechan iawn o ymatebwyr yr holiadur ddatgan yr hoffent fwy o gymorth i greu'r cysylltiadau a dod o hyd i ysgolion i bartneru â hwy. Ni ddaeth y gwerthusiad o hyd i unrhyw enghreifftiau o gydweithio rheolaidd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgolion, er i randdeiliaid ar lefel genedlaethol nodi bod hyn yn digwydd.

Cydweithio rhwng ysgolion a rhanddeiliaid allanol

- 6.27 Wrth weithredu'r rhaglen (boed ar lefel efydd, arian neu aur) disgwylir i ysgolion wahodd siaradwyr Cymraeg i'r ysgol. Esboniodd ymarferwyr a swyddogion sy'n eu cefnogi bod hyn yn agwedd heriol i nifer o ysgolion cyfrwng Saesneg, gan nad yw'r ysgolion hyn ar y cyfan yn ymwybodol o'r mudiadau a'r digwyddiadau sydd ar gael i gefnogi gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg. Ategwyd hyn yn sylwadau ymatebwyr i'r arolwg gyda sawl un yn esbonio yr hoffent gefnogaeth i ddod o hyd i fusnesau neu gymdeithasau a fyddai'n gallu ymweld â'r ysgol.
- 6.28 Mae ymaelodi a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd yn rhan greiddiol o dargedau a meini prawf Cymraeg Campus, gyda maen prawf ar bob lefel i'r disgyblion gystadlu mewn cystadlaethau llwyfan a llenyddol bob blwyddyn, ac i gymryd rhan yng ngweithgareddau chwaraeon yr Urdd. Mae hefyd faen prawf o gael cyfran o'r disgyblion i ymaelodi â'r Urdd, ac erbyn i'r ysgol fod yn gweithio tuag at y lefel aur mae targed bod y rhan fwyaf o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn aelodau o'r Urdd.
- 6.29 Nid yw'r gofyniad i fwyafrif y disgyblion ymaelodi â'r Urdd yn cael ei groesawu gan bob ysgol. Cafwyd sylwadau yn ddigymell gan 31 allan o'r 184 o ymatebwyr

yr arolwg yn nodi pryderon ynghylch y targed aelodaeth yr Urdd. Y materion a godwyd ganddynt oedd ei bod yn anodd creu'r cyswllt gyda'r Urdd, bod gormod o bwyslais ar un mudiad, ei bod yn well ganddynt ddefnyddio darparwyr eraill ar gyfer gweithgareddau, a bod y gost ymaelodi yn rhwstr i rieni eu hysgol. Lleisiwyd barn gref gan rai athrawon nad oedd hi'n briodol cynnwys eitemau y mae'n rhaid talu amdanynt gan ei fod yn gosod pwysau ariannol ar deuluoedd ac yn gosod pwysau ar ysgolion i gyfiawnhau'r gwariant hwnnw i rieni, gan gynnwys rhieni mewn ardaloedd difreintiedig. Cafwyd sylwadau pellach gan nifer o ysgolion ynglŷn ag aelodaeth yr Urdd, a holodd sawl ymatebwr i'r arolwg (yn ateb i gwestiynau penagored) a oedd yn rhaid iddynt gynnwys yr Urdd ac a oedd ysgol yn medru derbyn gwobr heb i'w disgyblion fod yn aelod o'r Urdd:

'The Urdd has been a sticking point on the award – if we have no members, do we still get the award?' (Athro, ysgol gynradd)

Dulliau casglu, cofnodi a dehongli tystiolaeth

- 6.30 Y prif ddull o gasglu a chofnodi tystiolaeth ar gyfer y rhaglen Cymraeg Campus yw'r holiaduron deg cwestiwn a gwblheir ar-lein gan ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6 ar ddechrau ac ar ddiwedd y broses o weithio tuag at wob. Mae'n addasiad o'r holiaduron Gwe Iaith a ddefnyddir yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn 'ddull addas o osod gwaelodlin ac o fesur llwyddiant' yn ôl y llawlyfr.
- 6.31 Ni fynegwyd barn gref gan yr ymarferwyr na'r swyddogion am y defnydd o'r holiaduron, ac ymddengys ei fod yn cael ei dderbyn fel elfen didrafferth o'r rhaglen. Holodd yr arolwg i ba raddau yr oedd ymarferwyr yn cytuno neu'n anghytuno gyda chyfres o ddatganiadau am ddefnydd yr holiaduron. O'r 173 a atebodd y cwestiwn, roedd oddeutu tri chwarter yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod 'amlder casglu data drwy'r holiaduron yn briodol', bod yr 'ieithwedd a therminoleg yr holiaduron yn addas', a bod 'canlyniadau'r holiadur yn sail gadarn ar gyfer cynllunio gweithgareddau Cymraeg Campus ein hysgol ni'. Roedd mwyafrif llai (62 y cant) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod yr holiaduron yn 'ddull effeithiol o fonitro a chofnodi traweffaith Cymraeg Campus yn ein hysgol ni'.

Monitro cynnydd a sicrhau ansawdd

- 6.32 Mae dull mwy strwythuredig i'r rhaglen Cymraeg Campus o'i gymharu â'r rhaglen Siarter Iaith. Roedd cynrychiolwyr y consortia ac awdurdodau lleol o'r farn bod y dull hwn yn gweddu'n dda i'r ysgolion a bod yr ysgolion yn hoffi cael rhestr o feini prawf iddynt weithio tuag atynt. Nododd y cynrychiolwyr hyn bod dyluniad y rhaglen yn ei 'gwneud yn glir i ysgolion beth yw'r disgwyliadau' er mwyn cyrraedd y gwahanol wobrau.
- 6.33 Adroddodd yr ymarferwyr a gyfwelwyd eu bod yn teimlo bod y gwobrau a'r targedau cysylltiedig wedi gosod 'fframwaith' ac wedi 'rhoi ffocws' (yn eu geiriau hwy) i weithgareddau hybu'r Gymraeg. Mae data'r arolwg yn cefnogi hyn: atebodd bron i dri chwarter o'r ysgolion a gwblhaodd holiadur (74 y cant) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y 'system wobrwyo yn ychwanegu gwerth at Cymraeg Campus yn ein hysgol ni'. Nododd dros hanner yr ymatebwyr (51 y cant) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod 'trefniadau dilysu ar gyfer y gwobrau yn gweithio'n effeithiol' yn eu hysgolion hwy.
- 6.34 Mynegwyd pryderon ynghylch trefniadau gwobrwyo gan leiafrif o ysgolion yn ystod cyfweiliadau ac mewn ymatebion i'r arolwg. Er mai lleiafrif o gyfranogwyr a fynegodd feirniadaeth o agweddau o'r rhaglen, codwyd nifer o bwyntiau yn gyson.
- 6.35 Nodwyd bod y targedau, a'r meini prawf cysylltiedig y mae angen i ysgolion eu cyrraedd, yn rhy niferus. Er mwyn cwblhau'r gofynion ar gyfer y wobr efydd, mae 94 o feini prawf i'w cyflawni ar draws deg targed yn ôl y llawlyfr (manylion yn Atodiad 3). Adroddodd ysgolion bod hyn yn 'heriol iawn' iddynt ac yn 'digalonni' rhai ymarferwyr a disgyblion. Roedd canlyniadau'r arolwg ymarferwyr yn dangos bod nifer sylweddol yn teimlo bod y gwaith o gasglu a dangos tystiolaeth ar gyfer yr holl feini prawf yn 'faich sylweddol' arnynt, yn enwedig yng nghyd-destun y gofynion sy'n gysylltiedig ag agweddau eraill y cwricwlwm, a'r cyfyngiadau o ran sgiliau dwyieithog y gweithlu. Cyfeiriodd tua thraean o'r ymarferwyr at y targedau a'r meini prawf yn eu hymatebion i'r arolwg, gan nodi eu bod yn rhy niferus neu'n rhy heriol:

'Trim down the targets - for an initial award, the number is overwhelming. I suggest that showing some evidence in each target would be enough to

show moves towards an ethos of Welsh – breaking each one down into ten steps is far too much. They should be suggested pieces of evidence to satisfy the criteria rather than a list from which you have to demonstrate'.
(Athro ysgol gynradd)

- 6.36 Awgrymwyd gan ymarferwyr yn yr arolwg a'r cyfweiliadau bod angen rhagor o hyblygrwydd yn y ffordd y mae disgwyl i ysgolion gasglu tystiolaeth yn erbyn targedau, gan gynnwys nifer y targedau.
- 6.37 Amlygodd y dystiolaeth bod dryswch ynghylch y targedau a bod gan swyddogion ac ysgolion ddehongliadau gwahanol yn eu cylch. Er bod llawlyfr y rhaglen yn nodi bod yn rhaid cwrdd â'r meini prawf llwyddiant i gyd er mwyn cyflawni targed, roedd dehongliadau gwahanol gan swyddogion ar lefel genedlaethol a rhanbarthol ynghylch a oedd rhaid gwneud hynny er mwyn cyrraedd y wobr. Roedd hi'n amlwg o ymatebion yr holiadur bod nifer o ysgolion yn dehongli'r rhestr targedau fel rhestr ofynnol, er yn ansicr a oeddent yn gywir yn eu dehongliad:

'I feel that some targets need to be clearer. Is it expected that every target be fully achieved in all classes or a few?' (Aelod o'r uwch dîm rheoli, ysgol gynradd).

'Hoffwn weld mwy o gysondeb yn y dilysu ar draws y consortia, er enghraifft, a oes disgwyl cyflawni pob un targed? Mae'n rhy agored i ddehongliad ar hyn o bryd' (Swyddog awdurdod lleol)

- 6.38 Rhai o'r amheuon eraill a leisiwyd gan ymarferwyr am y system wobrwyo oedd bod rhai o'r meini prawf ar gyfer cyrraedd gwobrau arian ac aur yn rhy heriol o ran y disgwyliadau y maent yn eu gosod ar ysgolion. Nododd rhai ymarferwyr yn eu hatebion i'r arolwg bod gofynion 'gormodol' y wobr aur yn arwain at golli cefnogaeth cydweithwyr tuag at y Gymraeg ac yn eu dad-ysgogi yn hytrach nag ennyn agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. Yn nhyb rhai ymarferwyr mae rhai agweddau o'r wobr aur yn benodol yn gofyn am lefel o wybodaeth a sgiliau yn y Gymraeg nad oes gan nifer o athrawon mewn ysgolion cynradd Saesneg:

'The Bronze award is lovely and realistic for second language schools. It had a clear impact on staff and children's perceptions of the language and was a pleasure to oversee. As the awards progress, expectations become somewhat over ambitious and far too over the top for second language schools working on tight timetables. The silver and gold targets are difficult to sustain and achieve alongside an over saturated curriculum and have the

reverse effect. Targets need to be shortened and lowered above bronze level'. (Aelod o'r uwch dîm rheoli, ysgol gynradd)

Casgliadau mewn perthynas â rhaglen Cymraeg Campus

- Roedd yr ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg a'r ymarferwyr a gyfwelwyd yn croesawu dyluniad strwythuredig y rhaglen. Yn eu barn hwy roedd hyn yn darparu ffocws i gydlynwyr Cymraeg wrth iddynt weithredu gweithgareddau i hybu'r Gymraeg.
- Mae disgyblion yn frwdfrydig am y rhaglen.
- Mae galw am fwy o gefnogaeth ac arweiniad mewn rhai meysydd er mwyn gwella gweithrediad y rhaglen: mae angen hyfforddiant a chefnogaeth briodol er mwyn sicrhau bod ysgolion mewn sefyllfa i fedru gweithredu Cymraeg Campus a chyflawni nodau'r rhaglen.
- Mae angen trefniadau mwy strwythuredig ar gyfer rhannu adnoddau, gweithgareddau ac arferion da i gefnogi gweithrediad y rhaglen.
- Mae cydlynwyr Cymraeg yn wynebu heriau wrth ddod o hyd i amser i drefnu gweithgareddau a gweithio i fodloni'r meini prawf ar gyfer pob targed.
- Dymuna ysgolion dderbyn mwy o wybodaeth am sut i gysylltu gyda busnesau neu gymdeithasau a fyddai'n gallu cefnogi'r rhaglen yn eu hysgol.
- Mae'r targedau a'r meini prawf cysylltiedig yn rhy niferus a heriol i ysgolion, yn enwedig wrth iddynt weithio tuag at y gwobrau arian ac aur. Mae'r gofynion er mwyn cyrraedd y wobr aur, yn arbennig, yn dad-ysgogi rhai athrawon.
- Mae elfen o ansicrwydd mewn perthynas â'r disgwyliadau o ran dilysu.

7. Cefndir: Siarter iaith ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg / Prosiect Cefnogi Arferion iaith (PCAI)

- 7.1 Mae'r bennod hon yn cynnig trosolwg o weithrediad y rhaglen. Mae'r bennod yn seiliedig ar ddogfennaeth gefndirol a adolygwyd yn ystod y gwerthusiad, ynghyd â gwybodaeth a rannwyd ar lafar gan swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion consortia a gyfwelwyd.

Nod

- 7.2 Nod y Prosiect Cefnogi Arferion iaith (PCAI) yw cynyddu defnydd y Gymraeg gan bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2017d:2). Yn ystod cyfnod y gwerthusiad roedd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ar wahanol bwyntiau datblygiad o ran gweithredu'r Siarter iaith uwchradd. Mae'r Siarter iaith uwchradd yn rhannu'r un nod â'r Siarter iaith mewn ysgolion cynradd, sef cynyddu defnydd cymdeithasol y Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.

Cefndir

- 7.3 Datblygwyd prosiect peilot PCAI gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2007/08 er mwyn adnabod arferion da wrth hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion uwchradd. Bwriad y prosiect oedd cynnig cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ysgolion gynllunio a chynnal gweithgareddau i ddylanwadau ar arferion iaith cymdeithasol disgyblion iau a fyddai'n gallu cael eu datblygu'n arfer dda ar gyfer y dyfodol.
- 7.4 Yn dilyn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2012 a throsglwyddo ei gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru gwelwyd newidiadau pellach i'r rhaglen. Daeth yn amlwg dros amser bod angen creu rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg 'yn iaith addysg yn unig' (Llywodraeth Cymru 2017d:6). O 2013 ymlaen roedd rhaglen PCAI yn cynnwys elfen gymunedol gyda chefnogaeth partneriaid megis yr Urdd a'r Mentrau iaith, i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 7.5 Dyrennir cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol i ysgolion uwchradd cyfrwng Gymraeg sydd yn dymuno datblygu gweithgareddau i annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion. Mae disgwyl i gonsortia ddefnyddio'r cyllid i gynyddu defnydd anffurfiol a chymdeithasol o'r Gymraeg ymysg disgyblion. O fewn y trefniadau hyn, mae rhyddid i ysgolion weithredu prosiectau sy'n cyfateb i'w blaenoriaethau a'u hanghenion o safbwynt hybu defnydd iaith pobl ifanc. Nid oes gofyn i'r ysgolion na'r consortia rhanbarthol adrodd i Lywodraeth Cymru ar unrhyw elfen o'r cyllid grant erbyn hyn mewn perthynas â chefnogi defnydd anffurfiol o'r Gymraeg
- 7.6 Ers 2018 mae consortia wedi bod yn symud tuag at weithredu rhaglen Siarter Iaith uwchradd, gan ddatblygu gweithgareddau a strwythur sy'n cyfateb i'r rhaglen Siarter Iaith cynradd. Mewn rhai rhanbarthau, mae hyn yn cynnwys defnyddio addasiad o'r holiadur Gwe Iaith. Nid oes system wobrwyo yn y sector uwchradd. Mae amrywiadau yn y trefniadau ar gyfer gweithredu amcanion y Siarter Iaith uwchradd ar draws Cymru. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol wedi datblygu strategaeth leol ar gyfer cefnogi defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn y sector uwchradd; y strategaeth honno, yn hytrach na'r Siarter Iaith fel rhaglen ar ei phen ei hun, sydd yn gyrru gweithgarwch yn yr ardal honno.
- 7.7 Adroddodd y consortia ei bod yn fwriad ganddynt roi sylw cynyddol i ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn y sector uwchradd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae rhyddid i gonsortia ac ysgolion benderfynu ar natur eu gweithgareddau neu ddigwyddiadau, ac nid yw'n amlwg bod y rhaglen PCAI yn cynnig ffordd gyffredin neu strwythuredig i gefnogi hyn: ar sail y dystiolaeth a gasglwyd nid oedd yn amlwg bod dull gweithredu cyson na chydabyddedig wedi ei sefydlu ar draws consortia.

8. Canfyddiadau: Siarter laith ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg / Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI)

- 8.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad mewn perthynas â'r rhaglen Siarter Iaith uwchradd / PCAI, gan ddilyn yr un strwythur â phenodau blaenorol: cynllunio strategol; gweithio mewn partneriaeth; dulliau casglu, cofnodi a dehongli tystiolaeth; a monitro cynnydd a sicrhau ansawdd. Yn yr adrannau sydd yn dilyn nid oes rhaniad systematig rhwng y canfyddiadau sy'n berthnasol i PCAI a'r rheiny sydd yn berthnasol i'r Siarter Iaith uwchradd. Mae'r canfyddiadau yn adlewyrchu'r sefyllfa anwastad lle mae ysgolion ar wahanol gamau o'r broses o weithredu'r Siarter Iaith Uwchradd.

Cynllunio strategol

Cynllunio a gweithredu'r rhaglen ar lefel ysgol

- 8.2 Adroddodd cydlynwyr iaith – yr unigolion sydd wedi'u pennu i gydlynu gweithgarwch PCAI yn eu hysgolion – bod cefnogaeth i'r rhaglen o fewn yr ysgol. Nododd y mwyafrif bod cyfarfodydd wedi eu cynnal yn yr ysgolion i esbonio nod PCAI/Siarter Iaith i'r staff a'r disgyblion, ynghyd ag i'r corff llywodraethu. Esboniodd sawl cydlynnydd bod cefnogi defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol yn ganolog i weithrediad eu hysgolion, a bod llawer o'r gweithgareddau a gynhelir yn rhai y byddai'r ysgolion yn eu cynnal a'u hyrwyddo beth bynnag.
- 8.3 Mewn rhai ysgolion mae pwyllgorau o ddisgyblion wedi eu sefydlu i ddatblygu a gweithredu'r Siarter Iaith. Mae disgyblion sy'n aelodau o'r pwyllgorau hyn yn cyfarfod gyda'r cydlynwyr iaith i lunio amcanion, penderfynu ar weithgareddau, a'u trefnu. Adroddodd ysgolion bod disgyblion sy'n aelodau o'r pwyllgorau hyn yn frwdfrydig ac yn dangos parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am y Siarter Iaith.
- 8.4 Esboniodd swyddogion consortia bod cefnogaeth i'r Siarter Iaith ymhlith staff yr ysgolion, ond bod rhai athrawon yn ansicr ynghylch y disgwyliadau sydd arnynt mewn perthynas â chefnogi defnydd cymdeithasol y Gymraeg. Nododd athrawon mewn rhai ysgolion bod gweithgarwch y Siarter Iaith/PCAI yn berthnasol i elfennau o Fagloriaeth Cymru, lle mae gofyn i ddysgwyr ymgysylltu â'r gymuned, neu elusennau lleol. Rhoddodd athrawon enghreifftiau o

weithgareddau sy'n rhan o fywyd yr ysgol ac sydd hefyd yn cefnogi amcanion y Siarter Iaith - er nad yw athrawon na disgyblion o reidrwydd yn gwneud y cyswllt rhwng y gweithgareddau hyn ac unrhyw raglen ffurfiol.

Yr arweiniad a ddarperir i gefnogi'r rhaglen/gweithgareddau uwchradd

- 8.5 Mae lefel yr arweiniad a ddarperir i benaethiaid a staff mewn perthynas â gweithredu cynlluniau Siarter Iaith yn amrywio o fewn consortia, awdurdodau lleol ac ysgolion unigol. Mewn un consortiwm roedd swyddog wedi gwahodd cydlynwyr iaith tair ysgol gyfun Gymraeg a chynrychiolwyr ysgolion cynradd eu dalgylchoedd i gyfarfod i drafod cyflwyno Siarter Iaith uwchradd. Pwrpas y cyfarfodydd cychwynnol oedd rhannu enghreifftiau o gynlluniau gweithredu a phrofiadau o broses ddilysu'r Siarter Iaith cynradd, ac archwilio cyfleoedd i gydweithio rhwng y sector cynradd ac uwchradd.
- 8.6 Roedd consortiwm arall wedi trefnu bod arbenigwr allanol ar ddwyieithrwydd wedi mynd i gwrdd â staff ysgolion er mwyn hyrwyddo cynlluniau a gweithgareddau i gefnogi defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol. Adroddodd un ysgol ei bod wedi derbyn cefnogaeth gan y consortiwm yn y gorffennol ar ddechrau gweithredu PCAI ond bod lefel y gefnogaeth wedi lleihau a'i bod ar gael yn ôl y galw erbyn hyn.
- 8.7 Mae un awdurdod lleol wedi datblygu strategaeth iaith ar gyfer y sector uwchradd sy'n weithredol ers rhai blynyddoedd. Diben y strategaeth yw cynnig arweiniad er mwyn sicrhau fod ysgolion yn hyrwyddo'r Gymraeg yn rhagweithiol i rieni a'r gymuned ehangach; cefnogi a herio ysgolion i lunio cynllun gweithredu iaith; a darparu anogaeth a hyfforddiant i ysgolion. Nododd swyddog yr awdurdod lleol bod y strategaeth hon yn gyrru cynlluniau ac yn cynnig strwythur ar gyfer ysgolion. Yn ogystal â hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion, mae agweddau cwricwlaidd i'r strategaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod 'pob disgybl yn cael profiadau cwricwlaidd darllen, ysgrifennu, llafar a gwrando trwy gyfrwng y Gymraeg' sy'n adeiladu ar brofiadau cyfnodau allweddol blaenorol. Mae'r Strategaeth hefyd yn anelu i 'sicrhau cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr sy'n dilyn cyrsiau CA5 yn bennaf neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg trwy ddatblygu hyder ymgeiswyr, athrawon ac arweinyddion' (Cyngor Gwynedd 2019:23-24).

- 8.8 Dywedodd sawl swyddog rhanbarthol nad oeddent wedi derbyn canllawiau ar weithredu'r rhaglen uwchradd (PCAI na'r Siarter Uwchradd) gan Lywodraeth Cymru. Esboniodd cydlynnydd mewn un consortiwm bod diffyg eglurder ar y disgwyliadau o safbwynt gweithredu mewn ysgolion uwchradd. Nododd un swyddog iaith mewn awdurdod lleol bod diffyg amser athrawon yn rhwystr wrth weithredu'r Siarter yn y sector uwchradd. Adroddodd un uwch reolwr mewn ysgol nad oes amser i gwblhau'r 'gwaith papur llafurus' sy'n gysylltiedig â pharatoi cynllun gweithredu'r rhaglen.
- 8.9 Nododd amryw o gydlynwyr rhanbarthol y byddent yn gwerthfawrogi cael mwy o adnoddau cenedlaethol i'w cynorthwyo i gynllunio a gweithredu'r rhaglen – yn enwedig yn wyneb yr heriau o weithredu rhaglen yn y sector uwchradd '[sy'n] fwy gwasgaredig ac mae cymaint o ofynion eraill ar staff'. Rhai syniadau a nodwyd oedd:
- creu gwefan neu fforwm drafod Siarter iaith uwchradd genedlaethol – rhywle y gellid troi ato neu rhywle i rannu profiadau a syniadau;
 - cynnal cronfa o daflenni/deunyddiau;
 - cyfeirlyfr o fanylion cyswllt siaradwyr gwadd;
 - adnoddau marchnata/posteri i hyrwyddo'r Siarter iaith wedi eu hanelu at y sector uwchradd.

Y gydberthynas rhwng y rhaglen a chynlluniau eraill

- 8.10 Fel rhan o'r gwerthusiad cyfwelwyd ysgolion sydd wedi dechrau gweithredu rhaglen Siarter iaith uwchradd, gan ddefnyddio'r grant o £1,000 i gefnogi gweithgarwch. Yn yr ysgolion hyn mae'r Siarter iaith uwchradd (neu'r strategaeth iaith uwchradd mewn un sir) yn rhan o'r Cynllun Datblygu Ysgol. Nododd un ysgol eu bod wedi cymryd camau i wreiddio'r rhaglen o fewn cynlluniau'r ysgol, ac wedi llunio targedau o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg ac sydd yn seiliedig ar eu targedau Siarter iaith. Serch hynny adroddodd rhai cydlynwyr iaith nad oedd hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn gymaint o flaenoriaeth yn eu Cynllun Datblygu Ysgol o gymharu â blaenoriaethau cwricwlaidd eraill. Dywedodd un cydlynnydd iaith o fewn yr ysgol nad oedd yr ysgol wedi talu sylw manwl i gasglu data ar

gyfranogiad ac adborth disgyblion ar y gweithgareddau. Roedd yr ysgol yn cydnabod na fu pwyslais ar gofnodi'r newid i arferion iaith yn sgil gweithgareddau, gan nodi bod 'canlyniadau arholiadau yn fwy o ffon fesur gan yr ysgol'.

Gweithio mewn partneriaeth

Cydweithio rhwng ysgolion

- 8.11 Dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad fod rhywfaint o gydweithio rhwng ysgolion i drafod cynllunio a gweithredu o fewn eu rhanbarth. O ran cynllunio, rhoddwyd enghraifft o gydlynwyr yn cyfarfod i drafod eu syniadau ar gyfer dechrau gweithredu'r Siarter Iaith uwchradd. Trefnwyd gig Gymraeg mewn rhanbarth arall ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 5-8 yr holl ysgolion, a rhannwyd enghraifft o gydweithio rhwng ysgolion i gynnal eisteddfod.
- 8.12 Cafwyd enghreifftiau o ysgolion uwchradd a chynradd yn ymgorffori'r Siarter Iaith mewn gweithgareddau pontio rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Rhannwyd enghreifftiau hefyd o weithgareddau a oedd yn cynnwys cydweithio gydag ysgolion eraill a'r gymuned ehangach wrth drefnu ffeiriau haf a chyngherddau.

Cydweithio rhwng ysgolion a rhanddeiliaid allanol

- 8.13 Y prif rhanddeiliaid sydd yn cydweithio gydag ysgolion wrth weithredu'r rhaglen yw'r Urdd a'r Mentrau Iaith. Cyfeiriodd ysgolion hefyd at fewnbwn gan Glybiau Ffermwyr Ifanc, papurau bro, clybiau ieuencid, eisteddfodau lleol, prifysgolion, ac unigolion ym maes y celfyddydau. Mae nifer o'r partneriaid hyn yn hyrwyddo, amlygu neu'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion fedru defnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd eraill, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Dulliau Casglu, Cofnodi a Dehongli Tystiolaeth

- 8.14 Adroddodd ysgolion eu bod wedi defnyddio'r holiadur Gwe Iaith gyda disgyblion. Esboniodd un ysgol bod cynnal yr holiadur ar draws ysgol gyfan yn her anferth. Nododd yr ymarferydd hwn bod yr holiadur yn ddefnyddiol gan ei fod 'yn atgyfnerthu beth rydym yn ei wybod yn barod' am arferion defnydd iaith. Roedd un ysgol wedi rhannu canlyniadau Gwe Iaith gyda rhieni ac wedi darparu gwybodaeth iddynt ar nodau ac amcanion y rhaglen.

- 8.15 Mewn rhai ysgolion mae canlyniadau'r Gwe Iaith yn cael eu defnyddio i osod blaenoriaethau neu dargedau ar gyfer cynlluniau Siarter Iaith, sydd yn adlewyrchu trefniadau'r Siarter Iaith cynradd. Esboniodd un cydlynnydd ei fod yn rhannu gwybodaeth am ganlyniadau'r Gwe Iaith mewn cyfarfodydd staff, cyfarfodydd y tîm rheoli a gyda'r Criw Cymraeg.
- 8.16 Mae amrywiaeth o ran pa ddisgyblion sydd yn cwblhau'r Gwe Iaith ar draws ysgolion, gyda rhai yn casglu data gan ddisgyblion blwyddyn 7 yn unig, ac eraill yn casglu data gan yr ysgol gyfan. Nododd rhai athrawon eu bod yn cydnabod y cyfyngiadau sydd i'r data o ran deall y sefyllfa gyfredol a'r newidiadau a welir.

Casgliadau mewn perthynas â'r Siarter Iaith ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg / Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI)

- Mae ymarferwyr ysgolion uwchradd yn croesawu'r rhaglen ac yn cydnabod yr angen am weithgareddau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion yn y sector uwchradd.
- Mae'r gwerthusiad hwn wedi cwmpasu cyfnod lle mae'r rhaglen o weithgareddau mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo o PCAI, rhaglen a etifeddodd Llywodraeth Cymru gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac a esblygodd dros amser, i raglen Siarter Iaith uwchradd. Yn sgil hyn, nid oes cysondeb yn yr hyn a weithredir ar lefel ysgol ac mae'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer cefnogi ysgolion yn amrywio rhwng consortia.
- Mae rhaglen PCAI yn dirwyn i ben. Er bod enw'r rhaglen yn dal i gael ei ddefnyddio gan rai, ymddengys nad oes ganddi hunaniaeth glir. Ers rhai blynyddoedd ni fu set o amcanion cyffredin a manwl i lywio'r gweithgareddau a gynhelir o fewn ysgolion. Ymddengys hefyd bod y system monitro ac atebolrwydd yn gymharol llac: roedd ysgolion yn gyfrifol am bennu prosiectau, eu gweithredu ac adrodd yn ôl i'w consortia.
- Mae'n gyfnod o drawsnewid, ac mae'r rhaglen Siarter Iaith uwchradd yn parhau i gael ei sefydlu a'i gwreiddio o fewn gweithdrefnau ysgolion.
- Nid oes canllawiau cenedlaethol ar hyn o bryd ar gyfer gweithredu'r Siarter Iaith uwchradd. Awgryma'r dystiolaeth mai'r her fwyaf wrth weithredu'r Siarter Iaith mewn ysgolion uwchradd yw diffyg amser. Byddai cydlynwyr hefyd yn gwerthfawrogi cael mwy o adnoddau i gefnogi gweithrediad y rhaglen.

9. Cefndir: Cymraeg Bob Dydd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg

- 9.1 Rhaglen sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg yw Cymraeg Bob Dydd, ac mae'r bennod hon yn cynnig trosolwg o weithrediad y rhaglen. Daw'r wybodaeth o ddogfennaeth gefndirol a adolygwyd yn ystod y gwerthusiad, ynghyd â gwybodaeth a rannwyd ar lafar gan swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion yr Urdd a gyfwelwyd.

Nod

- 9.2 Nod gweithgareddau Cymraeg Bob Dydd yw cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg yn allgyrsiol (Urdd Gobaith Cymru 2018). Targedau'r rhaglen yw:
- 15+ o ddysgwyr TGAU, Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol Cymraeg yn fwy hyderus i siarad Cymraeg y tu allan i'r gwersi;
 - 15+ o ddysgwyr TGAU, Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol Cymraeg yn gwneud defnydd ehangach o'u sgiliau iaith Gymraeg;
 - 15+ o ddysgwyr TGAU, Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg gyda disgyblion eraill yr ysgol;
 - Cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio UG a Safon Uwch Cymraeg ail iaith.

Cefndir

- 9.3 Mae'r rhaglen yn deillio o brosiect peilot yn 2012 lle comisiynwyd yr Urdd gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith mewn nifer fechan o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ynghyd â chynnig chysiau preswyl dwys i fyfyrwyr Blwyddyn 10 i 13. Yn dilyn y cyfnod peilot hwn gwahoddwyd tendrau ar gyfer gyflawni'r rhaglen, ac ers hynny mae'r Urdd wedi ennill cytundebau i gynnal Cymraeg Bob Dydd. Dyfarnwyd £138,200 i'r Urdd i weithredu'r rhaglen am y flwyddyn ariannol

2019/2020. Cyhoeddwyd adolygiad o flynyddoedd cynnar gweithrediad y rhaglen yn 2016 (Llywodraeth Cymru 2016b).¹¹

- 9.4 Mae'r rhaglen Cymraeg Bob Dydd yn cynnig cefnogaeth i ysgolion cyfrwng Saesneg ar draws Cymru, gan eu cynorthwyo i drefnu a chynnal cyfleoedd i bobl ifanc rhwng 14 a 18 oed i ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i wers arferol. Yn y flwyddyn adrodd 2019/20 roedd rhaglen Cymraeg Bob Dydd ar waith mewn 37 o ysgolion ledled Cymru, gyda'r Urdd yn darparu cyrsiau a gweithdai ar gyfer disgyblion yn yr ysgolion hynny.
- 9.5 Mae cyfranogiad ysgolion yn y rhaglen Cymraeg Bob Dydd yn dechrau trwy gyswllt gydag un o swyddogion y rhaglen. Yn dilyn hyn, disgwylir iddynt lenwi ffurflen gais syml yn nodi eu rhesymau dros fod eisiau cymryd rhan yn y rhaglen a pha weithgareddau y bydd yr ysgol yn dymuno bod yn rhan ohonynt. Mae swm o £500 ar gael i bob ysgol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen i'w wario ar weithgareddau neu gyrsiau'r Urdd, ac mae'r Urdd yn trefnu bod swyddogion neu weithwyr llawrydd yn mynychu'r ysgolion i gynnal gweithdai trwy'r Gymraeg, fel rapio, gweithdai celf, ysgrifennu caneuon a theithiau. Cefnogir rhai ysgolion i gynnal clybiau cinio Cymraeg yn wythnosol, ac mae'r Urdd yn trefnu teithiau i gig neu ŵyl. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig cyrsiau preswyl sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr dreulio amser yng ngwersylloedd yr Urdd.

¹¹ [Adolygiad o Brosiect Cymraeg Bob Dydd 2016.](#)

10. Canfyddiadau: Cymraeg Bob Dydd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg

- 10.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwerthusiad sy'n ymwneud â'r rhaglen Cymraeg Bob Dydd. Fel yn achos y penodau blaenorol, mae'n nodi canfyddiadau yn erbyn pedwar maes allweddol, sef: cynllunio strategol; gweithio mewn partneriaeth; dulliau casglu, cofnodi a dehongli tystiolaeth; a monitro cynnydd.

Cynllunio strategol

Rôl Llywodraeth Cymru

- 10.2 Trafodwyd dyluniad y rhaglen a rôl Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r Cymraeg Bob Dydd gyda swyddogion polisi Is-adran y Gymraeg a gyda swyddogion yr Urdd.
- 10.3 Mae cyfarfodydd monitro yn cael eu cynnal rhwng swyddogion yr Urdd a Llywodraeth Cymru tua unwaith y chwarter, a chyfarfod mwy manwl bob blwyddyn. Mae'r Urdd yn cyflwyno adroddiad blynyddol a diweddariadau chwarterol i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys crynodeb o weithgareddau'r cyfnod, y niferoedd wnaeth gymryd rhan, a dyfyniadau o ffurflenni adborth ymarferwyr a disgyblion. Nododd swyddogion yr Urdd eu bod yn 'cael tipyn o ryddid' i gyflawni'r rhaglen fel y gwelant yn dda ond byddent yn croesawu mwy o graffu a thrafodaeth ar yr adroddiadau gan Lywodraeth Cymru.
- 10.4 Un newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2019/20) yw symud i weithio yn fwy dwys â nifer ychydig yn llai o ysgolion ar draws Cymru, a hynny wedi trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Urdd lle cytunwyd mai dyna fyddai orau.¹² Mynegodd swyddogion rhaglen farn y byddai'n well gan rai ysgolion fewnbwn llai dwys. Roedd hi'n ddyddiau cynnar ar y newid hwn adeg cyfweiliadau'r gwerthusiad, ac ni chafwyd adborth ar effaith y newid gan ymarferwyr.
- 10.5 Nododd swyddogion yr Urdd hefyd y bu mwy o drafod yn y cyfnod diweddar gyda swyddogion y consortia rhanbarthol, er mwyn blaenoriaethu ysgolion i fod yn rhan o'r rhaglen a'u dewis mewn ffordd fwy strategol. Esboniodd y

¹² Roedd 41 ysgol yn rhan o'r rhaglen y flwyddyn flaenorol.

swyddogion hefyd eu bod yn dechrau trafod y dewis o ysgolion yn fforymau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Rôl yr Urdd ac ysgolion

- 10.6 Yn dilyn cadarnhad bod yr ysgol wedi ei derbyn i'r rhaglen Cymraeg Bob Dydd, mae un o swyddogion Cymraeg Bob Dydd yn trefnu cyfarfod gydag aelod o'r uwch dîm rheoli a/neu bennaeth yr adran Gymraeg i drafod pa weithgareddau neu gyrsiau all fod o fudd i'r disgyblion.
- 10.7 Mae gan y swyddogion Cymraeg Bob Dydd restr o wahanol fathau o weithgareddau, gan gynnwys sesiynau cerddoriaeth, celfyddydol, dramâu a dawnsio, ac maent yn trefnu bod gweithwyr llawrydd (artistiaid a cherddorion) yn mynychu ysgolion i gynnal gweithdai trwy'r Gymraeg. Mae'r swyddogion hefyd yn trefnu teithiau i sioeau neu gigiau. Adroddodd ysgolion eu bod yn fodlon gyda'r rhyddid i ddewis gweithgareddau fel rhan o'r prosiect, er mwyn cefnogi ac ychwanegu at weithgareddau a gynhelir gan yr ysgol.
- 10.8 Mae modd i ysgolion drefnu bod eu disgyblion yn mynychu cyrsiau preswyl yr Urdd yn un o'u gwersylloedd. Mae gan ysgolion yr hawl i flaenoriaethu grwpiau neu ddisgyblion penodol yn ddibynnol ar eu hanghenion fel ysgol. Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi blaenoriaethu disgyblion o gyfnod allweddol 3, er mwyn iddynt weld yr iaith ar waith 'fel rhan o fywyd bob dydd' fel esboniodd un ymarferwr. Gall ysgolion hefyd ddewis i flaenoriaethu hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg trwy gwrs preswyl i ddisgyblion cyfnod allweddol 4, sydd yn ystyried dewis astudio'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch. Mae dulliau ysgolion wrth ddewis disgyblion yn amrywio, gyda rhai yn gwahodd disgyblion penodol i fynychu'r cyrsiau. Adroddodd rhai ymarferwyr bod y gost o fynychu'r cwrs preswyl yn rhwystr i rai disgyblion.
- 10.9 Adroddodd ymarferwyr eu bod yn hapus â hyblygrwydd prosiect Cymraeg Bob Dydd ac yr oeddent o'r farn eu bod yn medru targedu disgyblion neu grwpiau penodol, neu'r ysgol yn ehangach. Disgrifiwyd 'clybiau cinio', er enghraifft, fel modd o gryfhau perthynas rhwng y prosiect, y swyddogion a'r ysgolion, a chânt eu defnyddio fel ffordd i'r swyddogion hyrwyddo gweithgareddau a chyfleoedd eraill gyda'r Urdd i'r disgyblion. Nododd un swyddog Cymraeg Bob Dydd: 'mae'n siawns i roi wyneb i enw, a dod i arfer efo ni fel aelod o staff yn yr ysgol'.

- 10.10 Yn ôl sylwadau ymarferwyr yn y cyfweiliadau ac yn adroddiadau blynyddol yr Urdd, mae'r cyrsiau preswyl wedi galluogi disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ac i gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Adroddwyd ganddynt bod y disgyblion wedi mwynhau cyfathrebu a chymdeithasu â disgyblion o ysgolion eraill, staff yr Urdd ac aelodau o'r cyhoedd yn y Gymraeg.

Gweithio mewn partneriaeth

Partneriaeth rhwng yr Urdd ac ysgolion

- 10.11 Mae'r cydweithio rhwng yr Urdd ag ysgolion Cymraeg Bob Dydd yn rhan hanfodol o ddyluniad y prosiect. Roedd yr ysgolion a gyfwelwyd yn hapus gyda lefel a natur y cyswllt gyda swyddogion y prosiect, a'r ymarferwyr yn nodi bod y swyddogion yn estyn allan i awgrymu syniadau ac hefyd yn gwrandao ar adborth gan yr ysgol wrth weithredu'r rhaglen. Serch hynny, adroddodd swyddogion yr Urdd a staff ysgolion bod rhai heriau yn bodoli wrth weithio mewn partneriaeth. Nodwyd ganddynt fod cylchredeg gwybodaeth i ddisgyblion yn medru bod yn heriol gan fod angen rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r prosiect drwy gydlynnydd y rhaglen neu aelod staff yn yr ysgol er mwyn cyrraedd disgyblion. I gydbwysu'r her hon, mae'r swyddogion yn ceisio ymweld â'r ysgolion mor aml â phosibl gan drefnu cyfarfod staff a disgyblion er mwyn cael cyswllt uniongyrchol ac i roi gwybod am gyrsiau preswyl neu weithgareddau eraill.
- 10.12 Mae gan ysgolion bolisiâu ynglŷn â faint o weithgareddau y mae modd eu trefnu ym mhob blwyddyn ysgol, a faint o amser sydd yn rhaid ei gael rhwng gweithgareddau neu ddigwyddiadau; mae'n rhaid i'r rhaglen weithio o gwmpas hyn. Nododd yr ysgolion yr hoffent fwy o rybudd pan fo gweithgareddau ar gael fel eu bod yn medru gwneud y cynlluniau perthnasol yn unol â pholisiâu'r ysgol. Hoffai'r athrawon hefyd petai'r swyddogion yn trefnu gweithgareddau ar ddechrau'r flwyddyn ysgol er mwyn atgoffa'r disgyblion a'r athrawon o'r prosiect, ac er mwyn esbonio nodau a phwrpas y prosiect i ddisgyblion ac athrawon newydd.
- 10.13 Adroddodd y swyddogion bod cyfathrebu ag ysgolion yn medru bod yn her, ac ymateb yr ysgolion i gynnal ymweliad neu weithgaredd yn amrywio yn ôl adegau penodol o'r flwyddyn, er enghraifft cyfnod arholiadau a chyfnod y

Nadolig. Nododd y swyddogion ei bod weithiau yn anodd trefnu gweithgareddau gydag ysgolion wrth iddynt flaenoriaethu gweithgareddau allgyrsiol eraill.

Adleisiwyd y pwynt hwn yn y cyfweiliadau gyda'r ymarferwyr, a nifer ohonynt yn esbonio bod amserlennu gweithgareddau i grŵp neu flwyddyn gyfan yn gallu bod yn anodd iddynt.

Partneriaethau eraill

- 10.14 Ychydig o dystiolaeth a gafwyd o ysgolion Cymraeg Bob Dydd yn cydweithio â'r consortiwm neu gydag ysgolion eraill fel rhan o'r prosiect, ond roedd rhai enghreifftiau. Adroddodd un ysgol eu bod wedi rhannu gydag ysgolion eraill enghreifftiau o beth oedd wedi gweithio'n dda iddynt hwy trwy'r consortiwm. Trefnodd yr ysgol hon gystadleuaeth dysgu'r Gymraeg, gyda disgyblion yn siarad â beirniaid allanol. Defnyddiodd yr ysgol beth o'u cyllid ar wobrau i'r disgyblion, gyda thri disgybl ym mhob blwyddyn yn ennill gwobr.
- 10.15 Cafwyd enghreifftiau o ddisgyblion yn cydweithio ac yn cyd-gysylltu gyda disgyblion o ysgolion eraill wedi iddynt gyfarfod ar y cyrsiau preswyl. Mae'r prosiect hefyd yn hybu cydweithio a chyd-gysylltu rhwng disgyblion o oedrannau gwahanol o fewn ysgol, gyda nifer o ddisgyblion y chweched ddosbarth yn arwain gweithgareddau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 fel rhan o gyrsiau preswyl.
- 10.16 Nododd ysgolion Cymraeg Bob Dydd yr hoffent gydweithio'n fwy o fewn eu consortiwm, a rhannu syniadau gydag ysgolion eraill fel rhan o'r rhaglen, er mwyn 'cael gwybod beth mae ysgolion eraill wedi dewis i wario eu harian arno a beth sydd wedi gweithio'n dda iddyn nhw' (Athro ysgol uwchradd). Esboniwyd y byddai hyn yn fodd o rannu arfer dda ac yn ffordd o gydnabod ac adeiladu ar agweddau o'r prosiect sydd wedi gweithio'n dda:
- 'Byddai'n braf cysylltu ag arweinwyr neu gydlynwyr mewn ysgolion eraill er mwyn rhannu syniadau. Byddai hefyd yn dda cael cystadlaethau rhwng ysgolion.' (Athro ysgol uwchradd)
- 10.17 Thema arall a godwyd yn ystod cyfweiliadau gydag ymarferwyr oedd dymuniad i gydweithio gyda rhanddeiliaid o fyd busnes er mwyn dangos i'r disgyblion bod budd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac yn benodol wrth chwilio am waith yn y dyfodol:

‘Byddai’n grêt cael mwy o bartneriaethau gyda’r byd busnes, neu gyda chyflogwyr sy’n siarad Cymraeg er mwyn modelu defnyddio’r Gymraeg mewn byd gwaith.’ (Athro ysgol uwchradd)

Dulliau casglu, cofnodi a dehongli tystiolaeth

- 10.18 Gan fod y prosiect Cymraeg Bob Dydd yn eistedd y tu allan i raglen y Siarter Iaith, nid yw’r dulliau casglu a chofnodi tystiolaeth yr un fath. Nid oes disgwyliad ar ysgolion i gasglu a chofnodi tystiolaeth fanwl ar gyfer y rhaglen, ag eithrio cwblhau holiadur gwerthuso a chofnodi niferoedd. Mae’r data sydd ar gael mewn perthynas â’r prosiect yn ddata monitro (niferoedd ysgolion, niferoedd ymweliadau) sy’n cael ei gofnodi gan yr Urdd a’i gyflwyno yn chwarterol ac yn flynyddol i Lywodraeth Cymru at bwrpasau monitro gwariant.
- 10.19 Mae’r Urdd hefyd yn casglu a chofnodi tystiolaeth o’u cyrsiau preswyl gan ddefnyddio ffurflenni adborth ‘Dweud dy Ddweud.’ Fel rhan o’r ffurflenni adborth, cesglir gwybodaeth ansoddol a meintiol gan y disgyblion sydd yn mynychu’r cyrsiau. Mae’r ffurflenni yn cynnwys cwestiynau am newid i hyder a sgiliau iaith Gymraeg y disgyblion, ac a yw’r cwrs wedi helpu’r disgyblion i benderfynu a ydynt am barhau i astudio’r Gymraeg yn yr ysgol. Nododd swyddogion y rhaglen bod ffocws ar godi ymwybyddiaeth ac annog defnydd o’r Gymraeg drwy ddulliau anffurfiol; gyda hyn mewn golwg, roedd y swyddogion o’r farn bod y data cyfredol a gesglir yn ddigonol fel ffordd o fesur cynnydd.

Monitro cynnydd a sicrhau ansawdd

- 10.20 Fel rhan o’r prosiect, mae pob ysgol sy’n cymryd rhan yn derbyn cyrsiau neu weithdai cyfwerth â £500 gan yr Urdd. Nid oes gofyn i ysgolion werthuso neu fesur cynnydd. Mae adroddiadau blynyddol yr Urdd i Lywodraeth Cymru yn gofnod o ba weithgareddau a ddarparwyd ganddynt i ba ysgolion, ac yn cynnwys crynodeb o ffurflenni gwerthuso gan y bobl ifanc. Tra bod yr adroddiadau blynyddol a chwarterol yn cynnwys data monitro ac adborth gan athrawon a disgyblion yn rhestru sut roeddent wedi’i elwa o’r rhaglen, roedd yn anodd i’r gwerthuswyr ddeall y cyswllt rhwng y deilliannau hyn a’r gweithgareddau yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt.

- 10.21 Yn ystod y cyfweiliadau darparodd ymarferwyr dystiolaeth anecdotaidd o unigolion a oedd wedi penderfynu parhau gyda'r Gymraeg fel pwnc ar lefel uwch neu UG, a hynny yn nhyb yr ymarferwyr o ganlyniad i'w profiadau drwy raglen Cymraeg Bob Dydd - yn arbennig ar ôl mynychu cwrs preswyl. Cyfeiriodd ymarferwyr at enghreifftiau hefyd o gynnydd ymysg disgyblion yn eu hyder a'u defnydd o'r iaith. Fodd bynnag, nododd ymarferwyr eraill nad oedd yn bosibl priodoli'r effeithiau hyn i'r prosiect yn benodol, gan fod dylanwadau ehangach ar y disgyblion, gan gynnwys gweithredu'r cwricwlwm a'r gefnogaeth a geir gan athrawon o ddydd i ddydd. Pwysleisiwyd gan swyddogion ac ymarferwyr mai rôl cefnogi sydd gan y prosiect a'i fod yn 'cyfoethogi eu cyfleoedd nhw' yn hytrach nag yn rhywbeth sy'n gyrru penderfyniadau pobl ifanc.
- 10.22 Yn seiliedig ar yr adroddiadau blynyddol a adolygwyd yn ystod y gwerthusiad, nid yw'r trefniadau monitro a'r dulliau casglu data sydd yn eu lle ar hyn o bryd yn galluogi dealltwriaeth fanwl o effeithiau'r rhaglen. Mae'r Urdd yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn nod a thargedau'r rhaglen. Serch hynny, nid yw'r adroddiadau yn dangos y cyswllt rhwng gweithgareddau'r rhaglen ac unrhyw gynnydd mewn hyder neu ddefnydd o'r Gymraeg, neu unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio'r Gymraeg fel pwnc. Wrth gynllunio rhaglen werthuso ar gyfer y dyfodol, felly, bydd angen sicrhau fod y trefniadau monitro a'r dulliau casglu a dadansoddi data yn ddigon cadarn ar gyfer dealltwriaeth ystyrlon o effeithiau'r rhaglen.

Casgliadau mewn perthynas â Cymraeg Bob Dydd

- Mae'r bartneriaeth rhwng swyddogion yr Urdd ac ymarferwyr yr ysgol yn rhan allweddol o ddyluniad y prosiect ac adroddodd y swyddogion a'r ymarferwyr a gyfwelwyd bod cydweithio effeithiol wrth weithredu'r rhaglen.
- Adroddodd ysgolion a swyddogion bod rhai heriau wrth weithredu'r prosiect, yn benodol canfod amser cyfleus i gynnal gweithgareddau gyda disgyblion a sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd yr holl grwpiau targed.
- Adroddodd ysgolion y byddent yn gwerthfawrogi cyfleoedd i gydweithio'n agosach gyda'u consortia, gydag ysgolion eraill a gyda chynrychiolwyr byd busnes.
- Nid oes disgwyl i ysgolion gasglu a chofnodi tystiolaeth ar gyfer y rhaglen, ac mae'r data sydd ar gael am y prosiect yn ddata monitro yn unig. Gan mai prosiect cymharol fach i gefnogi'r ysgol ydyw roedd y swyddogion prosiect a'r ymarferwyr yn teimlo bod trefniadau casglu data presennol yn addas.
- Mae swyddogion yr Urdd yn cofnodi nifer y gweithgareddau a gynhelir ac yn casglu ffurflenni adborth gan ddisgyblion. Nid oes prosesau monitro cynnydd na sicrhau ansawdd y tu hwnt i'r trefniadau hyn. Mae yna dystiolaeth anecdotaidd o gynnydd yn cael ei rannu mewn adroddiadau blynyddol ond y tu hwnt i hynny roedd rhai swyddogion ac ymarferwyr o'r farn nad oedd modd priodoli unrhyw newid i'r prosiect yn wyneb dylanwadau ehangach ar y disgyblion.
- Mae angen datblygu trefniadau monitro a dulliau casglu data mwy cadarn er mwyn deall effeithiau'r rhaglen.

11. Theorïau newid y Siarter laith a rhaglenni cysylltiedig

Cyflwyniad

- 11.1 Fel rhan o'r gwerthusiad gofynnwyd i'r tîm ymchwil ddehongli a datblygu'r theori newid sydd yn sail i'r Siarter laith a'r rhaglenni cysylltiedig, ac hefyd y theori newid sydd yn sail i'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig. Mae'r bennod hon yn cyflwyno dehongliad o theori newid generig ar gyfer y pedair rhaglen, yn seiliedig ar yr elfennau hynny sy'n gyffredin iddynt. Yn dilyn hyn, ceir disgrifiad o'r theori sy'n unigryw i'r pedair: Siarter laith cynradd, Cymraeg Campus, PCAI (Siarter laith uwchradd) a Cymraeg Bob Dydd. Mae'r bennod yn cloi gyda thrafodaeth ar y materion a fydd yn haeddu ystyriaeth bellach wrth i fanylion gweithredol a theori newid y fframwaith Siarter laith cenedlaethol gael eu datblygu. Y sail ar gyfer y dehongliad isod o'r theori newid yw dadansoddiad o'r ddogfennaeth ar y Siarter laith, sylwadau a gafwyd yn ystod dau weithdy gyda rhanddeiliaid yn ystod y gwerthusiad, ac arsylwadau'r ymchwilwyr ar dystiolaeth a chanfyddiadau'r broses werthuso.
- 11.2 Nid oedd theorïau newid yn bodoli ar gyfer y rhaglenni cyn i'r gwerthusiad gael ei gomisiynu. Datblygwyd ac adolygwyd y theorïau ar gamau penodol yn ystod y gwaith maes, drwy broses a oedd yn rhedeg yn gyfochrog ag elfennau eraill y gwerthusiad, a chawsant eu mireinio wedi i'r gwaith maes ddod i ben. Mae elfen ôl-syllol i'r theorïau newid, yn hynny o beth. Cafodd y drafodaeth ar theori newid y fframwaith cenedlaethol ei chynnal ar sail y wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd ynghylch cynnwys, diwyg ac amcanion y fframwaith.

Trosolwg o theori newid a'i defnyddioldeb yng nghyd-destun y Siarter laith

- 11.3 Mae theori newid yn ddull sy'n esbonio sut y bwriedir i raglen gyflawni ei nodau a'i hamcanion, trwy wneud y cysylltiadau tybiedig rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau tymor hir y rhaglen yn glir. Mae'r dull yn cynnig cyfle i fyfyrïo ar y newidiadau cynnar a thymor canolig a allai ddeillio o raglen, a'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r *Magenta Book*, canllaw Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar werthuso, yn nodi bod deall theori newid yn gofyn am:

- an understanding of how the intervention is expected to work in practice, e.g. the problem the intervention aims to address; the change it aims to bring about; the causal chain of events that are expected to bring about the change; the main actors; the groups expected to be impacted; and the expected conditions required for the intervention to succeed;
- exposing the assumptions upon which the intervention is based and the strength or weakness of the evidence supporting these assumptions;
- an examination of the wider context, such as other policy changes or changes in economic, social and environmental factors;
- designers and implementers of the intervention have the opportunity to stress-test the intervention design and ensure they agree on how the intervention is expected to work.

(Trysorlys EM 2020:24)

11.4 Mae'r bennod hon yn dehongli theori newid y Siarter laith a'r rhaglenni cysylltiedig, gan archwilio i ba raddau y mae dealltwriaeth gytûn o nodau'r rhaglenni a'r newid a fwriedir drwy eu gweithredu. Mae'n cyflwyno'r rhagdybiaethau perthnasol ac yn eu herio, gan gyfeirio'n ôl at y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad.

11.5 Mae'r llenyddiaeth yn y maes yn pwysleisio y gellir defnyddio theori newid ar wahanol adegau yn ystod cylch bywyd rhaglen neu brosiect:

'theory of change thinking can be applied at different stages through the programme cycle [...]. These include pre-planning stages of scoping and strategic analysis, design and planning, and throughout implementation. It can be used to support [...] implementation decision-making and adaptation; to clarify the drivers, internal and external, around an existing initiative; monitor progress and assess impact.' (Vogel 2012:12)


11.6 Er fod y Siarter laith a'r rhaglenni cysylltiedig wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn, mae'r dull yn cynnig cyfle amserol i archwilio cyfres o faterion mewn perthynas â'r rhaglenni. Trwy broses o fyfyrrio beirniadol ar gadernid y theorïau newid hyn, rydym yn tynnu ynghyd sylwadau ac ystyriaethau ar gyfer dyluniad a gweithrediad fframwaith Siarter laith yn y dyfodol.

Theori'r Siarter laith a rhaglenni cysylltiedig

11.7 Mae'r adran hon yn trafod y materion hynny'n sy'n gyffredin i theori newid y pedair rhaglen.

- 11.8 Y theori lefel-uchel sy'n sail i'r rhaglenni yw bod modd dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg drwy gyfres o ymyriadau a gweithgareddau a gynhelir gan ysgolion. Cefnogir y broses hon gan swyddogion consortia, awdurdodau lleol a phartneriaid gweithredu sydd yn cydlynu, cynorthwyo neu'n gyrru'r rhaglenni. Tra bod y mewnbynnau sydd ar gael i gefnogi'r pedair rhaglen yn amrywio, mae cyflawni nodau pob un ohonynt yn ddibynnol ar barodrwydd ysgolion i fuddsoddi amser ac adnoddau ychwanegol i'w gweithrediad. Mae'r theori newid hefyd yn seiliedig ar gyfranogiad gan ymarferwyr a disgyblion, sydd yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am agweddau o gynllunio gweithgareddau.
- 11.9 O ran allbynnau'r rhaglenni, mae disgwyl y bydd gweithredu'r Siarter Iaith a'r rhaglenni cysylltiedig yn cyfoethogi profiadau disgyblion o'r iaith Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, oddi fewn a thu allan i'r ysgol. Y bwriad yw i hyn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion, a gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd i'w defnyddio mewn ystod o sefyllfaoedd cymdeithasol. Amlinella Ffigur 11.1 y gwahanol gamau sy'n gysylltiedig â gweithredu rhaglen y Siarter Iaith fel y mae'n bodoli ar hyn o bryd.

Ffigur 11.1: Dehongli theori newid y Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig



Rhagdybiaethau a ffactorau allanol perthnasol

- 11.10 Y ragdybiaeth sylfaenol sydd ymhlyg o fewn y pedair rhaglen yw bod angen ymyrryd er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc. Rhagdybir hefyd fod modd gwireddu nodau cyffredin y pedair rhaglen o ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg plant drwy gynllunio bwriadus o fewn ysgolion. Y theori yw y bydd plant a phobl ifanc, wrth ddod i gysylltiad â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol drwy'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig, yn dewis defnyddio mwy o Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
- 11.11 Mae sawl rhagdybiaeth arall ymhlyg o fewn y rhaglenni, gan gynnwys materion yn ymwneud â chapasiti a sgiliau athrawon. Rhagdybir yn gyntaf bod penaethiaid a'u staff yn medru canfod yr amser a'r adnoddau i weithredu'r rhaglenni, a hynny heb gymorth ariannol ychwanegol yn y rhan fwyaf o achosion, yn seiliedig ar dystiolaeth gan ysgolion. Yn ail, mae'r rhaglenni yn dibynnu ar allu athrawon i fedru cynllunio a gweithredu'r rhaglenni mewn ffordd bwrpasol ac effeithiol. Yn hyn o beth, rhagdybir bod athrawon yn gallu blaengynllunio a deall y mathau o ymyriadau sy'n debygol o ddylanwadu ar ddefnydd iaith. Rhagdybir bod parodrwydd a brwdfrydedd ymysg uwch-dimau rheoli ac athrawon i ymgymryd â rhaglenni sy'n ymwneud â chynllunio ac annog defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Rhagdybiaeth arall sy'n gyffredin i'r pedair rhaglen yw bod cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ddibynnol ar gynyddu hyder ymysg disgyblion, a bod cynyddu hyder yn eu sgiliau yn arwain at gynydd yn y defnydd o'r Gymraeg.
- 11.12 Mae'n bwysig cydnabod bod ystod o ffactorau allanol eraill yn dylanwadu ar theori newid y rhaglenni hyn. Mae'r rhaglenni yn dibynnu ar y ffaith bod cyfleoedd ar gael i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol, a bod y rhaglenni – sydd yn cael eu gweithredu ledled Cymru – yn berthnasol i gymunedau gydag amrywiaeth o gyd-destunau ieithyddol. Mae cyd-destun ieithyddol teuluoedd, a faint o Gymraeg a siaredir yn y cartref, yn debygol o ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg. Mae amrywiaethau yn nefnydd y Gymraeg ar draws cymunedau Cymru yn golygu

bod yr amodau a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg hefyd yn amrywio.

- 11.13 Ffactor arall sy'n dylanwadu ar weithrediad a chanlyniadau'r rhaglenni yw'r sgiliau ieithyddol y mae disgyblion yn eu datblygu drwy'r gyfundrefn addysg. Mae rhagdybiaeth bod y cwricwlwm yn datblygu sgiliau iaith (ac agweddau cadarnhaol) sy'n golygu bod disgyblion yn medru (ac yn frwd i) ymgymryd â'r cyfleoedd a ddaw o'r rhaglenni. Mae hyn yn rhagdybio bod athrawon eu hunain yn meddu ar y sgiliau ieithyddol angenrheidiol a'r gallu i feithrin y sgiliau hyn ymysg disgyblion, a bod adnoddau digonol ac addas ar gael i'w galluogi i wneud hyn. Mae 'ethos' ysgolion a'r pwysigrwydd a roddir gan athrawon ar ddefnydd y Gymraeg yn gymdeithasol yn ffactor sy'n debygol o ddylanwadu hefyd ar weithrediad a llwyddiant y rhaglenni.
- 11.14 Mae'r dystiolaeth o'r gwerthusiad yn awgrymu bod agweddau cymdeithasol at y Gymraeg, a'r pwys a roddir ar y Gymraeg gan rieni yn benodol, yn dylanwadu ar ymateb disgyblion i'r rhaglenni. Mae canfyddiadau cymdeithas o bwysigrwydd a pherthnasedd y Gymraeg yn ffactor allanol arwyddocaol. Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau ynghylch gwerth y Gymraeg ar gyfer y farchnad lafur a'i phwysigrwydd yn ddiwylliannol.
- 11.15 Un ffactor allanol pellach ac arwyddocaol yw'r cyd-destun polisi ehangach. Mae Cymraeg 2050 yn ymrwmo i sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol. Ceir adran yn y strategaeth honno ar y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, sy'n pwysleisio'r angen i '[d]rwytho plant a phobl ifanc mewn agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith' (Llywodraeth Cymru 2017a:56). Mae cydberthynas allweddol, felly, rhwng y Siarter Iaith a'r rhaglenni cysylltiedig, a'r cynnydd a wneir tuag at dargedau Cymraeg 2050. Bydd effeithiolrwydd gweithredu'r strategaeth yn dylanwadu ar sut y bydd plant a phobl ifanc yn defnyddio ac yn ymagweddu tuag at y Gymraeg; ar yr un pryd, bydd effeithiolrwydd a thraweffeithiau'r y Siarter Iaith a'r rhaglenni cysylltiedig yn dylanwadu ar deilliannau'r strategaeth. Mae cydberthynas hefyd rhwng y Siarter Iaith a thargedau ac amcanion y Cynllun Gweithredu Y Gymraeg mewn addysg 2017-21.

Nodweddion penodol theori newid y Siarter Iaith Cynradd

- 11.16 Mae gan y Siarter Iaith Cynradd nodweddion sy'n ei gwahaniaethu o'r rhaglenni eraill. O ran y mewnbynnau sydd ar gael, dyrennir cyllid gan Lywodraeth Cymru i'r consortia rhanbarthol i gydlynw'r rhaglen, gyda rhan o'r cyllid hwn yn cael ei ddosbarthu yn uniongyrchol i ysgolion mewn rhai rhanbarthau. Cefnogir gweithrediad y Siarter Iaith Cynradd drwy'r deunyddiau marchnata a brandio a ddatblygwyd yn genedlaethol.
- 11.17 Wrth weithredu'r rhaglen, anogir ysgolion i lunio rhaglen weithredu sy'n adlewyrchu eu gweledigaeth a'u blaenoriaethu er mwyn 'ysbrydoli [...] plant a phobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau' (Llywodraeth Cymru 2016a:2). Mae disgwyl i'r rhaglenni hyn gael eu llywio gan ddata a gwybodaeth a gesglir gan ddisgyblion ar y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar ddechrau blwyddyn ysgol. Disgwylir bod yr holiaduron Gwe Iaith hyn yn cynnig '[t]ystiolaeth bendant o'r sefyllfa ieithyddol ymhob ysgol' (Llywodraeth Cymru 2016a:4) fel sail ar gyfer cynllunio gweithgareddau Siarter Iaith.
- 11.18 Mae'r rhaglen Siarter Iaith Cynradd yn cynnwys system wobrwyo lle mae ysgolion yn derbyn 'gwobrau' efydd, arian neu aur wrth iddynt weithredu'u cynlluniau a chyflawni cyfres o dargedau. Bwriad y system wobrwyo hon yw sefydlu a chynnal brwdfrydedd cyfranogwyr. Fel rhan o weithrediad y Siarter, ac er mwyn cyrraedd y deilliannau ar gyfer y gwahanol wobrau, mae gofyn i ysgolion Siarter Iaith weithio mewn partneriaeth gyda chymuned ehangach yr ysgol.

Siarter Iaith Cynradd: rhagdybiaethau a ffactorau allanol perthnasol

- 11.19 Mae cyfres o ragdybiaethau a dibyniaethau yn sail i ddyluniad a gweithrediad y Siarter Iaith (yn ogystal â'r materion hynny a nodwyd sy'n gyffredin i'r holl raglenni).
- 11.20 Yn gyntaf, ceir rhagdybiaeth bod ysgolion yn medru, ac yn dewis, buddsoddi amser er mwyn sefydlu dealltwriaeth o ddefnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg a'u bod yn ymrwymedig i geisio cryfhau'r defnydd hwnnw. Mae canllaw Llywodraeth Cymru yn nodi bod holiaduron Gwe Iaith yn '[dd]ull addas o osod gwaelodlin' (Llywodraeth Cymru 2016a:4). Mae hefyd yn datgan bod

modd i ysgolion, drwy 'ail-ymweld â'r holiadur efo'r un cwestiynau ar ôl cyfnod', weld beth fydd effaith gweithredu'r Siarter 'ar agweddau a defnydd o'r Gymraeg gan y disgyblion' (Llywodraeth Cymru 2016a:4). Mae'r canllaw yn cyfeirio at hwn fel dull o 'fesur llwyddiant' ymyriadau (Llywodraeth Cymru 2016a:4). Rhagdybir, felly, bod y Gwe Iaith yn ddull effeithiol o gefnogi cynllunio a thracio newidiadau mewn defnydd iaith. Mae'r Gwe Iaith yn ddull o gasglu data ynghylch defnydd iaith a chofnodi newid neu gynnydd o fewn un flwyddyn academaidd, hyd at bwynt. Mae cymharu data Gwe Iaith dosbarth neu garfan o ddisgyblion ar ddechrau ac ar ddiwedd blwyddyn ysgol yn gallu dangos newid yn defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig deall cyfyngiadau'r data hwn: mae angen bod yn ymwybodol y gallai ffactorau ar wahân i weithgareddau'r Siarter iaith fod yn dylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion; nid yw'n ffynhonnell gadarn ar gyfer mesur llwyddiant a deilliannau hirdymor y rhaglen yn fwy eang, na chwaith yn addas er mwyn cymharu cynnydd rhwng ysgolion neu ardaloedd. Wrth edrych tua'r dyfodol bydd gofyn datblygu dulliau gwerthuso mwy cadarn er mwyn mesur traweffaith.

- 11.21 Mae tystiolaeth y gwerthusiad yn awgrymu bod amrywiaethau yn y ffordd y mae gwahanol garfannau yn dehongli diben a data'r Gwe Iaith. Tra bod rhai yn ei weld fel erfyn cynllunio, mae rhai ymarferwyr yn ei weld fel ffordd o fesur cynnydd neu fel mesur o effeithiolrwydd y rhaglen. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y gwahanol ddehongliadau hyn drwy'r defnydd o dermau megis 'gwaelodlin', 'mesur llwyddiant' a 'mesur effaith' wrth drin a thrafod data'r Gwe Iaith.
- 11.22 Rhagdybir bod y system o wobrwyo ysgolion sy'n rhan o'r Siarter Iaith yn ffordd addas o gefnogi a dylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion, sef y newid a ddymunir drwy'r rhaglen. Rhagdybir hefyd ei bod hi'n bwysig bod 'pawb yn cael eu gwobrwyo ar sail eu hymdrechion' (Llywodraeth Cymru 2016a:3) a bod y system wobrwyo yn ffordd effeithiol o nodi a dathlu cynnydd wrth i ysgolion weithredu'r rhaglen. Tybir hefyd fod y gwobrau efydd, arian ac aur yn gymhellant i ysgolion ddatblygu cynlluniau fwyfwy uchelgeisiol dros amser ac yn cynnig cerrig milltir i'w dathlu ar lefel ysgol-gyfan. Adroddodd mwyafrif yr athrawon a gyfrannodd i'r gwerthusiad eu bod yn gweld gwerth y gwobrau fel rhywbeth i ysgolion anelu tuag atynt: dengys y dystiolaeth bod disgyblion, yn

enwedig aelodau Criwiau Cymraeg, yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod wedi cyfrannu tuag at gyrraedd gwobr.

- 11.23 Ar ôl cyrraedd y wobr aur, y nod i ysgolion yw cynnal gofynion y wobr dros amser. Nid yw'n fwriad, felly, bod ysgolion yn 'cwblhau'r' Siarter laith. Nododd swyddogion polisi cenedlaethol a rhanbarthol eu bod yn gobeithio bod ysgolion yn integreiddio gweithgareddau a deilliannau'r Siarter o fewn eu cynllunio strategol lefel-ysgol mewn ffordd barhaus. Serch hynny, wrth drafod gyda chydlynwyr Siarter laith a swyddogion consortia, amlygwyd y risg bod rhai ysgolion yn cysylltu eu hymwneud â'r Siarter gyda'r broses ddilysu, ac yn mynd ati i gyflawni gwobrau gydag ymagwedd o gydymffurfio â'r gofynion.
- 11.24 Rhagdybir bod gan athrawon y capasiti a'r sgiliau i arwain ar y Siarter laith o fewn eu hysgolion, gan gynnwys cydlynw, gweithredu a hunanwerthuso'r rhaglen. Yn ystod y gwerthusiad, cafwyd tystiolaeth bod ymrwymiad ac ewylllys da gan ysgolion ac athrawon, yn gyffredinol, tuag at weithrediad y Siarter. Mae ysgolion yn buddsoddi amser ac adnoddau i weithredu'r rhaglen, sydd yn dyst i'r ffaith bod ysgolion yn cefnogi nod y Siarter. Fodd bynnag, mae cynllunio iaith yn ddisgyblaeth arbenigol ac mae trefnu cyfres o weithgareddau amrywiol yn gofyn am amser (yn cynnwys i gysylltu a threfnu gyda phartneriaid allanol) a chyllid. Heb fewnbwn gan gydlynwyr Siarter laith i gynllunio gweithgareddau mewn ffordd strategol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm, mae tuedd i nifer o ysgolion ail-adrodd gweithgareddau yn flynyddol, neu i wahodd yr un unigolion neu fudiadau i arwain sesiynau gyda disgyblion. Gellid cwestiynu a yw'r gweithgareddau yn ymateb i gynllunio pwrpasol, neu yn hytrach yn arwydd bod ysgolion yn trefnu gweithgareddau ar sail yr hyn sydd fwyaf cyfleus.
- 11.25 Mae'r canllaw cenedlaethol ar gyfer y Siarter laith yn gofyn am gefnogaeth a chyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol (Llywodraeth Cymru 2016a:2). Mae rhagdybiaeth bod ymrwymiad i'r rhaglen ymysg uwch reolwyr yr ysgol, y tîm staff, ynghyd â chymuned ehangach yr ysgol (llywodraethwyr, rhieni). Rhagdybir eu bod yn cefnogi'r egwyddor o hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac yn ymgysylltu â gweithrediad y rhaglen. Mae'r gwerthusiad wedi cadarnhau bod lefelau uchel o gefnogaeth ac ymrwymiad i'r Siarter laith ar draws ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Fel y nodwyd eisoes, mae

penaethiaid a staff ysgolion yn neilltuo amser ac adnoddau i'w gweithredu – er nad yw'n elfen statudol o'r cwricwlwm. Mae tystiolaeth gan athrawon, llywodraethwyr a rhieni yn awgrymu nad oes gan y gymuned ehangach rôl amlwg, yn gyffredinol, yng ngweithrediad y rhaglen. Canfu'r gwerthusiad mai unigolion allweddol – cydlynwyr Siarter Iaith, fel rheol – sy'n tueddu i gymryd cyfrifoldeb am yrru'r Siarter o fewn eu hysgolion.

Nodweddion penodol theori newid Cymraeg Campus

- 11.26 I raddau helaeth, mae theori newid Cymraeg Campus yn adlewyrchu theori'r Siarter Iaith. Tra bod Cymraeg Campus yn cael ei weithredu ar draws ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae'r rhaglen serch hynny yn rhannu nifer o'r un nodweddion â'r Siarter ac mae ei nod sylfaenol o hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant yn adlewyrchu nod y rhaglen wreiddiol a ddatblygwyd ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.
- 11.27 Rhagdybir bod modd cyflawni'r nodau hyn drwy annog ysgolion i gwblhau rhaglen weithredu sydd yn arwain at ysgolion yn derbyn gwobrau efydd, arian ac aur i gydnabod eu cynnydd. Un gwahaniaeth rhwng Cymraeg Campus a'r Siarter Iaith cynradd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yw bod llai o bwyslais ar ddatblygu a theilwra cynlluniau gweithredu unigryw ar gyfer ysgolion yn y sector cyfrwng Saesneg. Yn lle hyn, ceir cyfres o dargedau a meini prawf cysylltiedig a chyffredin y mae pob ysgol yn gweithio tuag atynt er mwyn cyflawni'r gwobrau.
- 11.28 Mae'r canllaw ar gyfer y rhaglen yn nodi bod y meini prawf yn seiliedig ar gamau 'a adnabyddir fel arfer dda, ac felly dylai pob ysgol fedru eu gweithredu' (ERW 2016:3). Mae rhagdybiaethau ymhlyg o fewn y datganiad hwn: yn gyntaf, bod arfer dda wedi'i hymchwilio a'i phrofi; ac yn ail, bod ysgolion mewn gwahanol amgylchiadau (o ran sgiliau iaith staff, cefndiroedd ieithyddol disgyblion, amgylchiadau dysgu a chymdeithasol) yn medru gweithredu'r rhaglen, beth bynnag yw eu mannau cychwyn.

Rhagdybiaethau a ffactorau allanol perthnasol

- 11.29 Rhagdybir y bydd gweithredu rhaglen Cymraeg Campus yn cyfoethogi profiadau disgyblion o'r iaith Gymraeg ac yn codi statws yr iaith o fewn ysgolion. Y theori yw y bydd ysgolion, trwy weithio tuag at y meini prawf sy'n rhan o'r

gwahanol wobrau, yn: cynyddu dealltwriaeth a pharch tuag at yr iaith Gymraeg ymysg disgyblion; yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd o fewn a thu allan i'r dosbarth, gan fagu hyder disgyblion yn eu sgiliau iaith; a symud tuag at addysgu agweddau o rai pynciau yn y Gymraeg (ERW 2016:17-19).

- 11.30 Mae tystiolaeth gan ysgolion a gyfrannodd i'r gwerthusiad yn awgrymu bod y rhaglen yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg disgyblion a staff. Mae fformat strwythuredig a fformiwläig Cymraeg Campus, ynghyd â'r meini prawf gofynnol ar gyfer bob gwobr, yn gosod camau pendant i ysgolion eu dilyn er mwyn hyrwyddo manteision dysgu a defnyddio'r Gymraeg.
- 11.31 Mae ffactorau allanol a heriau penodol yn gysylltiedig â gwireddu'r nod o gynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg disgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf Estyn yn dangos bod ysgolion yn dechrau o waelodlin isel:

'Mewn gormod o ysgolion, mae medrau darllen Cymraeg disgyblion yn wan, ac nid oes proffil ddigon uchel i'r Gymraeg. Yn aml, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o gwestiynau a geirfa sylfaenol yn y cyfnod sylfaen, ond mae'r cynnydd cynnar da hwn yn peidio yng nghyfnod allweddol 2. Nid yw'r gallu gan ddisgyblion i siarad yn hyderus. Mae hyn yn aml yn adlewyrchu ansawdd gwan y ddarpariaeth a hyder cyfyngedig athrawon wrth siarad yr iaith mewn ystod o sefyllfaoedd.' (Estyn 2020:79)

- 11.32 Rhagdybir bod disgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn meddu ar y sgiliau iaith a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol, ac yn meddu ar eirfa ddigonol yn y Gymraeg i fedru dechrau dysgu agweddau o bynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg (ERW 2016:17-19). Mae'r 'meini prawf llwyddiant' ar gyfer cyrraedd y gwobrau arian ac aur yn cyfeirio at ddisgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd y tu fewn a thu allan i'r dosbarth (ERW 2016:18-19). Mae'r disgwyliadau hyn yn amlygu heriau a chwestiynau pwysig o ran lefel y sgiliau iaith Gymraeg y mae disgyblion yn eu datblygu yn y sector cyfrwng Saesneg.

Nodweddion penodol theori newid PCAI/Siarter iaith uwchradd

- 11.33 Mae theori newid PCAI yn seiliedig ar y ffaith bod arian grant yn caniatáu i ysgolion gynllunio a gweithredu prosiectau sy'n hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion iaith disgyblion. Ariennir

gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ddisgyblion hŷn mewn ysgolion uwchradd gyda phwyslais ar geisio dylanwadu ar arferion iaith cymdeithasol plant iau.

Rhagdybiaethau a ffactorau allanol perthnasol

- 11.34 Rhagdybir bod gan ysgolion ddealltwriaeth o'r mathau o weithgareddau neu brosiectau sydd fwyaf tebygol o lwyddo wrth annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Rhagdybir hefyd bod modd adrodd ar allbynnau a chanlyniadau prosiectau a gefnogir drwy PCAI, a bod ysgolion yn bwydo nôl ar ganlyniadau eu prosiectau i swyddogion consortia er mwyn i'r consortia ddarparu adroddiadau monitro i Lywodraeth Cymru. Serch hynny, nid oedd y llinellau atebolrwydd yn hollol glir yn ystod y gwerthusiad, a theimlir bod lle i gryfhau'r elfen graffu a gwerthuso er mwyn deall y newidiadau sy'n deillio o'r gweithgareddau ar draws ysgolion uwchradd.

Nodweddion penodol theori newid Cymraeg Bob Dydd

- 11.35 Mae rhaglen Cymraeg Bob Dydd yn anelu i ymestyn defnydd disgyblion o'r Gymraeg drwy gyfrwng cyfres o ymyriadau byrion ac 'ysgafn'. Mae'n cynnwys targedau i gynyddu hyder a defnydd o'r iaith a chynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis i barhau i astudio'r Gymraeg. Nid yw gweithgareddau Cymraeg Bob Dydd yn ffurfio rhan o gyfres o gamau tuag at wobrau neu gerrig milltir ar lefel ysgol (fel yn achos y Siarter Iaith, Cymraeg Campus) ond yn hytrach yn cynnig gweithgareddau a chefnogaeth i ddisgyblion unigol o fewn ysgolion. Nid yw'n gweithredu ym mhob ysgol ac nid yw pob disgybl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn yr ysgolion sydd yn rhan o'r rhaglen. Yn hynny o beth, mae strwythur a graddfa'r rhaglen yn wahanol i'r tair rhaglen arall.

Rhagdybiaethau a ffactorau allanol perthnasol

- 11.36 Rhagdybir bod profiadau yn ystod cyrsiau preswyl yn cynyddu hyder disgyblion, yn cynnig profiadau yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac yn annog dysgwyr i benderfynu i barhau i ddysgu'r iaith. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith bod y profiadau a'r gweithgareddau y mae disgyblion yn eu dilyn yn effeithiol fel sbardun i gynyddu defnydd, h.y. rhagdybir bod yr Urdd, fel y mudiad sy'n gweithredu'r rhaglen, yn deall pa fathau o ymyriadau sy'n debygol o

gynyddu defnydd iaith a dylanwadu ar benderfyniadau disgyblion i ddal ati i ddysgu'r iaith.

- 11.37 Mae gofyn bod gan ddisgyblion ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg sylfaen o sgiliau iaith Gymraeg y mae modd adeiladu arnynt. Rhagdybir hefyd bod cefnogaeth ar lefel ysgol a bod cyfleoedd i ddysgwyr i barhau i astudio'r Gymraeg ar draws y gwahanol gyfnodau addysg.
- 11.38 Mae'r rhaglen wedi symud tuag at weithio mewn ffordd fwy dwys gyda nifer llai o ysgolion. Nid yw'n glir, fodd bynnag, a yw'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar adolygiad o'r hyn sydd wedi profi'n effeithiol dros amser wrth weithio gydag ysgolion ar y rhaglen. Rhagdybir bod yr ysgolion hynny a dargedir yn croesawu'r cyfle i'w disgyblion fod yn rhan o nifer uwch o weithgareddau allgyrsiol.
- 11.39 Bydd angen rhoi camau mewn lle i sicrhau fod effeithiau'r symudiad tuag at weithio'n fwy dwys gyda nifer llai o ysgolion yn cael eu mesur. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod Cymraeg Bob Dydd yn rhaglen llai dwys na'r rhaglenni eraill sydd yn rhan o'r gwerthusiad hwn. Yn ogystal, er y gall nifer sylweddol o ddisgyblion gymryd rhan yn y rhaglen yn ystod blwyddyn academiaidd, yn nghyd-destun cyfanswm yr holl ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, mae nifer y cyfranogwyr yn gymharol fechan. Wrth gynllunio dyfodol y rhaglen a'r dulliau gwerthuso i'w chefnogi, bydd angen rhoi sylw, felly, i faterion yn ymwneud â dwyster a graddfa'r rhaglen.

Theori newid y fframwaith cenedlaethol a gwerthuso i'r dyfodol

- 11.40 Cyhoeddwyd canllaw cychwynnol fframwaith cenedlaethol y Siarter Iaith yn Ebrill 2019, ac fe'i ddisgrifir fel 'un fframwaith cenedlaethol, [yn] adeiladu ar y cynlluniau presennol yn cynnwys y Siarter Iaith, Cymraeg Campus a'r prosiect cefnogi arferion iaith' (Llywodraeth Cymru 2019:5). Mae'r ffaith nad oes cyfeiriad at Cymraeg Bob Dydd yng nghyd-destun y bwriad i adeiladu ar gynlluniau presennol yn codi cwestiwn am y berthynas rhwng y rhaglen honno a'r rhaglenni eraill.

11.41 Nod y fframwaith, fel y'i diffiniwyd yn y canllaw cychwynnol, yw:

‘sefydlu arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith trwy gynllunio bwriadus o fewn ysgolion a hybu defnydd anffurfiol ohoni ymhlith dysgwyr y tu fewn a thu allan i'r ysgol, gan ddod â phartneriaid eraill ynghyd i weithredu. Bydd hwyluso defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau ehangach, gyda dilyniant ieithyddol wedi'i gynllunio ar hyd pob cyfnod o addysg, yn cynnig cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddod yn gwbl ddwyieithog.’ (Llywodraeth Cymru 2019:5)

11.42 Yn ystod y cyfnod gwerthuso, er bod y fframwaith wedi'i gyhoeddi, nid oedd wedi'i lansio yn ffurfiol, ac roedd y Siarter Iaith a'r rhaglenni cysylltiedig yn parhau i gael eu cyflwyno yn yr un modd ag yr oeddynt ynghynt. Roedd rhai cyfyngiadau ar yr hyn roedd modd ei gyflawni o ran archwilio amcanion a dulliau gweithredu arfaethedig y fframwaith newydd. Oherwydd hynny, bydd angen parhau i ddatblygu'r theori newid wrth i'r fframwaith gael ei ddatblygu mewn mwy o fanylder.

11.43 Gwelir felly fod sylw yn cael ei roi i'r elfennau canlynol:

- arferion ac agweddau cadarnhaol;
- cynllunio bwriadus;
- hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg y tu fewn a thu allan i'r ysgol;
- cydweithio â phartneriaid;
- hwyluso defnydd y Gymraeg ar draws y cwricwlwm;
- cynllunio dilyniant ieithyddol ar hyd pob cyfnod addysg;
- cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddod yn gwbl ddwyieithog.

11.44 Bydd nifer o'r mewnbynnau sydd wedi eu trafod eisoes yng nghyd-destun y rhaglenni unigol yn berthnasol i theori newid y fframwaith: y cyllid a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru; adnoddau ac amser staff ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol, sirol ac ysgol, ac adnoddau ac amser staff partneriaid allanol.

11.45 Mae'r weledigaeth ar gyfer y fframwaith cenedlaethol yn amlygu amcanion newydd yn ogystal, sef hwyluso defnydd y Gymraeg ar draws y cwricwlwm, a chynllunio dilyniant addysg o un cyfnod i'r nesaf. Bydd angen i'r rhagdybiaethau a'r amodau allanol yn y theori newid adlewyrchu cyd-destun ehangach y datblygiadau cwricwlaidd sydd eisoes ar y gweill, ac a fydd yn parhau i gael eu datblygu yn y cyfnod yn arwain at, ac yn dilyn 2022. Bydd deall y llwybr rhesymeg rhwng meddu ar y sgiliau ieithyddol angenrheidiol ac awydd neu

barodrwydd dysgwyr i'w defnyddio yn elfen bwysig o'r theori newid – yn yr un modd ag y bydd deall natur y gydberthynas rhwng hyder, gallu a defnydd ieithyddol. Bydd angen i theori newid ar gyfer y fframwaith cenedlaethol ymgorffori'r dimensiwn ychwanegol o ddilyniant rhwng cyfnodau addysg. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr ymyriadau a'r gefnogaeth sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn gweld y Gymraeg fel rhywbeth sydd yn berthnasol i'w bywydau.

11.46 Bydd nifer o'r rhagdybiaethau sydd wedi eu hamlygu eisoes yng nghyd-destun y pedair rhaglen yn gofyn am ystyriaeth bellach ac ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- bod angen ymyrryd i gefnogi defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion, waeth beth yw hyd a lled eu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg;
- bod modd dylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion drwy gynllunio bwriadus;
- bod gwobrwyo dysgwyr yn ffordd effeithiol o newid neu gadarnhau ymddygiad ieithyddol – gyda chwestiwn pellach yn codi o ran priodoldeb gwahanol ddulliau cymhelliant ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau.

11.47 Ymhlith y rhagdybiaethau mwyaf sylfaenol, fodd bynnag, mae'r rhagdybiaeth mai cynnal ac adeiladu ar y rhaglenni cyfredol yw'r ffordd fwyaf addas o gyflawni'r nodau a restrir yn y fframwaith cenedlaethol. Y weledigaeth a fydd yn gosod cyfeiriad ar gyfer holl lwybrau rhesymeg y theori newid yw'r un sydd wedi ei datgan yn *Cymraeg 2050*, sef cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gyda'r targed cysylltiedig o weld canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, yn cynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

Datblygu cynigion posibl ar gyfer dylunio gwerthusiad o ddeilliannau'r fframwaith Siarter Iaith yn y dyfodol

11.48 Mae'r adran hon yn cyflwyno trafodaeth ar ddulliau posibl o werthuso'r fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol, er mwyn gosod cyfeiriad ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Un anhawster sylfaenol wrth ymgymryd â'r dasg hon yw diffyg eglurder ar yr hyn fydd yn newid wrth symud tuag at weithredu'r rhaglenni

unigol o fewn cyd-destun y fframwaith cenedlaethol. Cyfeiria'r canllaw cychwynnol i ysgolion at y bwriad i 'adeiladu ar y cynlluniau presennol' ac at 'sicrhau dilyniant a llwybr di-dor o gefnogaeth i ddysgwyr'. Mae'n bosibl dehongli'r fframwaith cenedlaethol, felly, fel ymdrech i gorlannu'r rhaglenni unigol gan sicrhau bod y rhaglenni hynny yn gweithio tuag at nodau a deilliannau cyffredin.

11.49 Y nodau ar gyfer y fframwaith cenedlaethol yw sicrhau bod dysgwyr yn

- hyderus i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg;
- meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith;
- cynyddu defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ysgol.

Mae amcanion y rhaglenni unigol, fel y'u hamlinellwyd mewn adrannau blaenorol o'r adroddiad, yn adlewyrchu'r nodau hyn, gyda'r pwyslais mwyaf amlwg ar y trydydd nod, sef cynyddu defnydd o'r iaith y tu fewn i'r ysgol ac yn gymdeithasol. Mae cyfeiriad yn amcanion y Siarter Iaith cynradd, Cymraeg Campus a Cymraeg Bob Dydd at newid agweddau ac at godi hyder ieithyddol.

11.50 Mae cyswllt felly rhwng amcanion y rhaglenni unigol cyfredol a nodau'r fframwaith. Teg dweud, fodd bynnag, bod bylchau yn ein dealltwriaeth ni fel gwerthuswyr o gyfraniad y rhaglenni tuag at y nodau hyn. Yng nghyd-destun y Siarter Iaith cynradd a Cymraeg Campus, er enghraifft, mae'r data sydd ar gael ar y newid yn nefnydd iaith ac agweddau yn ddata lefel dosbarth neu lefel ysgol. Tra bod llawer iawn o ddata yn cael ei gasglu drwy'r Gwe Iaith, ac yn cael ei goladu gan gonsortia, nid yw'n darparu darlun cyflawn o'r newidiadau sy'n deillio o'r rhaglenni. Mae'n cuddio amrywiadau o ddosbarth i ddosbarth ac o ysgol i ysgol ac nid oes modd defnyddio'r data i ddadansoddi neu gymharu effeithiau'r rhaglenni ar y lefel genedlaethol. Mae'r data yn seiliedig hefyd ar hunan-adrodd, sydd yn gosod cyfyngiadau ar gadernid y data. O gymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth, nid yw'r Gwe Iaith yn ffynhonnell gadarn ar gyfer mesur cynnydd a dangos traweffeithiau ar lefel rhaglen.

11.51 Mae dulliau data eraill y gellid eu mabwysiadu fel ffordd o fesur newidiadau dros amser i hyder, agweddau neu ddefnydd iaith. Byddai casglu data drwy arolygon hydredol yn un ffordd bosibl o dargedu samplau cynrychioliadol o blant sydd

wedi cymryd rhan yn y gwahanol raglenni yn bosibl, ond yn broblematic. Byddai modd dadansoddi'r data ac adrodd ar y newidiadau a welwyd o fewn gwahanol grwpiau. Serch hynny, ni fyddai modd priodoli'r newidiadau a welir i ddylanwad rhaglenni neu ymyriadau penodol, a hynny oherwydd y ffaith bod defnydd ac arferion iaith wedi'u cydblethu ag ystod o ffactorau allanol.

- 11.52 Y casgliad felly yw bod angen cynllun ymchwil a gwerthuso sy'n addas ar gyfer archwilio'r ffactorau allanol a'r rhagdybiaethau hyn mewn ffordd fanwl ac ystyrlon. Gallai defnyddio dull dadansoddi cyfraniadau fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwneud hyn (Trysorlys EM 2020: Atodiad A). Mae dadansoddi cyfraniadau yn ddull strwythuredig o geisio deall i ba raddau y mae unrhyw ganlyniadau wedi digwydd oherwydd gweithgareddau penodol y rhaglen yn hytrach nag o ganlyniad i ffactorau eraill.
- 11.53 Mae datblygu theori newid yn gam cyntaf allweddol mewn dadansoddiad cyfraniadau. Mae'r theori sydd wedi ei hamlinellu uchod yn nodi'r cyswllt rhwng y gweithgareddau a'r canlyniadau a geisir, ynghyd â rhai o'r dylanwadau allanol sy'n chwarae rôl. Y cam nesaf mewn dadansoddiad cyfraniadau fyddai cadarnhau'r data a'r dystiolaeth bresennol, ond fel nodwyd eisoes y mae heriau o ran data yn ymwneud â'r rhaglenni.
- 11.54 Mae angen asesu'r cysylltiadau a'r rhagdybiaethau yn y theori newid ar y pwynt hwn hefyd a cheisio'u cadarnhau neu eu diystyru cyn bwrw ati i chwilio am dystiolaeth ychwanegol. Hwyrach y bydd angen haenau pellach i'r theori newid ar ôl asesu'r cysylltiadau sydd ymhlyg yn y fframwaith cenedlaethol yn fanwl, ac angen egluro'r gwahanol lwybrau y gallai disgyblion ac ymarferwyr o wahanol sectorau a chyfnodau addysg eu dilyn trwy'r rhaglen.
- 11.55 Cyn cynllunio gwerthusiad o ddeilliannau'r fframwaith Siarter iaith cenedlaethol bydd angen ystyried nifer o gwestiynau ymhellach. Cam allweddol o'r dull dadansoddiad cyfraniadau fyddai archwilio'r materion canlynol:
- Gwirio'r rhagdybiaeth bod angen ymyrryd i gefnogi defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion;

- Adolygu cryfder y dystiolaeth o blaid cynnal y rhaglenni unigol. Archwilio a oes dulliau eraill posibl mwy effeithiol o gyflawni nodau'r fframwaith cenedlaethol;
 - Gwirio bod amcanion y prosiectau unigol wedi'u cyfleu mewn ffordd sy'n ddealladwy i'r holl gyfranogwyr, yn enwedig o ran eu cyfraniad tuag at dri nod y fframwaith.
 - Ceisio deall dylanwad ffactorau allanol, yn cynnwys rhieni, y gymuned ehangach, a phartneriaid ieithyddol ehangach yr ysgol.
- 11.56 Y cam olaf mewn dadansoddiad cyfraniadau fyddai adolygu'r theori a'i chryfhau gan ddefnyddio'r dystiolaeth ychwanegol: gallai tystiolaeth ychwanegol gryfhau'r theori a'i gwneud yn sylfaen fwy cadarn ar gyfer unrhyw werthusiad yn y dyfodol.
- 11.57 Cesglir, felly, fod angen gwaith pellach cyn mynd ati i gynllunio gwerthusiad o draweffeithiau'r fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol. Dylid archwilio o'r newydd y rhesymeg y tu ôl i ddyluniad y fframwaith a rhoi ystyriaeth i'r ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar allu'r rhaglenni i gyflawni'r nodau.
- 11.58 Ymhlith y tasgau penodol y bydd angen eu cyflawni wrth ddatblygu'r fframwaith cenedlaethol ymhellach a chynllunio gwerthusiad traweffaith mae'r canlynol:
- Cadarnhau'r rhesymeg ar gyfer targedu neu gynnwys ysgolion yn y gwahanol raglenni. Fel rhan o hyn dylid ystyried dwyster y rhaglenni, yn cynnwys am ba hyd y disgwylir i ysgolion weithredu rhaglenni a phryd y gellid disgwyl gweld newid. Yn ogystal, dylid ystyried sut y gellid adeiladu cynaliadwyedd o fewn y fframwaith, a sicrhau bod y rhaglenni wedi'u cynllunio mewn ffordd sydd yn cefnogi newidiadau i ymddygiad ac agweddau dros yr hirdymor.
 - Mapio'r ffynonellau data cyfredol ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn nodau'r fframwaith;
 - Ystyried dichonoldeb a chryfder dulliau amgen o gasglu tystiolaeth ar draweffeithiau'r rhaglenni, gan gynnwys arsylwadau o fewn ysgolion sy'n rhan o'r rhaglenni (a chan ystyried yn llawn y goblygiadau o ran adnoddau a moeseg sy'n gysylltiedig â dulliau amgen).

- Ystyried a yw graddfa a dwyster y rhaglenni presennol yn ddigonol i gyflawni nodau'r fframwaith cenedlaethol. Nodwyd eisoes bod Cymraeg Bob Dydd, yn benodol, yn rhaglen a weithredir ar raddfa gymharol fach ar draws sampl o ysgolion yn unig. O ganlyniad, mae angen bod yn realistig ynghylch cyfraniad disgwyledig rhaglen o'r fath at nodau'r fframwaith. Mae maint a dwyster y rhaglenni eraill yn amrywio. Bydd angen i'r theori newid ystyried dwyster a chwmpas y rhaglenni er mwyn cynnal asesiad ystyrlon o'u dylanwad yn y dyfodol. Gallai hyn arwain at drafodaeth bellach ar hyd a lled yr ymyriadau sydd eu hangen er mwyn cyflawni nodau'r fframwaith.

12. Casgliadau ac argymhellion

Cyd-destun a heriau'r gwerthusiad hwn

- 12.1 Cafwyd sawl her wrth gynnal y gwerthusiad hwn o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig. Mae'n briodol eu nodi yma ar ddechrau'r bennod gan eu bod yn cynnig arsylwadau ar natur y dasg. Bwriedir i'r sylwadau osod y cyd-destun ar gyfer y casgliadau a'r argymhellion sy'n dilyn.
- 12.2 Un her a wynebwyd oedd natur aml-haenog y dasg. Gofynnwyd i'r gwerthusiad archwilio cyfres o raglenni a chanddynt y nod cyffredin o gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion ysgol. Mae nifer sylweddol o wahaniaethau rhwng y rhaglenni. Lansiwyd y rhaglenni ar wahanol bwyntiau mewn amser, a gellid dweud eu bod ar wahanol daflwybrau, wrth iddynt esblygu dros amser. Maent yn targedu dysgwyr a chanddynt amrediad o sgiliau iaith mewn gwahanol leoliadau addysg. Mewn rhai achosion, cawsom anhawster deall i ba raddau yr oedd dealltwriaeth gyffredin o amcanion a disgwyliadau rhaglenni ymysg y gwahanol bartneriaid. Ceir amrywiadau yn y ffordd y'u gweithredir ar draws Cymru, fel y mae'r adroddiad yn amlinellu. Ystyrir bod yr hyblygrwydd sydd gan gonsortia ac ysgolion i weithredu'r Siarter Iaith a rhaglenni eraill yn y ffordd fwyaf addas yn gryfder. Fodd bynnag, golyga hyn hefyd bod y gwerthusiad wedi trin a thrafod ystod eang o brofiadau o'r rhaglenni, i'r graddau lle roedd yn anodd weithiau hoelio yr hyn oedd yn cael ei werthuso.
- 12.3 Cynhaliwyd y gwerthusiad yn ystod cyfnod o drosglwyddo o bedair rhaglen tuag at fframwaith cenedlaethol cyfunol. Serch hynny, nid yw'n gwbl amlwg ym mha ffordd y bydd gweithrediad y rhaglenni yn cael eu haddasu o fewn y fframwaith newydd. Er bod y canllaw cychwynnol a gyhoeddwyd yng Ngwanwyn 2019 yn gosod cyfeiriad at y dyfodol ac yn diffinio'r nodau a'r deilliannau ar gyfer y fframwaith, mae sawl elfen o'r canllaw sydd yn gysyniadol: er enghraifft, pwysleisir yr angen i 'sicrhau llwybr di-dor o gefnogaeth i ddysgwyr', ond nid oes manylion pellach yn esbonio sut y disgwylir i hyn gael ei wireddu drwy'r rhaglenni. Gan nad oedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu yn nodi sut yn union y bydd gofyn i ysgolion weithredu'r rhaglenni yn wahanol fel rhan o'r fframwaith cenedlaethol

cyfunol nid oedd modd dehongli theori newid lawn ar gyfer y fframwaith newydd.

Casgliadau sy'n gyffredin i'r pedair rhaglen

- 12.4 Yn y cyd-destun polisi ehangach, mae'r rhaglenni hyn sydd yn ymdrechu i sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnydd anffurfiol o'r iaith yn cefnogi blaenoriaethau ac uchelgeisiau strategaeth *Cymraeg 2050*. Mewn egwyddor, mae amcanion y rhaglenni yn cyd-blethu â'r amcanion a osodir ar gyfer datblygu sgiliau disgyblion yn y Gymraeg drwy'r cwricwlwm newydd. Nid yw'r trefniadau cwricwlwm eto'n weithredol yn llawn ond mae potensial y gallai'r rhaglenni gefnogi'r dyhead i sicrhau cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus o fewn y system addysg statudol. Cyfeiriodd *Dyfodol Llwyddiannus* at yr ymrwymiad tuag at sicrhau system addysg sy'n meithrin sgiliau sy'n galluogi dysgwyr i 'ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau personol, yn gymdeithasol ac yn y gweithle' (Donaldson 2015:26). Mae'r canllaw cychwynnol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi y 'bydd gwreiddio ac ehangu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn rhan o'r meysydd dysgu a phrofiad o fewn y cwricwlwm newydd' (Llywodraeth Cymru 2019:3).
- 12.5 Mae'r gefnogaeth a'r ymrwymiad a welwyd i'r rhaglenni ymysg yr holl randdeiliaid allweddol (swyddogion consortia ac awdurdodau lleol, penaethiaid ysgolion, staff a disgyblion) yn awgrymu bod galw parhaus am ymyriadau sy'n cefnogi defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Mae athrawon (yn enwedig cydlynwyr Siarter Iaith ac arweinwyr y rhaglenni eraill o fewn ysgolion) yn buddsoddi amser sylweddol i drefnu, cynnal ac adrodd ar ystod o weithgareddau, heb fod cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i ysgolion i gefnogi hynny ym mwyafrif yr achosion. Mae athrawon yn ystyried bod gwerth i'r rhaglenni a bod y rhaglenni'n cyfoethogi profiadau ieithyddol disgyblion.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithredu rhaglenni i gefnogi defnydd anffurfiol o'r Gymraeg o fewn ysgolion, gan adeiladu ar y Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn datblygu a mireinio ei chynlluniau ar gyfer y fframwaith cenedlaethol a sicrhau bod nodau, amcanion a disgwyliadau yn cael eu cyfathrebu'n glir i gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion a phartneriaid gweithredu perthnasol.

- 12.6 Yn sgil y ffordd y mae'r rhaglenni yn cael eu hariannu, nid oes cyllid penodol yn cael ei ddyrannu ar gyfer bob un o'r rhaglenni unigol. Ag eithrio Cymraeg Bob Dydd mae'r cyllid ar gyfer y rhaglenni wedi'i ymgorffori o fewn y Grant Gwella Addysg ac mae disgresiwn gan gonsortia addysg ar sut i ddyrannu'r symiau a dderbynnir ganddynt. O ganlyniad, mae trefniadau cyllido yn amrywio rhwng rhaglenni ac, i raddau, o ranbarth i ranbarth. Mae pob ysgol yn buddsoddi amser ac adnoddau i weithredu'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig. Fodd bynnag, dim ond rhai ysgolion sy'n derbyn cyllid ychwanegol (er yn symiau bychain) i gyfrannu tuag at gostau gweithgareddau. Mae sgôp hefyd i gryfhau a ffurfioli trefniadau monitro ac adrodd ar gynnydd er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o'r newidiadau a'r traweffeithiau sy'n deillio o'r cyllid.

Argymhelliad 3: Fel rhan o'r broses o fireinio cynlluniau ar gyfer y fframwaith cenedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau ariannu ar gyfer y pedair rhaglen gan sicrhau:

- Bod lefel y cyllid a ddyrennir i gonsortia rhanbarthol yn ddigonol ar gyfer gweithredu'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig;
- Eglurder o ran y gofynion a'r disgwyliadau sydd ar gonsortia a phartneriaid gweithredu mewn perthynas â chyllido'r pedair rhaglen yng nghyd-destun y fframwaith cenedlaethol newydd;
- Bod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer casglu data, monitro ac adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'r dyraniadau cyllid.

- 12.7 Mae gweithredu a gwreiddio'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig yn ddibynnol ar arweinyddiaeth ar lefel ysgol, ac mae'n hanfodol bod ysgolion yn perchnogi nodau'r rhaglenni. Dylid annog ysgolion i wreiddio strategaethau a gweithgareddau i gefnogi'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn ffordd gynaliadwy oddi fewn i Gynlluniau Datblygu Ysgol. Mae'n bwysig hefyd sicrhau eglurder ar beth yw swyddogaeth y fframwaith newydd o fewn y cwricwlwm fel ei bod yn cyfoethogi profiadau dysgu, a hynny mewn ffordd sy'n addas ar hyd y cyfnodau addysg.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol, sicrhau bod ysgolion yn ymgorffori'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig o fewn eu Cynlluniau Datblygu Ysgol fel modd o wreiddio gweithgareddau i hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar lefel ysgol-gyfan.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth consortia rhanbarthol, annog ysgolion i wreiddio'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig fel ran o weithrediad y cwricwlwm newydd.

Siarter Iaith cynradd

- 12.8 Dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd fod croeso i'r Siarter Iaith ymysg penaethiaid ac athrawon. Mae dyluniad y rhaglen yn annog ysgolion i gymryd cyfrifoldeb am lunio cynlluniau gweithredu sy'n addas i'w sefyllfaoedd a blaenoriaethau. Mae dystiolaeth yn dangos bod ymrwymiad i'r rhaglen ymysg penaethiaid a chydlynwyr, ac mae'n ennyn cyfranogiad a balchder ymysg disgyblion.
- 12.9 Mae gan gonsortia rhanbarthol (ac awdurdodau lleol mewn rhai ardaloedd) rôl allweddol wrth hwyluso gweithrediad y Siarter Iaith. Maent wedi cymryd yr arweiniad wrth weithredu'r rhaglen ac wedi darparu cefnogaeth i niferoedd cynyddol o ysgolion wrth i'r rhaglen ehangu dros amser.
- 12.10 Mae ymarferwyr yn fodlon gyda dyluniad a hyblygrwydd y Siarter Iaith cynradd, yn benodol y ffaith bod ysgolion yn cael eu hannog i ddatblygu cynlluniau gweithredu sy'n adlewyrchu eu blaenoriaethau, ac y mae staff a disgyblion yn eu perchnogi.

Argymhelliad 6: Wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y fframwaith cenedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan ysgolion hyblygrwydd i deilwra gweithrediad y Siarter Iaith cynradd mewn ffordd sy'n addas i'w hanghenion a'u sefyllfaoedd unigol.

- 12.11 Mae'r gwobrau sy'n rhan o raglen y Siarter Iaith cynradd (a Cymraeg Campus) yn cynnig cydnabyddiaeth o gyflawniadau ysgolion wrth weithredu'r rhaglenni. Maent yn sbarduno ysgolion i weithio tuag at ddeilliannau fwyfwy heriol mewn perthynas â defnydd o'r Gymraeg dros amser. Ymddengys felly bod y model gwobrwyo yn nodwedd o'r rhaglen sy'n annog ymgysylltu parhaus ac yn cynnig camau dilyniant ar gyfer ysgolion. Dengys y dystiolaeth bod y gwobrau ar y cyfan yn creu brwdfrydedd ymhlith y dysgwyr ac yn cefnogi ymdeimlad o ymdrech ar y cyd ymysg disgyblion.
- 12.12 Fel gydag unrhyw wob, mae'r gwobrau Siarter Iaith yn gydnabyddiaeth o gyrhaeddiad ar un pwynt mewn amser yn unig. Mae cwestiynau ynghylch sut y bydd y model gwobrwyo hwn (a phrosesau dilysu cysylltiedig) yn cael ei weithredu fel rhan o'r fframwaith cenedlaethol. Dylid sicrhau nad yw ysgolion yn ystyried y Siarter Iaith fel cyfres o gamau i'w cwblhau. Mae angen eglurder felly mewn perthynas â'r disgwyliadau ar ysgolion wedi iddynt gwblhau'r wob aur.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol gytuno ar y gofynion ar gyfer ysgolion cynradd sy'n cymryd rhan yn y Siarter Iaith wedi iddynt gyrraedd y wob aur, a chyfathrebu hynny i ysgolion.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru beilota trefniadau gwirio ansawdd ac adrodd ar gynnydd ar gyfer ysgolion Siarter Iaith cynradd sydd wedi cyrraedd y wob aur, gan symud o drefniadau dilysu i fodel arall, er enghraifft model hunan-werthuso.

(Noder: Gallai canfyddiadau'r ymarfer hwn fod o ddefnydd yng nghydestun gweithredu rhaglen Cymraeg Campus hefyd.)

- 12.13 Cafwyd dystiolaeth bod cydlynwyr Siarter Iaith – ac athrawon sy’n arwain ar raglenni cysylltiedig – yn gweithio ar eu pennau eu hunain wrth greu adnoddau, trefnu gweithgareddau, a chysylltu â phartneriaid. Dengys y dystiolaeth bod athrawon yn treulio amser yn ymchwilio i greu cysylltiadau lleol a threfnu gweithgareddau, sydd yn golygu bod cryn ddyblygu yn digwydd ar draws ysgolion wrth weithredu’r Siarter. Byddai cymorth canolog, gwybodaeth neu gyfeirlyfr i gynorthwyo’r broses ar lefel sirol neu ranbarthol o bosibl yn cynnig dull mwy effeithlon o weithredu.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol, ddatblygu cronfa o adnoddau a rhestr o gysylltiadau i gefnogi ysgolion Siarter Iaith i gydweithio gyda mudiadau a phartneriaid cymunedol.

(Noder: Gallai’r gronfa hon fod o ddefnydd yng nghyd-destun cefnogi gweithrediad y rhaglenni cysylltiedig hefyd.)

- 12.14 Mae potensial i ysgolion gydweithio’n agosach gyda mudiadau a phartneriaid cymunedol, yn cynnwys Mentrau Iaith a mudiadau cymunedol eraill. Gallai mudiadau o’r fath fod yn ddolen gyswllt werthfawr i’r gymuned ehangach ar gyfer ysgolion; gellid hefyd archwilio cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau neu weithgareddau ar y cyd.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau aliniad rhwng amcanion y fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol a nodau ac amcanion mudiadau cymunedol sy’n cefnogi’r Gymraeg a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

(Noder: Gallai cyd-gynllunio a chydweithio mwy strategol gyda mudiadau allanol fod o gymorth i ysgolion sy’n gweithredu rhaglenni cysylltiedig hefyd.)

- 12.15 Dangosodd y gwerthusiad bod athrawon yn ymwybodol o ffactorau allanol sydd, yn ôl eu profiad hwy, yn dylanwadu ar ddefnydd iaith y tu allan i’r ysgol, er enghraifft arferion defnydd iaith disgyblion ac agweddau rhieni. Yn

eu barn hwy mae cyfyngiadau i'r hyn y mae modd i'r Siarter Iaith ei newid, heb gefnogaeth rhieni i atgyfnerthu'r negeseuon y mae'r Siarter Iaith yn eu hyrwyddo. Ni chafwyd tystiolaeth bod ymwybyddiaeth gref o'r Siarter Iaith ymysg rhieni.

Argymhelliad 11: Wrth ddatblygu manylion pellach a chynllun gweithredu ar gyfer y fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru archwilio a oes angen cyflwyno dulliau o gryfhau'r cyswllt rhwng y Siarter Iaith a rhieni.

(Noder: Mae'r argymhelliad hwn hefyd yn berthnasol i weithrediad y Siarter Iaith uwchradd.)

Cymraeg Campus

- 12.16 Mae Cymraeg Campus yn rhaglen sydd wedi codi proffil y Gymraeg o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac wedi'u hannog i hyrwyddo'r iaith mewn ffordd fwy trawsbynciol a strategol. Roedd ymarferwyr a swyddogion rhanbarthol o'r farn bod hir aros wedi bod am ymyrraeth i gefnogi ac annog y sector cyfrwng Saesneg wrth iddynt gefnogi defnydd y disgyblion o'r Gymraeg. Yn gyffredinol mae'r rhaglen wedi ei chroesawu'n fawr ac yn un sy'n ddefnyddiol i ysgolion.
- 12.17 Mae dyluniad y rhaglen, sy'n strwythuredig gyda gweithgareddau wedi eu gosod i'r ysgolion, yn addas ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg. Er hynny dangosodd y gwerthusiad bod ysgolion yn ei chael yn heriol cwrdd â'r holl feini prawf ar gyfer pob gwobr, a bod anghysondeb yn nealltwriaeth swyddogion ac ymarferwyr ynghylch a oes rhaid cwrdd â'r holl feini prawf o dan bob targed.
- 12.18 Roedd yr ymarferwyr o'r farn bod yr arweiniad a roddir gan swyddogion sir a rhanbarth yn dda ac yn gwbl hanfodol i weithrediad Cymraeg Campus, ond eto hoffent ragor o gefnogaeth. Nodwyd bod gan nifer fawr o ymarferwyr y sector Saesneg lefel isel o hyder wrth gyflwyno gweithgareddau yn y Gymraeg, yn enwedig mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Roedd ceisiadau am fwy o gefnogaeth, syniadau, cysylltiadau a hyfforddiant yn rhan o adborth yr ymarferwyr yn y gwaith maes. Mae angen sefydlu trefniadau mwy

strwythuredig ar gyfer rhannu adnoddau, gweithgareddau ac arferion da i gefnogi gweithrediad y rhaglen.

Argymhelliad 12: Wrth barhau i gefnogi ysgolion Cymraeg Campus, dylai Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol ail-ymweld â'r targedau ar gyfer y gwahanol wobrau a'r meini prawf cysylltiedig, gan roi sylw yn benodol i (i) leihau nifer y targedau a'r meini prawf ar gyfer y gwahanol wobrau; a (ii) caniatáu i ysgolion ddangos cynnydd yn erbyn detholiad o feini prawf yn hytrach na phob un maen prawf o dan bob targed.

Prosiect Cefnogi Arferion Iaith / Siarter Iaith Uwchradd

- 12.19 Roedd y gwerthusiad hwn yn cwmpasu cyfnod lle roedd y rhaglen o weithgareddau mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo o PCAI i raglen Siarter Iaith uwchradd. Nid oedd PCAI yn cael ei chydabod yn rhaglen 'fyw' ym mwyafrif y consortia rhanbarthol. Lle roedd consortia ac ysgolion yn dal i weithredu prosiectau o dan faner rhaglen PCAI, roedd y gweithgareddau yn gymharol gyfyngedig eu natur, ac yn cwmpasu digwyddiadau (weithiau ar y cyd gydag ysgolion eraill), ymweliadau y tu allan i'r ysgol, a gweithgareddau cymdeithasol yn annog cydweithio rhwng disgyblion hŷn a disgyblion iau yn yr ysgol. Ni chafwyd tystiolaeth o adrodd ar gynnydd, ac ymddengys nad oedd system gadarn ar gyfer monitro canlyniadau neu draweffeithiau'r gweithgareddau hyn. Nid oes disgrifiad o'r disgwyliadau ar ysgolion uwchradd ar gyfer gweithredu'r rhaglen yn y sector uwchradd. Yn sgil hyn, nid oes cysondeb yn yr hyn a weithredir ar lefel ysgol ar hyn o bryd ac mae'r gefnogaeth a ddarperir i ysgolion gan gonsortia rhanbarthol hefyd yn amrywio.
- 12.20 Cafwyd tystiolaeth nad yw rhai elfennau o ddyluniad y Siarter Iaith cynradd yn berthnasol ar gyfer disgyblion uwchradd, ac mae angen sicrhau bod y rhaglen yn cael ei theilwra i fod yn berthnasol i bobl ifanc yng Nghyfnodau Allweddol 3 ac uwch. Dylid ystyried ffocws y rhaglen ac archwilio'r dystiolaeth ar y mathau o negeseuon sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd.

Argymhelliad 13: Wrth ddylunio a datblygu rhaglen Siarter Iaith ar gyfer y sector uwchradd, dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol roi ystyriaeth ofalus i anghenion a nodweddion y grwpiau oedran dan sylw, gan sicrhau fod cynnwys ac amcanion y rhaglen yn addas ar eu cyfer.

Cymraeg Bob Dydd

- 12.21 Rhaglen o weithgareddau ar gyfer disgyblion mewn nifer gyfyngedig o ysgolion cyfrwng Saesneg yw Cymraeg Bob Dydd. Adroddodd yr ymarferwyr a gyfwelwyd o'r ysgolion sy'n cymryd rhan bod y rhaglen o gymorth wrth gyfoethogi'r hyn y maent yn ei gyflwyno o fewn yr ystafell ddosbarth i gefnogi a hyrwyddo sgiliau Cymraeg.
- 12.22 Mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth yn brin i nifer o'r disgyblion felly ac adroddodd ymarferwyr a gyfrannodd i'r gwerthusiad bod galw am raglen sy'n cynnig cyfleoedd o'r fath i ddisgyblion ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Roedd yr ymarferwyr o'r farn bod y gweithgareddau ynghyd â'r cyfle i gymryd rhan mewn cyrsiau preswyl yn dylanwadu ar benderfyniadau rhai disgyblion ac yn eu hannog i barhau i astudio'r Gymraeg. Cafwyd awgrymiadau i ehangu natur y gweithgareddau i gwmpasu'r defnydd o'r Gymraeg ym myd gwaith. Mae'n anodd deall o'r adroddiadau monitro faint o ddisgyblion fyddai yn cael eu dylanwadu i ddefnyddio mwy o Gymraeg boed yn gymdeithasol neu yn eu hastudiaethau o ganlyniad i'r rhaglen.

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r rhestr o weithgareddau a gynigir drwy'r rhaglen Cymraeg Bob Dydd i weld a ellir eu gwneud yn fwy gafaelgar ar gyfer y disgyblion, gan gynnwys gweithgareddau yn dilyn themâu byd busnes, y farchnad lafur a chyflogadwyedd.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau monitro ac adrodd sy'n rhan o Cymraeg Bob Dydd fel bod llai o ffocws ar niferoedd a mwy ar ddeall sut mae gweithgareddau yn cyfrannu at gyflawni nodau'r rhaglen.

Theori newid ac ystyriaethau ar gyfer ymchwil at y dyfodol

- 12.23 Mae deall hyd a lled traweffaith y rhaglenni yn cyflwyno nifer o heriau a chesglir bod angen gwaith pellach i fireinio'r theori newid cyn mynd ati i gynllunio gwerthusiad o draweffeithiau'r rhaglenni a'r fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol i'r dyfodol. Mae'r fframwaith cenedlaethol yn newydd ac yn ymdrech i gorlannu'r rhaglenni unigol gan sicrhau bod y rhaglenni hynny yn gweithio tuag at nodau a deilliannau cyffredin.
- 12.24 Y theori lefel-uchel sy'n sail i'r fframwaith cenedlaethol yw bod modd dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg drwy gyfres o ymyriadau a gweithgareddau a arweinir gan ysgolion. Rhagdybir y bydd plant a phobl ifanc, wrth ddod i gysylltiad â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol drwy'r rhaglenni, yn dewis defnyddio mwy o Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
- 12.25 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad, a'r broses o ddehongli theorïau newid, wedi codi cwestiynau am natur ac ansawdd y dystiolaeth mewn perthynas â thraweffeithiau disgwylidig y rhaglenni. Rhagdybiaeth sylfaenol i'r rhaglenni a weithredwyd hyd yma yw bod modd iddynt gyflawni'u nodau i gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc trwy amrywiaeth o ymyriadau a ddarperir o fewn ysgolion neu gan bartneriaid allanol.
- 12.26 Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn niferus ac yn gymhleth. Tra bod modd i'r rhaglenni a archwiliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn gyfrannu at gynyddu defnydd a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg, nid yw'n eglur i ba raddau y mae'r rhaglenni yn cyfrannu yn wyneb dylanwadau eraill. Cesglir bod angen gwell ddealltwriaeth o'r hyn sydd wrth wraidd diffyg defnydd o'r iaith ymysg rhai carfannau o blant a phobl ifanc cyn medru dadansoddi a gwerthuso gwir gyfraniad y Siarter Iaith at y nod o gynyddu defnydd.
- 12.27 Un elfen allweddol o'r broses o lunio'r theori fydd ystyried pa ddata sydd ar gael. Er bod cryn ddata monitro yn cael ei gasglu fel rhan o'r broses o weithredu'r rhaglenni (yn enwedig y Siarter Iaith cynradd a Cymraeg Campus) nid yw'r data yn cynnig sail gadarn ar gyfer adrodd ar newidiadau

i arferion defnydd iaith na newidiadau i agweddau. Awgrymwn y byddai dull dadansoddi cyfraniadau yn ddull defnyddiol ar gyfer datblygu dealltwriaeth o'r graddau y mae cynnydd yn y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn deillio o weithgareddau penodol y rhaglenni dan sylw, yn hytrach nag o ganlyniad i ffactorau eraill.

Argymhelliad 16: Fel mater o flaenoriaeth, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod datblygu a mireinio theori newid yn elfen ganolog o gamau nesaf datblygu'r fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol. Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid addysg a chynllunio iaith, ymdrin â'r meysydd canlynol:

- a) Archwilio pa ffynonellau data sydd eisoes ar gael, a'r bylchau tystiolaeth sydd angen eu llenwi, i gefnogi gwerthusiad o ddeilliannau'r fframwaith yn y dyfodol;
- b) Archwilio opsiynau ac anghenion o ran cynnal ymchwil i gael gwell dealltwriaeth o'r rhagdybiaethau a'r ffactorau allanol sydd yn dylanwadu ar weithrediad a deilliannau disgwyledig y fframwaith cenedlaethol.

Atodiad 1: Llyfryddiaeth

Cyngor Gwynedd (2019) [Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd](#) [Ar-lein] (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Cyngor Gwynedd a Hunaniaith (2014) [Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd](#) [Ar-lein] (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Donaldson, G. (2015) [Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru](#) [Ar-lein] (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

ERW (2016) *Cymraeg Campus*. Heb ei gyhoeddi.

Estyn (2020) [Adroddiad Blynyddol 2018-2019](#) (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) [Siarter Iaith](#) [Ar-lein] llyw.cymru (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Llywodraeth Cymru (2015) [Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15](#) (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Llywodraeth Cymru (2016a) *Siarter Iaith Gymraeg, Ysgolion Cynradd*.

Llywodraeth Cymru (2016b) [Adolygiad o Brosiect Cymraeg Bob Dydd](#) [Ar-lein] (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Llywodraeth Cymru (2017a) [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#) [Ar-lein] (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Llywodraeth Cymru (2017b) [Y Gymraeg mewn addysg, Cynllun gweithredu 2017–21](#) [Ar-lein] (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Llywodraeth Cymru (2017c) [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-2021](#) [Ar-lein] (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Llywodraeth Cymru (2017d) *Pecyn Cymorth i Hybu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg mewn Gweithgareddau*

Llywodraeth Cymru (2019) [Fframwaith Siarter Iaith: Canllaw cychwynnol i ysgolion](#) [Ar-lein] (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Roberts, D.B. a Thomas, E. (2010) [Adroddiad Arolwg Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg](#) (Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Trysorlys EM (2010) [Magenta Book: Central Government guidance on evaluation](#)
(Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2020)

Urdd Gobaith Cymru (2018) *Adroddiad Blynyddol Cymraeg Bob Dydd 2018/19*. Heb
ei gyhoeddi.

Vogel, I. (2012) [Review of the use of 'Theory of Change' in international
development](#) Review Report. DFID, Llundain, DU. [ar-lein] (Cyrchwyd 6 Gorffennaf
2020)

Atodiad 2: Canllawiau Holi

Cynnwys yr atodiad:

Canllaw holi swyddogion Llywodraeth Cymru

Canllaw holi swyddogion consortia addysg rhanbarthol

Canllaw holi ar gyfer ymweliadau i ysgolion Siarter Iaith

Canllaw holi disgyblion ysgolion Siarter Iaith

Arolwg ysgolion Siarter Iaith

Arolwg ysgolion Cymraeg Campus

CYFWELIADAU CWMPASU: Swyddogion Llywodraeth Cymru

CEFNDIR A SEILIAU DAMCANIAETHOL I'R RHAGLENNI (Siarter Iaith, PCAI, Cymraeg Campus a Cymraeg bob dydd)

1. Esboniwch y cefndir tu ôl i ddatblygiad y pedair rhaglen gan nodi, yn benodol:
 - a. Y sail ddamcaniaethol tu ôl i'r rhaglen.
 - o Beth oedd y rhaglen yn ceisio ei newid neu ei wella?
 - b. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r rhaglen yn adeiladu ar ymyrraeth flaenorol a/neu ymchwil yn y maes?
[I'w drafod fesul rhaglen]
2. Beth yw'r gydberthynas rhwng gweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r rhaglenni?
 - a. Beth yw cyfraniad disgwylidig y rhaglenni hyn tuag at weledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r Gymraeg mewn addysg?
 - b. Sut fydddech chi'n disgrifio swyddogaeth benodol y rhaglenni hyn mewn perthynas â chefnogi amcanion hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg?

DYLUNIAD Y RHAGLENNI

[I'w trafod fesul rhaglen]

3. Beth oedd y broses ar gyfer cynllunio dyluniad a chwmpas y rhaglen?
 - a. Pwy (a pha bartneriaid) fu'n rhan o'r broses o gynllunio dyluniad y rhaglen?
4. Beth yw nodweddion allweddol y rhaglen?
5. Beth yw'r rhagdybiaethau sy'n sail i ddyluniad y rhaglen?
6. Beth yw cryfderau a gwendidau dyluniad y rhaglen yn eich barn chi?

CYFATHREBU A HYRWYDDO Â PHARTNERIAID

7. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu amcanion y rhaglenni i'r gwahanol bartneriaid?
 - a. Wrth hyrwyddo a chyfathrebu gwybodaeth am y rhaglenni gyda phartneriaid a yw Llywodraeth Cymru yn esbonio'r cyswllt rhwng y nod strategol i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg a gweithgareddau'r rhaglenni penodol hyn?

GWEITHREDU

8. Amlinellwch rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rhaglenni.
 - a. Beth yw'r cydbwysedd rhwng rôl oruchwylio/rheoli a rôl weithredol?
 - b. Esboniwch natur y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid gweithredu eraill mewn perthynas â'r rhaglenni.

[I'w drafod fesul rhaglen]

9. O safbwynt y mewnbynnau i'r rhaglenni drwy eich amser chi fel swyddogion cyfrifol, rhowch drosolwg o'r gwaith rheoli a gweinyddu sydd ynghlwm â'r rhaglenni?

- a. Sut mae'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni yn cymharu gyda rhaglenni eraill?
 - b. A oes unrhyw agweddau penodol o weithrediad y rhaglenni sy'n arbennig o feichus?
10. A oes unrhyw amrywiadau yn y ffordd y mae'r rhaglenni yn cael eu gweithredu mewn gwahanol rannau/rhanbarthau o Gymru? Os oes, beth yw'r amrywiadau yn y modelau gweithredu a beth yw'r rhesymau am yr amrywiadau hyn?
[I'w drafod fesul rhaglen]
11. Beth yw'r trefniadau sicrhau ansawdd ac atebolrwydd sydd mewn lle i gefnogi'r rhaglenni?
[I'w drafod fesul rhaglen]
12. Yn eich profiad chi fel swyddogion Llywodraeth Cymru â chyfrifoldeb strategol am y rhaglenni, a oes yna heriau ynghlwm â gweithredu'r rhaglenni hyn? Os oes, beth yw'r heriau?
13. A oes unrhyw heriau wedi'u hadrodd gan bartneriaid eraill wrth weithredu'r rhaglenni? Os oes, mewn perthynas â pha raglenni a gan ba bartneriaid?
14. Yn eich profiad chi o fonitro gweithrediad y rhaglenni, beth yw'r amodau a'r nodweddion sy'n dylanwadu ar allu partneriaid (consortia, awdurdodau ac ysgolion) i weithredu'r rhaglenni yn effeithiol?

DEILLIANNAU AC ARGAELEDD DATA

15. Sut mae deilliannau'r rhaglenni wedi'u diffinio?
- a. A oes yna ddeilliannau tymor byr/canolig/hirdymor wedi'u pennu?
 - b. Pa fesuryddion a dangosyddion ydych chi'n eu defnyddio i fesur y deilliannau hyn?
 - c. Pa ddata a gesglir i fesur cynnydd mewn perthynas â'r deilliannau hyn? (Gan bwy? Pa mor rheolaidd? Pa mor gadarn yw'r data a gesglir?)
- [I'w drafod fesul rhaglen]*
16. Pa dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd i adrodd ar lwyddiannau neu gynnydd ysgolion mewn perthynas â'r rhaglenni?
- a. Beth yw cryfderau a gwendidau posibl y dystiolaeth hon?
17. Pwy sy'n gyfrifol am graffu ar y data sy'n cael ei gasglu drwy'r rhaglenni?
- a. A yw ysgolion, consortia, awdurdodau lleol yn cael eu herio? Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y data sy'n cael ei adrodd yn gadarn?

UNRHYW FATERION ERAILL

18. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi mewn perthynas â'r rhaglenni neu mewn perthynas â'r gwerthusiad?

CYFWELIADAU: Swyddogion Siarter Iaith a Rhaglenni Cysylltiedig yn y rhanbarthau

RÔL A SEFYDLU'R RHAGLENNI YN Y RHANBARTHU (Siarter Iaith, PCAI, Cymraeg Campus a Cymraeg bob dydd)

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl.
 - a. Cadarnhau teitl y swydd a safle o fewn strwythur y consortiwm.
 - b. Prif gyfrifoldebau, gan gynnwys pa raglenni.
 - c. Amser yn y swydd a hyd y cytundeb/secondiad.
 - d. Unrhyw swyddi/rolau blaenorol perthnasol.
2. Esboniwch y cefndir tu ôl i sefydlu a gweithredu'r pedair rhaglen yn eich rhanbarth.
 - a. Beth yw eich dehongliad o'r hyn y mae'r rhaglen(ni) yn ceisio ei newid neu ei wella?
 - b. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r rhaglen(ni) yn adeiladu ar ymyrraeth flaenorol [l'w drafod fesul rhaglen].
 - c. Beth yw cyfraniad y rhaglen(ni) at gynlluniau a strategaethau y consortiwm (e.e. y cynllun busnes; gofyn am gopi os nad ar y we).

CYNLLUNIO STRATEGOL

3. Beth yw'r gydberthynas rhwng y rhaglen a chynlluniau strategol eraill ar lefel ysgol, awdurdod a chonsortiwm? (ee. Cynlluniau Gwella Ysgol, datblygiadau Cwricwlwm i Gymru, strategaethau sirol a rhanbarthol).
 - a. A yw'r rhaglenni yn cyfoethogi neu'n ychwanegu gwerth at gynlluniau strategol eraill, yn eich barn chi? Os ydynt, ym mha ffordd?
4. Beth oedd y broses ar gyfer cynllunio sut i weithredu'r rhaglen(ni) yn y rhanbarth?
 - a. Pwy oedd yn rhan o'r broses?
 - b. Beth oedd natur y cyswllt rhwng swyddogion eich consortiwm chi a swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y broses o gynllunio sut i weithredu'r rhaglen(ni) yn eich rhanbarth? Yn eich profiad chi, a gawsoch chi arweiniad strategol clir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r broses gynllunio yn eich rhanbarth? A gawsoch chi ddigon o hyblygrwydd i ddatblygu'r rhaglen yn y modd mwyaf addas i'ch rhanbarth chi?
 - c. Faint o drafod a chydweithio a gafwyd rhwng swyddogion y gwahanol gonsortia wrth gynllunio sut i weithredu'r rhaglen(ni) yn y gwahanol ranbarthau?
 - d. Pa fewnbnw a gafodd ysgolion i drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch sut i weithredu'r rhaglen(ni)?

GWEITHREDU'R RHAGLENNI

[Trafod fesul rhaglen, os yn briodol]

5. Rhowch drosolwg o'r model o weithredu'r rhaglen(ni) yn eich rhanbarth.
 - a. Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan.
 - b. Beth yw'r broses o ran penderfynu pa ysgolion sy'n cymryd rhan? Pwy sy'n penderfynu, a beth yw'r meini prawf?
 - c. Sut y daw ysgol i wybod am y rhaglen? Sut ydych yn cyfathrebu amcanion y rhaglen(ni) i ysgolion ac i randdeiliaid?
 - d. Esboniad o'r gwobrau a'r dull dilysu (Siarter a Cymraeg Campus yn unig) ac esboniad o sut mae'r consortiwm yn cyfrannu at y broses hon. Pwy sy'n rhan o'r broses ddilysu? A yw hyn wedi newid dros amser?
 - e. Esboniad o unrhyw amrywiaethau rhwng ysgolion / clystyrau. Yn eich tyb chi, beth yw'r eglurhad dros yr amrywiaethau?
 - f. Gyda pha randdeiliaid ydych chi'n gweithio fel rheol? Beth yw natur y cyswllt a'r cydweithio? Pwy sy'n penderfynu gyda pha randdeiliaid ydych chi'n cydweithio?
6. Beth yw cryfderau a gwendidau y dull o weithredu'r rhaglen/ni ar hyn o bryd yn eich barn chi?
 - a. Oes unrhyw enghreifftiau i gefnogi hyn?
7. A oes unrhyw heriau wedi'u hadrodd gan ysgolion (neu randdeiliaid eraill) wrth weithredu'r [rhaglen]? Os oes, mewn perthynas â pha raglenni a chan ba bartneriaid?

ARWEINIAD A PHERCHNOGAETH (Cyfrannu at Faes Allweddol 3 y Fanyleb)

8. Sut mae'r consortiwm yn annog perchnogaeth o'r rhaglen(ni)?
 - a. Beth yw'r ymateb i'r rhaglen(ni) ymysg (i) yr ysgolion (ii) rhanddeiliaid eraill?
 - b. A oes unrhyw heriau wrth annog perchnogaeth?
 - c. I ba raddau y mae dyluniad a natur y rhaglen/ni yn annog perchnogaeth ymhlith ysgolion a rhanddeiliaid eraill?
9. Pa arweiniad, hyfforddiant neu ganllawiau sydd yn cael eu darparu gan y consortiwm i benaethiaid a/neu staff o fewn ysgolion i gymryd perchnogaeth dros weithrediad y rhaglenni?
 - a. Pa elfennau o ddarparu arweiniad, hyfforddiant neu ganllawiau sydd wedi gweithio'n dda? Pa dystiolaeth sydd gennych fod yr elfennau hyn yn gweithio'n dda?
 - b. A oes elfennau sydd ddim yn gweithio cystal?

10. [Os yn berthnasol] Pa arweiniad, hyfforddiant neu ganllawiau sydd yn cael eu darparu gan eich consortiwm i randdeiliaid allanol? Pwy yw'r rhanddeiliaid hynny?
- Pa elfennau o ddarparu arweiniad, hyfforddiant neu ganllawiau sydd wedi gweithio'n dda? Pa dystiolaeth sydd gennych fod yr elfennau hyn yn gweithio'n dda?
 - A oes elfennau sydd ddim yn gweithio cystal?
11. [Os yn berthnasol] A oes dulliau eraill o gyflwyno a gweithredu'r rhaglen/ni a fyddai'n debygol o annog mwy o berchnogaeth o'r rhaglen ymhlith cymuned yr ysgol a rhanddeiliaid?
- Pam, yn ôl eich dealltwriaeth chi, nad yw'r rhain yn cael eu defnyddio eisoes?

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH (cyswllt â materion Maes Allweddol 4)

12. Beth yw natur y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r consortiwm wrth weithredu'r rhaglen(ni)?
- Sut a pha mor aml y mae Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu a chydweithio gyda chi?
 - A yw'r trefniadau hyn yn ddigonol / yn effeithiol yn eich barn chi? Esboniwch pam.
 - NEWYDD Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer gweithredu'r Siarter Iaith i'r consortiwm – sut mae'r consortiwm yn defnyddio'r arian?
13. Beth yw natur y cydweithio rhwng y consortia wrth weithredu'r rhaglenni'r rhaglen(ni)?
- Sut a pha mor aml ydych chi'n cyfathrebu a chydweithio?
 - A yw'r trefniadau hyn yn ddigonol / yn effeithiol yn eich barn chi? Esboniwch pam.
 - [GWE ac ERW] Beth yw'r trefniadau ar gyfer cydweithio gydag awdurdodau lleol yn eich rhanbarth wrth weithredu'r rhaglen(ni)? Pa gyfrifoldeb sydd gan awdurdodau lleol am y rhaglenni?
14. Beth yw natur y cydweithio rhyngoch chi (fel consortiwm) ac ysgolion yn eich rhanbarth wrth weithredu'r rhaglenni'r rhaglen(ni)?
- Sut a pha mor aml ydych chi'n cyfathrebu a chydweithio?
 - A yw'r trefniadau hyn yn ddigonol / yn effeithiol yn eich barn chi? Esboniwch pam.
15. A ydych chi fel consortiwm yn annog cydweithio rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd o ran cefnogi defnydd anffurfiol disgyblion o'r Gymraeg?
- Beth yw'r ffactorau sydd yn dueddol o ddylanwadu ar y trefniadau cydweithio hyn?
16. Pa ganllawiau neu arweiniad sy'n cael eu darparu i ysgolion ynglŷn â'r cydweithio disgwyledig gyda phartneriaid allanol i gefnogi gweithrediad y rhaglen(ni)?
- Pa elfennau o'r cydweithio hyn rhwng ysgolion a phartneriaid allanol sydd wedi gweithio'n dda?

- b. A oes elfennau sydd ddim yn gweithio cystal?
 - c. Beth fyddai'n gymorth i hwyluso'r cydweithio?
17. Yn eich profiad chi o'r rhaglen(ni), beth yw'r amodau a'r nodweddion sy'n dylanwadu ar allu partneriaid (y consortiwm, awdurdodau ac ysgolion) i weithredu'r rhaglenni yn effeithiol?
18. O ystyried bod fframwaith arfaethedig y Siarter Iaith yn cwmpasu oeddrannau cynradd ac uwchradd a'r sectorau Cymraeg a Saesneg, a oes partneriaethau neu drefniadau cydweithio newydd neu wahanol sydd ar waith eisoes neu y gellid eu cyflwyno?

DULLIAU CASGLU, COFNODI A DEHONGLI TYSTIOLAETH (MAES ALLWEDDOL 1)

19. Pa dystiolaeth a pha ddata mae'r consortiwm yn ei gasglu ynghylch defnydd iaith a deilliannau [rhaglen]?
- a. Sut mae'r dystiolaeth yn cael ei chasglu? A yw'n cael ei chasglu mewn ffordd gyson o fewn eich consortiwm?
 - b. Beth yw'r resymeg dros gasglu'r dystiolaeth a data hyn?
 - c. A yw natur y dystiolaeth / ffurf y data sy'n cael ei gasglu wedi newid dros amser?
 - d. Pa ddefnydd mae'r consortiwm yn ei wneud o'r dystiolaeth a'r data a gesglir? A yw'r dystiolaeth yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar weithrediad y rhaglen(ni)?
20. Y Gwe Iaith:
- a. Pwy sy'n mewnbynnu a phwy sy'n cael mynediad at ddata'r Gwe Iaith?
 - b. Ydych chi fel swyddogion rhanbarthol yn edrych ar ddata'r Gwe Iaith?
 - c. Ar sail eich dealltwriaeth a'ch profiad chi, a yw dyluniad y Gwe Iaith a'r defnydd a wneir ohono yn hwyluso cynnydd ac yn cynnig yr her angenrheidiol i ddisgyblion ac ysgolion?
21. A yw'r dull cyfredol o gofnodi defnydd iaith yn galluogi ysgolion, y consortiwm a Llywodraeth Cymru i fesur cynnydd dros amser yn effeithiol, yn eich barn chi?
22. O ystyried y fframwaith arfaethedig ar gyfer y Siarter Iaith a fydd yn cwmpasu oeddrannau cynradd ac uwchradd, a oes dulliau eraill o gofnodi defnydd iaith sydd eisoes ar waith neu y dylid eu cyflwyno?

MONITRO CYNNYDD A SICRHAU ANSAWDD (Maes Allweddol 2)

23. Beth yw'r dulliau asesu cynnydd, craffu a sicrhau ansawdd mae'r consortiwm yn eu defnyddio ar gyfer y [rhaglen]?
- Beth yw cryfderau a gwendidau'r dulliau hyn? Yn eich barn chi, beth yw'r dulliau mwyaf addas o weithredu proses fonitro ac asesu cynnydd?
 - Sut mae sicrhau bod prosesau monitro cynnydd a sicrhau ansawdd yn gynaliadwy? A oes unrhyw heriau yn gysylltiedig â hyn?
24. A oes dulliau posibl o fireinio'r broses o gasglu tystiolaeth a data a fyddai'n rhoi darlun mwy cyflawn yn eich consortiwm chi o draweffeithiau a chynnydd y rhaglenni?

EDRYCH I'R DYFODOL: Y FFRAMWAITH NEWYDD

25. Bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu'r rhaglenni ynghyd o dan faner y Siarter Iaith o fis Medi 2019 ymlaen. Beth yw'r nodweddion allweddol sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y fframwaith arfaethedig yn cefnogi'r nod o gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg?
- Rhowch fanylion / enghreifftiau.
 - Oes angen newid / mireinio unrhyw agweddau penodol er mwyn gwireddu nod y rhaglen?
 - Pa mor gynaliadwy yw'r [rhaglen/ni] ar gyfer y dyfodol?
26. (Newydd - os nad wedi ateb eisoes). Beth yw'r broses dilysu? Pryd mae'r dilysu'n digwydd, sut a gan bwy?
- A yw'r broses yn un addas? Yn broses sy'n sicrhau ansawdd?
 - Heriau / gwelliannau posib?

27. Mae'r gwaith o ddehongli a datblygu'r theori newid ar gyfer y Siarter Iaith wedi dechrau.
- (I'r rheiny oedd yn y gweithdy). Ar ôl cael mwy o amser i fyfrio, a oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu neu ei ddiwygio yn y theori?
 - (I'r gweddill): rhannu drafft cynnar, a'u tywys drwy'r camau, cyn eto holi os oes unrhyw beth i'w ychwanegu neu ei ddiwygio.
28. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi mewn perthynas â'r rhaglenni neu mewn perthynas â'r gwerthusiad?

Gwerthusiad o'r Siarter Iaith: canllaw holi ar gyfer ymweliadau i ysgolion [Cyfweiliadau gyda phenaethiaid, cydlynwyr y rhaglenni, athrawon, llywodraethwyr]

Noder: Bwriedir defnyddio'r canllaw holi hwn mewn modd lled-strwythuredig gyda chynrychiolwyr ysgolion y pedair rhaglen: Siarter Iaith (SI), PCAI, Cymraeg Campus (CC) a Cymraeg Bob Dydd (CBD).

	Pennaeth / Aelod uwch dîm cyfrifol	Cydlynnydd	Athrawon	Llywod- raethwyr
Rôl, cefndir a throsolwg				
1. Rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldeb a'ch swyddogaethau mewn perthynas â SI / PCAI / CC / CBD. Pa gyfrifoldeb rheoli / cydlynu / gweithredu / monitro / craffu sydd gennych dros y rhain?	✓	✓	✓	✓
2. Ers pryd y mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu yn yr ysgol? Sut y daeth y rhaglen i gael ei sefydlu yn yr ysgol? Beth oedd y prif yrrwr ar gyfer ei chyflwyno a'i gweithredu?	✓	✓	✓	✓
3. Sut y clywoch chi am y rhaglen? Sut cafodd amcanion y rhaglen eu cyfathrebu i chi?	✓	✓	✓	✓
4. A gawsoch chi fel ysgol fewnbwn i drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch sut i weithredu'r rhaglen(ni)?	✓	✓	✓	✓
5. A ydych chi'n derbyn gwybodaeth am y rhaglen? - Pa wybodaeth a sut fyddwch chi'n derbyn y wybodaeth honno? - Ydych chi fel corff yn cael cyfle i gyfrannu at ddatblygiad strategol y rhaglen?				✓
Y rhaglen yng nghyd-destun blaenoriaethau strategol yr ysgol				

	Pennaeth / Aelod uwch dîm cyfrifol	Cydlynnydd	Athrawon	Llywod- raethwyr
6. I ba raddau mae'r rhaglen yn cefnogi blaenoriaethau strategol ehangach yr ysgol? Beth yw'r gydberthynas â blaenoriaethau strategol eraill ac ym mha ffordd y mae'r rhaglen yn eu cefnogi?	✓	✓	✓	✓
Gweithredu'r rhaglen				
7. Rhowch drosolwg o sut y mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu ar draws yr ysgol. - Beth yw'r prif weithgareddau a gynhelir ar gyfer y gwahanol grwpiau oedran? <i>[Siarter Iaith yn unig]</i> - Beth yw'r trefniadau o fewn yr ysgol ar gyfer casglu data Gwe Iaith?	✓	✓	✓	✓
8. Pa agweddau ar y rhaglen sy'n gweithio'n dda? Ym mha ffordd? 9. Oes agweddau o'r rhaglen y gellir eu gwella? Ym mha ffordd?		✓	✓	
10. Sut mae gwybodaeth am y rhaglen yn cael ei chyfathrebu i staff a disgyblion ar draws yr ysgol? Sut ydych chi'n sicrhau bod disgyblion yn deall y rhaglen?	✓			
11. Beth yw rôl disgyblion wrth weithredu'r rhaglen? Sut ydych yn sicrhau bod hwn yn digwydd mewn ffordd sy'n cynnwys yr holl ddisgyblion?		✓	✓	
12. A ydych chi wedi wynebu heriau wrth weithredu'r rhaglen? - Beth yw'r heriau hyn? Ydych chi wedi eu goresgyn? Sut wnaethoch chi oresgyn yr heriau hyn? - A gawsoch chi gymorth gan y consortiwm/partneriaid eraill wrth ymateb i'r heriau?	✓	✓	✓	✓
Arweiniad a pherchnogaeth				

	Pennaeth / Aelod uwch dîm cyfrifol	Cydlynnydd	Athrawon	Llywod- raethwyr
13. Pa arweiniad y mae'r consortiwm neu awdurdod lleol yn ei gynnig i chi fel ysgol mewn perthynas â'r rhaglen?	✓	✓	✓	
14. O fewn yr ysgol, pa arweiniad sy'n cael ei gynnig i staff mewn perthynas â'r rhaglen?				
15. I ba raddau y byddech chi'n dweud eich bod chi fel ysgol wedi perchnogi a gwreiddio'r rhaglen fel rhan sefydlog o'ch gweithdrefnau / cynlluniau lefel ysgol? Nodwch enghreifftiau neu resymau am eich ateb. Beth yw'r ffactorau sydd wedi hwyluso hyn?	✓	✓	✓	✓
Gweithio mewn partneriaeth				
16. Beth yw natur y cydweithio rhwng y consortiwm a'r ysgol wrth weithredu'r rhaglen? - Sut rydych chi'n cyfathrebu a chydweithio; a pha mor aml? - A yw'r trefniadau cydweithio hyn yn ddigonol / yn effeithiol yn eich barn chi? Esboniwch pam.	✓	✓		
17. A ydych chi yn cydweithio ag ysgolion eraill wrth weithredu'r rhaglen? - Os ydych, beth yw natur/ffocws y cydweithio hwn? Pwy drefnodd y cydweithio? A yw'n ddefnyddiol? - Os nad ydych, a hoffech chi gyfleoedd i gydweithio ag ysgolion eraill fel rhan o weithredu'r rhaglen?	✓	✓	✓	
18. A ydych chi yn cydweithio gyda mudiadau / rhan-ddeiliaid allanol wrth weithredu'r rhaglen? Pwy? - Beth yw natur/ffocws y cydweithio? Pwy drefnodd y cydweithio? A yw'n ddefnyddiol? - Beth yw'r ffactorau sydd yn dueddol o ddylanwadu ar y trefniadau cydweithio hyn?	✓	✓	✓	✓

	Pennaeth / Aelod uwch dîm cyfrifol	Cydlynnydd	Athrawon	Llywod- raethwyr
A yw'r rhaglen wedi hwyluso datblygu cysylltiadau â chymuned ehangach yr ysgol? Ym mha ffordd?				
Dulliau casglu, cofnodi a dehongli tystiolaeth				
19. Pa ddefnydd rydych chi yn ei wneud o'r dystiolaeth a'r data a gesglir fel rhan o'r rhaglen? - A yw'r dystiolaeth yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar weithredu'r rhaglen? Ym mha ffordd? - A yw'r dystiolaeth yn cael ei defnyddio yn y dosbarth? - A yw'r dystiolaeth yn cael ei rhannu yn ehangach? (Rhieni / partneriaid allanol, arall?)	✓	✓	✓	✓
20. Beth yw'ch barn ar y prosesau casglu a chofnodi data sy'n gysylltiedig â'r rhaglen? <i>Siarter Iaith yn unig: y 'Gwe Iaith'</i> 21. Esboniwch y defnydd o'r Gwe Iaith yn yr ysgol - Sut a phryd y mae'r disgyblion yn cwblhau'r holiadur Gwe Iaith? Pa ddisgyblion? O dan ba amodau? - Pa ddefnydd a wneir o'r canlyniadau? 22. Ar sail eich profiad, a yw dyluniad y Gwe Iaith a'r defnydd a wneir ohono yn hwyluso cynnydd ac yn cynnig yr her angenrheidiol i ddisgyblion ac ysgolion? 23. A yw trefniadau casglu a chofnodi data ar ddefnydd iaith yn galluogi ysgolion i fesur cynnydd dros amser yn effeithiol, yn eich barn chi? - Oes yna unrhyw beth fyddai'n gwella'r trefniadau hyn?	✓	✓	✓	✓

	Pennaeth / Aelod uwch dîm cyfrifol	Cydlynnydd	Athrawon	Llywod- raethwyr
Ar sail eich dealltwriaeth chi o sut mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu, fydddech chi'n dweud bod y trefniadau casglu a chofnodi data yn galluogi'r consortiwm a Llywodraeth Cymru i fesur cynnydd dros amser yn effeithiol?				
Monitro cynnydd a sicrhau ansawdd				
24. Beth yw'r broses ar gyfer craffu a sicrhau ansawdd gweithrediad y rhaglen yn yr ysgol? 25. A yw'r broses / trefniadau hyn yn gweithio'n dda?	✓	✓	✓	
Gwelliannau ac edrych i'r dyfodol				
26. Yn eich barn chi, a oes angen newidiadau/gwaith mireinio ar agweddau penodol o'r rhaglen er mwyn ei gwella? 27. Gan edrych i'r dyfodol beth yw'r heriau ar gyfer y rhaglen (i) yn yr ysgol (ii) yn ehangach.	✓	✓	✓	✓

Grŵp trafod disgyblion ysgolion Siarter laith

(Anelu at 30 munud o sesiwn, ond addasu pe bai angen)

Adran 1: Cyflwyno a Chynhesu

Hwylusydd i gyflwyno'i hun a'r gwerthusiad:

Pwrrpas y grŵp ffocws (Defnyddio hwn fel sgript)

[Enw] dw i, o gwmni ymchwil [Arad]. Diolch am gymryd rhan mewn grŵp trafod.

Heddiw byddwn ni yn trafod y Siarter laith yn yr ysgol ac yn y gymuned. Efallai eich bod chi'n galw'r gweithgareddau yma yn Siarter laith, yn Seren a Sbarc, yn 'Camau tua'r copa', gwaith y criw Cymraeg, neu wedi ateb holiadur ar-lein neu ar bapur.

Gofynnwyd i ni gynnal y gwaith ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru gan mai'r Llywodraeth sy'n ariannu a threfnu bod Siarter laith gan ysgolion. Y prif bethau rydw i eisiau eu trafod gyda chi yw:

- *Beth ydych chi'n feddwl am y Siarter laith?*
- *I ba raddau mae'r Siarter laith wedi gwneud gwahaniaeth i chi a'ch ysgol?*
- *Eich syniadau am sut i'w newid neu ei wella.*

Rydym yn mynd i ysgolion ledled Cymru i ofyn barn ar hyn. Rydym hefyd yn gofyn i athrawon, rhieni a'r Llywodraeth hefyd i gymryd rhan.

Cyfrinachedd a Rheolau

- *Cyn mynd ymhellach, a ydych yn hapus i barhau? Oes gennych chi gwestiynau i mi?*
- *Hwylusydd i esbonio cyfrinachedd. Cyfeirio at y daflen wybodaeth. Bydd popeth a ddwedwch yma yn ddienw – ni fyddwn yn eich enwi chi mewn unrhyw adroddiad, ond yn hytrach byddwn ni yn adrodd ar sylwadau disgyblion Cymru ar y cyd.*
- *Hwylusydd i esbonio'r 'rheolau': Dim atebion cywir nac anghywir; gwranddo ar ein gilydd; does dim rhaid i chi ateb bob cwestiwn; ond dwedwch wrtha i os nad ydych chi'n deall unrhyw gwestiwn.*

Adran 2: Dod i adnabod yr ysgol a gweithgareddau'r Siarter yn yr ysgol

Yr Ysgol

1. *Dwedwch wrtha i am Ysgol [.....]*
 - *Beth sy'n dda am yr ysgol? Ydy pawb yn cytuno?*
 - *Beth yw'r peth mwyaf arbennig am yr ysgol?*

Dealltwriaeth o resymau'r Siarter laith

2. *Ydy'r athrawon yn eich annog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth, ar yr iard? Adre?*
 - a. *Sut?*
 - b. *Pam ydych chi'n meddwl bod yr ysgol / y Cydlynnydd yn eich annog chi i ddefnyddio'r Gymraeg?*
 - c. *A oes angen gwneud hyn yn yr ysgol? Pam?*

Cynllunio

3. *Pwy sy'n annog defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol?*
 - a. *Oes athro neu athrawes yn arwain ar y Siarter yn yr ysgol?*
 - b. *Oes 'Criw/Cyngor Cymraeg'? Unrhyw un fan hyn yn aelod eleni neu llynedd?*
 - c. *Dwedwch fwy wrtha i am y Criw Cymraeg.*
 - d. *Beth yw rôl disgyblion eraill?*

Gweithredu'r Siarter

4. *Pa weithgareddau Siarter laith hybu defnyddio'r Gymraeg sydd wedi digwydd yn yr ysgol?*
 - a. *[Awgrymiadau ar gyfer rhestr; ar siart os ar gael: bandiau disco gemau buarth; rhywun enwog yn ymweld, trip; chwaraeon, heriau, gwasanaeth arbennig, eisteddfod, Seren a Sbarc, cylchgronau]*
 - b. *[Awgrymu: ar yr iard, yn y dosbarth, y tu allan i'r ysgol?]*
 - c. *Beth oedd eich ffefryn chi? Pam?*
 - i. *[Ymarfer byr - Pleidlais/Sgorio nhw]*
 - ii. *Trafod: Pam bo [] yn ffefryn? Pam bo hwn yn weithgaredd da i hybu defnydd o'r Gymraeg?*
 - d. *Oes unrhyw un o'r syniadau yna y dylwn ni ei rannu gydag ysgolion eraill?*
 - e. *Beth arall hoffech chi ei wneud i hybu defnyddio'r Gymraeg?*

Partneriaeth

5. *[Cyfeirio nôl at yr atebion i 4]. Oes unrhyw un yn dod mewn i'r ysgol i helpu gyda'r rhain? Pwy sydd wedi dod mewn i'r ysgol? [Awgrymu: yr Urdd, tîm lleol, rhiant]*
- a. *Dwedwch wrtha i fwy am [y gweithgareddau].*

Casglu a dehongli data a monitro

6. *Ydych chi wedi cwblhau holiadur Gwe Iaith? Yr un oedd yn gofyn i chi a oeddech chi'n siarad Cymraeg ar yr iard, yn gwylio rhaglenni Cymraeg ac ati?*
- a. *Dwedwch wrtha i sut wnaethoch chi ei lenwi?*
- i. *Cyfrwng: ar bapur, ar y we*
- ii. *Lleoliad: ble a phryd wnaethoch chi ei lenwi;*
- iii. *Cymorth: oeddech chi'n cael cymorth i'w lenwi? Sut?*
- b. *Dwedwch wrtha i pam y'ch chi'n llenwi'r holiaduron yma.*
- c. *Ydych chi wedi gweld y canlyniadau? [Dangos gwe anhysbys].*
- d. *Ydych chi wedi defnyddio'r canlyniadau? Sut/pa wers/ beth wnaethoch chi ddysgu?*
7. *Ydy'r ysgol wedi cael gwobr Siarter Iaith (Efydd, Arian, Aur)?*
- a. *Ydych chi'n falch o hynny? Ydy hi'n bwysig bod yr ysgol yn ceisio cyrraedd lefel arian/aur?*
- b. *[I ysgolion Aur] Nawr eich bod wedi cyrraedd y wobr aur, sut fyddwch chi yn cynnal y safon a gwella?*
- c. *Oedd yr ysgol yn haeddu'r wobr [efydd/arian/aur]?*

Y dyfodol

8. *Beth gellid ei wneud i sicrhau mai [ysgol X] yw'r ysgol orau yng Nghymru o ran y Siarter Iaith ac ysbrydoli plant i ddefnyddio'r Gymraeg?*
9. *Oes unrhyw beth hoffech chi newid am y Siarter Iaith? Beth hoffech chi i fi roi yn fy adroddiad i'r Llywodraeth?*

Diolch

Arolwg ysgolion Siarter Iaith

Gwybodaeth gefndirol

1. Ym mha gonsortiw mae eich ysgol?

[Noder: ni fydd y wybodaeth hon yn galluogi'r tîm ymchwil i'ch adnabod chi o'ch ymateb. Diben gofyn y cwestiwn yw galluogi dadansoddi'r data fesul rhanbarth.]

GwE	
ERW	
Consortiw Canolbarth y De	
EAS	

2. Beth yw eich rôl yn yr ysgol?

Pennaeth	
Aelod o'r uwch-dîm rheoli	
Athro dosbarth Athrawes ddosbarth	
Arall (nodwch)	

Cynllunio

3. Ticiwch y blwch os yw'r datganiad canlynol yn gywir ar gyfer eich ysgol chi.

	✓
Mae person penodedig yn gyfrifol am gydlynw'r Siarter Iaith yn yr ysgol	

4. Pwy sy'n rhan o'r broses o gynllunio gweithgareddau Siarter Iaith yn eich ysgol chi? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Cydlynnydd Siarter Iaith	
Yr uwch-dîm rheoli	
Disgyblion	
Criw Cymraeg neu debyg / cyngor ysgol	
Rhieni	
Eraill (nodwch isod)	

Cydweithio gydag eraill wrth weithredu Siarter Iaith Cydweithio gydag eraill wrth weithredu'r Siarter Iaith

5. A yw'r datganiadau canlynol yn gywir ar gyfer eich ysgol chi?

	Ydy, cysylltiadau newydd	Ydy, cryfhau cysylltiadau oedd eisoes mewn lle	Nac ydy, dim newid
--	--------------------------	--	--------------------

Mae'r Siarter laith wedi arwain at gysylltiadau rhwng yr ysgol a phartneriaid neu fusnesau yn y gymuned.			
Mae'r Siarter laith wedi arwain at gysylltiadau rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill – cynradd neu uwchradd – wrth weithredu'r rhaglen.			

Rhannu gwybodaeth gyda rhieni

6. **A yw gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau Siarter laith yn cael ei rhannu â rhieni yn eich ysgol chi?**
[Ydy; Nac ydy]
7. **Ydy rhieni wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau i gefnogi'r Siarter laith yn eich ysgol chi?**
[Ydy; Nac ydyn]

Cefnogaeth wrth weithredu'r Siarter laith

8. **Gan feddwl am y gefnogaeth a'r deunyddiau rydych yn eu derbyn gan swyddogion Siarter laith rhanbarthol / lleol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?**

[Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/Anghytuno/Anghytuno'n gryf/Ddim yn gwybod]

Rydym yn derbyn digon o gyngor i gefnogi'r Siarter laith.

Rydym yn derbyn cyngor ar adegau priodol.

Mae'r cyngor yn cwrdd â'n gofynion.

Mae cynnwys y deunyddiau sydd ar gael yn addas.

Mae'r brandio sy'n cyd-fynd â'r Siarter laith o fudd wrth weithredu'r rhaglen (e.e. cymeriadau Seren a Sbarc)

Nodwch unrhyw sylwadau i esbonio neu gefnogi'ch atebion. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol yma.

9. **A oes unrhyw gefnogaeth ychwanegol yr hoffech ei derbyn i gefnogi gweithrediad y Siarter laith?**
[Oes/Nac oes]

[FFILTRO> Os 'Oes']

Nodwch pa gefnogaeth ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol i'ch ysgol chi. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol yma.

--

Ffactorau sy'n dylanwadu ar weithredu'r rhaglen

10. Ar sail eich profiad chi o weithredu'r Siarter Iaith, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

[Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/Anghytuno/Anghytuno'n gryf/Ddim yn gwybod]

Mae'r Siarter Iaith yn cael ei chefnogi gan uwch dîm rheoli'r ysgol.

Nid yw holl staff yr ysgol yn cefnogi'r Siarter Iaith.

Mae diffyg sgiliau staff yn y Gymraeg yn rhwystr wrth weithredu'r Siarter Iaith.

Mae disgyblion yr ysgol yn frwdfrydig dros y Siarter Iaith.

Mae'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r Siarter Iaith yn rhy feichus.

Mae digon o amser o fewn amserlen yr ysgol i weithredu'r Siarter Iaith.

Nid yw'r Siarter Iaith yn rhaglen addas ar gyfer fy ysgol i

Nid yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn flaenoriaeth i'n hysgol ni ar hyn o bryd.

Nodwch unrhyw sylwadau neu ffactorau eraill sydd wedi hwyluso neu wedi cyflwyno heriau wrth weithredu'r Siarter Iaith. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol yma.

--

Holiadur defnydd iaith: Gwe iaith

11. Mae disgyblion yn cwblhau holiaduron Gwe iaith: (Ticiwch y blwch perthnasol)

Ar bapur	
Ar-lein ar gyfrifiadur	
Mae'n amrywio: rhai dosbarthiadau ar bapur a rhai ar-lein	
Heb gwblhau'r holiaduron eto	

12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

[Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/Anghytuno/Anghytuno'n gryf/Ddim yn gwybod]

Mae amllder casglu data drwy'r holiaduron yn ein hysgol ni yn briodol.
Mae trefniadau casglu a mewnbynnu data'r holiadur yn gweithio'n effeithiol yn ein hysgol ni.
Mae ieithwedd a therminoleg yr holiadur yn addas ar gyfer disgyblion ein hysgol ni.
Mae canlyniadau'r holiadur yn sail gadarn ar gyfer cynllunio gweithgareddau Siarter Iaith ein hysgol ni.
Mae'r holiadur yn ddull effeithiol o fonitro a chofnodi traweffaith y Siarter Iaith yn ein hysgol ni.

13. Ydych chi'n defnyddio'r data fel sail ar gyfer blaenoriaethu gweithgareddau i gefnogi defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol?

14. Nodwch yn gryno sut rydych chi wedi defnyddio'r data i flaenoriaethu gweithgareddau. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth

Gwobrau aur, arian efydd a'r broses ddilysu

15. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

[Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/Anghytuno/Anghytuno'n gryf/Ddim yn gwybod]

Mae'r system wobrwyo ysgolion (aur, arian, efydd) yn ychwanegu gwerth at y Siarter Iaith yn ein hysgol ni.

Mae trefniadau ar gyfer dilysu'r gwobrau yn gweithio'n effeithiol.

Nodwch unrhyw sylwadau i esbonio neu gefnogi'ch ateb. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol yma.

--

Traweffaith

16. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

[Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/Anghytuno/Anghytuno'n gryf/Ddim yn gwybod]

Mae'r Siarter Iaith wedi arwain at agweddau mwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg ymysg disgyblion ein hysgol ni.

Mae'r Siarter Iaith wedi cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion yn ein hysgol ni.

Nid oes mwy o Gymraeg i'w chlywed ar y buarth ers i'r ysgol fod yn rhan o'r Siarter Iaith.

Mae'r Siarter Iaith wedi arwain at agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r

Gymraeg ymysg rhieni ein hysgol ni.

Y dyfodol

17. Yn eich barn chi, a oes angen newid / mireinio unrhyw agweddau penodol o'r rhaglen er mwyn ei gwella? *[Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod]*

[FFILTRO> Os 'Oes']

Pa agweddau y dylid eu newid neu eu mireinio?

--

18. Yn eich barn chi, a oes angen newid / mireinio unrhyw agweddau penodol o'r rhaglen er mwyn ei gwella? *[Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod]*

19. Nod tymor hir y Siarter Iaith yw cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion ysgol. A oes gennych unrhyw syniadau pellach ar gyfer gwireddu'r nod hwn?

Arolwg ysgolion Cymraeg Campus

Gwybodaeth gefndirol

1. Ym mha gonsortiw mae eich ysgol?

[Noder: ni fydd y wybodaeth hon yn galluogi'r tîm ymchwil i'ch adnabod chi o'ch ymateb. Diben gofyn y cwestiwn yw galluogi dadansoddi'r data fesul rhanbarth.]

GwE	
ERW	
Consortiw Canolbarth y De	
EAS	

2. Beth yw eich rôl yn yr ysgol?

Pennaeth	
Aelod o'r uwch-dîm rheoli	
Athro dosbarth / Athrawes ddosbarth	
Arall (nodwch)	

Cynllunio

3. Ticiwch y blwch os yw'r datganiad canlynol yn gywir ar gyfer eich ysgol chi.

	✓
Mae person penodedig yn gyfrifol am gydlyn Cymraeg Campus yn yr ysgol	

4. Pwy sy'n rhan o'r broses o gynllunio gweithgareddau Cymraeg Campus yn eich ysgol chi? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Cydlynnydd Cymraeg Campus	
Yr uwch-dîm rheoli	
Disgyblion	
Rhieni	
Eraill (nodwch isod)	

Cydweithio gydag eraill wrth weithredu Cymraeg Campus

5. A yw'r datganiadau canlynol yn gywir ar gyfer eich ysgol chi?

	Ydy, cysylltiadau newydd	Ydy, cryfhau cysylltiadau oedd eisoes mewn lle	Nac ydy, dim newid
Mae Cymraeg Campus wedi arwain at gysylltiadau rhwng yr			

ysgol a phartneriaid neu fusnesau yn y gymuned.			
Mae Cymraeg Campus wedi arwain at gysylltiadau rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill – cynradd neu uwchradd – wrth weithredu'r rhaglen.			

Rhannu gwybodaeth gyda rhieni

- 6. A yw gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau Cymraeg Campus yn cael ei rhannu â rhieni yn eich ysgol chi?**

[Ydy Nac ydy]

Cefnogaeth wrth weithredu Cymraeg Campus

- 7. Gan feddwl am y gefnogaeth a'r deunyddiau rydych yn eu derbyn gan swyddogion Cymraeg Campus rhanbarthol lleol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?**

[Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/Anghytuno/Anghytuno'n gryf/Ddim yn gwybod]

Rydym yn derbyn digon o gyngor i gefnogi Cymraeg Campus.

Rydym yn derbyn cyngor ar adegau priodol.

Mae'r cyngor yn cwrdd â'n gofynion.

Mae cynnwys y deunyddiau sydd ar gael yn addas.

Nodwch unrhyw sylwadau i esbonio neu gefnogi'ch atebion. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol yma.

- 8. A oes unrhyw gefnogaeth ychwanegol yr hoffech ei derbyn i gefnogi gweithrediad Cymraeg Campus?**

[Oes/Nac oes]

[FFILTRO> Os 'Oes']

Nodwch pa gefnogaeth ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol i'ch ysgol chi. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol yma.

Ffactorau sy'n dylanwadu ar weithredu'r rhaglen

9. Ar sail eich profiad chi o weithredu Cymraeg Campus, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

[Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/Anghytuno/Anghytuno'n gryf/Ddim yn gwybod]

Mae Cymraeg Campus yn cael ei gefnogi gan uwch dîm rheoli'r ysgol.
Nid yw holl staff yr ysgol yn cefnogi Cymraeg Campus.
Mae diffyg sgiliau staff yn y Gymraeg yn rhwystr wrth weithredu Cymraeg Campus.
Mae disgyblion yr ysgol yn frwdfrydig dros Cymraeg Campus.
Mae'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â Cymraeg Campus yn rhy feichus.
Mae digon o amser o fewn amserlen yr ysgol i weithredu Cymraeg Campus.
Nid yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn flaenoriaeth i'n hysgol ni ar hyn o bryd.

Nodwch unrhyw sylwadau neu ffactorau eraill sydd wedi hwyluso neu wedi cyflwyno heriau wrth weithredu Cymraeg Campus. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol yma.

--

Holiadur defnydd iaith Data monitro

10. Mae disgyblion yn cwblhau holiaduron ar eu defnydd o'r Gymraeg trwy'r dulliau canlynol: (Ticiwch y blwch perthnasol)

Ar bapur	
Ar-lein ar gyfrifiadur	
Mae'n amrywio: rhai dosbarthiadau ar bapur a rhai ar-lein	
Heb gwblhau'r holiaduron eto	

11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

[Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/Anghytuno/Anghytuno'n gryf/Ddim yn gwybod]

Mae amllder casglu data drwy'r holiaduron yn ein hysgol ni yn briodol.
Mae trefniadau casglu a mewnbynnu data'r holiadur yn gweithio'n effeithiol yn ein hysgol ni.
Mae ieithwedd a therminoleg yr holiadur yn addas ar gyfer disgyblion ein hysgol ni.
Mae canlyniadau'r holiadur yn sail gadarn ar gyfer cynllunio gweithgareddau Cymraeg Campus ein hysgol ni.
Mae'r holiadur yn ddull effeithiol o fonitro a chofnodi traweffaith Cymraeg Campus yn ein hysgol ni.

Gwobrau aur, arian efydd a'r broses ddilysu

12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

[Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/Anghytuno/Anghytuno'n gryf/Ddim yn gwybod]

Mae'r system wobrwyo ysgolion (aur, arian, efydd) yn ychwanegu gwerth at Cymraeg Campus yn ein hysgol ni.

Mae trefniadau ar gyfer dilysu'r gwobrau yn gweithio'n effeithiol.

Nodwch unrhyw sylwadau i esbonio neu gefnogi'ch ateb. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol yma.

Traweffaith

13. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

[Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/Anghtuno/Anghtuno'n gryf/Ddim yn gwybod]

Mae Cymraeg Campus wedi arwain at agweddau mwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg ymysg disgyblion ein hysgol ni.

Mae Cymraeg Campus wedi cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion yn ein hysgol ni.

Mae Cymraeg Campus wedi arwain at agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg ymysg rhieni ein hysgol ni.

Nodwch unrhyw sylwadau ar draweffeithiau Cymraeg Campus. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol yma.

Y dyfodol

14. Yn eich barn chi, a oes angen newid neu fireinio unrhyw agweddau penodol o'r rhaglen er mwyn ei gwella? *[Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod]*

[FFILTRO> Os 'Oes']

Pa agweddau y dylid eu newid neu eu mireinio?

Atodiad 3: Detholiad o dargedau a meini prawf Cymraeg Campus

GWOBR EFYDD



Enghreifftiau o feini prawf Targed 1: Sefydlu ethos Cymreig gweledol.

10 o feini prawf, yn cynnwys:

- Mae cynnydd yr ysgol yng Ngwobr Efydd y Siarter Iaith yn cael ei arddangos yn glir.
- Mae'r ysgol yn cynnal cystadleuaeth i gynllunio poster 'Croeso' a fydd yn cael ei arddangos o gwmpas yr ysgol.
- Mae'r dderbynfa yn adlewyrchu gweledigaeth gyfoes o Gymru.
- Mae arddangosfa Gymraeg cyffredinol yn y dosbarth.
- Mae elfen o'r Gymraeg ar lefel briodol yn weladwy ar arddangosfeydd pynciol dosbarthiadau eraill.

GWOBR ARIAN



Targed 1: Sefydlu ethos Cymreig gweledol. 10 o feini prawf, yn cynnwys:

- Mae cynnydd yr ysgol yng Ngwobr Arian y Siarter Iaith yn cael ei arddangos yn glir.
- Mae'r disgyblion yn gweithio ar brosiect i arddangos y gair 'Croeso' mewn lle amlwg y tu allan i'r ysgol e.e. murlun mawr, mosaic a.y.y.b.
- Mae'r dderbynfa a'r Neuadd yn adlewyrchu gweledigaeth gyfoes o Gymru.
- Arddangosfa Gymraeg yn y dosbarth yn gysylltiedig â'r thema gyfredol.
- Mae'r Gymraeg yn amlwg weledol ar lefel briodol ar lawer o arddangosfeydd.

Targed 3: Y defnydd o Gymraeg achlysurol o fewn yr ystafell ddosbarth. 10 o feini prawf, yn cynnwys:

- Mae athrawon a disgyblion yn dilyn sgript e.e. i drafod y tywydd, dyddiau'r wythnos, ayyb.
- Manteisia'r staff ategol ar bob cyfle i ddefnyddio Gymraeg achlysurol.
- Mae athrawon yn cyfarch ei gilydd yn Gymraeg ac yn gofyn cwestiynau sylfaenol eraill.
- Mae athrawon yn ysgrifennu sylw cyffredinol yn Gymraeg yn llyfrau gwaith y disgyblion yn y rhan fwyaf o bynciau.

GWOBR AUR



Targed 1: Sefydlu ethos Cymreig gweledol. 10 o feini prawf, yn cynnwys:

- Mae cynnydd yr ysgol yng Ngwobr Aur y Siarter Iaith yn cael ei arddangos yn glir.
- Dangosir brawddeg yr wythnos yn glir ar hysbysfwrdd y rhieni ac anelir i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Mae arddangosfa ryngweithiol Gymraeg yn y dosbarth yn gysylltiedig â'r thema gyfredol.
- Mae arddangosfeydd rhyngweithiol Cymraeg y tu allan i'r dosbarthiadau.
- Mae'r Gymraeg yn amlwg weledol ar bron pob un o'r arddangosfeydd gan ddefnyddio nodweddion rhyngweithiol e.e. Codau QR a botymau recordio.

Ffynhonnell: Llawlyfr Cymraeg Campus (ERW 2016)